



Cynllun Gwella Rhan 2

Arolwg Blynyddol o Berfformiad 2013/14

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Arolwg Cyffredinol ar Berfformiad Cyngor Bro Morgannwg 2013/14	6
3. Crynhoi cynnydd yn ôl ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2013/14.....	18
4. Ein Hamcanion Gwella'n Fanwl	25
4.1. Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd	25
4.2. Rhoi cymorth a chyngor ynglŷn â thai.....	31
4.3. Diogelu ein plant a'n pobl ifanc fregus.....	37
4.4. Gwella cyflawniad a phresenoldeb yn ein hysgolion a'n canolfannau dysgu	41
4.5. Rheoli ein hadnoddau	47
4.6. Gwneud cwsmeriaid yn ganolbwynt ein gwasanaeth	50
4.7. Gwarchod a chynnal a chadw'r amgylchedd	56
4.8. Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd.....	59
5. Perfformiad Bro Morgannwg ar ddiwedd blwyddyn 2013/14: Dangosyddion Perfformiad a gesglir yn genedlaethol.....	67

1. Cyflwyniad

Diben Cynllun Gwella Rhan 2 : Adolygiad Blynyddol o Berfformiad yw dangos bod Cyngor Bro Morgannwg yn cyflawni ei ddyletswydd o dan Fesur Llywodraeth leol (Cymru) 2009 drwy wella'n barhaol. Er y byddwn bob amser yn ymdrechu i wella ein gwasanaethau, y mae'n bwysig i ni nodi ychydig o feysydd bob blwyddyn ar gyfer sylw penodol er mwyn i ni gael gwella'n sylweddol yn gyflymach. Rydym wedi nodi wyth Amcan Gwella yn ein [Cynllun Gwella Rhan 1 Amcanion Gwella 2013/14](#) ac y mae adroddiad manwl yn y cynllun hwn ar ein cynnydd hyd yma o safbwynt cyflawni'r amcanion hyn..

Mae'r cynllun hefyd yn crynhoi perfformiad y Fro'n gyffredinol yn ystod 2013/14 a'n perfformiad hefyd ar nifer o wahanol wasanaethau gan ddefnyddio dangosyddion perfformiad cenedlaethol a fydd yn cael eu casglu a'u cyhoeddi bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru ac Uned Data Llywodraeth Leol. Gwelir hefyd arolwg cyffredinol ar gydweithio â phartneriaid/gydweithio a gynhaliwyd yn ystod 2013/14 sy'n tynnu sylw at ein cynnydd a'n llwyddiant hyd yn hyn.

Sylfaen ein Hamcanion Gwella yw Cynllun Corfforaethol 2013-17 sy'n dangos ein canlyniadau blaenoriaeth ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Seiliwyd y canlyniadau blaenoriaeth hyn yn eu tro ar [Strategaeth Gymunedol Integredig Bro Morgannwg](#), sy'n pennu hynt Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.

Gweler ein Hamcanion Gwella a'r cysylltiad â'r prif ganlyniadau blaenoriaeth yng [Nghynllun Corfforaethol 2013-17](#) isod ynghyd â barn gyffredinol ar bob Amcan Gwella. Mae arolwg cyffredinol cryno ar bob amcan gwella rhwng tudalen 15 ac 20 a chewch ragor o fanylion yn adran ['Ein Hamcanion Gwella'n Fanwl'](#).

Amcanion Gwella 2013/14	Cynllun Corfforaethol (2013-17) Meysydd Canlyniad	Arweinydd	Asesiad yr Awdurdod Lleol
1. Hyrwyddo ymarferion cynaliadwy yn ein gwaith gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau gwastraff a'r gyfran o'r gwastraff sy'n cael ei gladdu yn y ddaear a sicrhau bod mwy o ailgylchu.	Yr Amgylchedd Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd	Miles Punter	Cyflawnwyd
2. Cymryd llai o amser i ddarparu 'grantiau cyfleusterau i'r anabl' ar gyfer plant a phobl ifanc fel y bydd ein perfformiad o leiaf gystal â pherfformiad Cymru'n gyffredinol yn ystod 2011/12.	Tai Rhoi cymorth a chyngor ynglŷn â thai	Rob Thomas	Cyflawnwyd

Amcanion Gwella 2013/14	Cynllun Corfforaethol (2013-17) Meysydd Canlyniad	Arweinydd	Asesiad yr Awdurdod Lleol
3. Cynyddu nifer gofalwyr maeth y cyngor.	Plant a Phobl Ifanc Diogelu ein plant a phobl ifanc fregus	Phil Evans	Cyflawnwyd
4. Cefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad disgyblion Cyfnod Allweddol 3.	Dysgu a Sgiliau Gwella cyrhaeddiad a phresenoldeb yn ein hysgolion a chanolfannau dysgu	Jennifer Hill	Cyflawnwyd
5. Gweithredu cynlluniau effeithiol a chynaliadwy ar gyfer gweithlu'r Cyngor.	Arweiniad Cymunedol Rheoli ein Hadnoddau	Siân Davies	Cyflawnwyd
6. Cysylltu'n well â dinasyddion drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u gwella yng ngoleuni barn trigolion a bod mwy o gyfle i drigolion ddylanwadau ar benderfyniadau a gwell darpariaeth ar gyfer hynny.	Arweiniad Cymunedol Gwneud cwsmeriaid yn ganolbwynt ein gwasanaethu	Siân Davies	Cyflawnwyd
7. Mynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli'r perygl o lifogydd lleol a pheryglon arfordirol.	Yr Amgylchedd Gwarchod a chynnal a chadw'r amgylchedd	Miles Punter	Cyflawnwyd
8. Gostwng nifer y bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant .	Dysgu a Sgiliau Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd	Jennifer Hill	Cyflawnwyd i raddau

Cynlluniau gwasanaethau, manylion am berfformiad gwasanaethau, y gofrestr risg gorfforaethol, ymgynghoriadau cyfredol a darganfyddiadau adolygiadau gwella ac asesiadau rheoli yw'r prosesau a fu o gymorth fwyaf i ni ffurfio ein hamcanion gwella. Gwahoddwyd prif fudd-ddeiliaid gan gynnwys ein partneriaid statudol ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned, sefydliadau'r sector gwirfoddol, trigolion y Fro a busnesau lleol i fynegi eu barn am amcanion gwella arfaethedig yn ystod ymgynghoriad a gynhaliwyd am 6 wythnos. Bu'r ymgynghoriad hwn o gymorth i ni lunio ein hamcanion terfynol.

Mae'n bwysig i ni adolygu ein cynnydd a chyflwyno adroddiadau i aelodau etholedig a'r cyhoedd ar yr hyn a gafodd ei wella a'r hyn y gallem ei wella. Byddwn yn cyflawni ein hamcanion gwella drwy weithredu cynlluniau gwasanaethau sy'n cynnwys manylion am y camau gweithredu a'r mesurau y bydd yn rhaid eu cymryd, yr adnoddau angenrheidiol, amserlen y cyflawni a'r rhai a fydd yn atebol. Caiff y rhain eu monitro drwy system Ffynnon (meddalwedd rheoli perfformiad y Cyngor). Bydd cynnydd mewn meysydd gwella'n cael ei archwilio'n fanwl bob chwarter gan aelodau etholedig ac y mae ein hadroddiadau i'w gweld ar-lein drwy fynd i www.valeofglamorgan.gov.uk. Yn unol â'r trefniadau ar gyfer monitro perfformiad corfforaethol, bydd adroddiad ar y cynnydd yn ôl y blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol, ein Hamcanion Gwella a'r Cytundeb â Llywodraeth Cymru ynglŷn â chanlyniadau'n cael ei

gyflwyno bob chwarter i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r Pwyllgorau Craffu. Bydd adroddiad ar ein Hamcanion Gwella hefyd yn cael ei gyflwyno bob chwe mis i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Bydd meysydd sy'n methu â pherfformio i safon yn cael eu herio yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Corfforaethol a chyfarfodydd Timau Rheoli Adrannol, a chytunir ar gamau ar gyfer eu gwella fel y bo'n briodol.

Fel pob cyngor arall yng Nghymru, y mae'r Fro'n wynebu cyfnod anodd o gynt ariannol. Mae'n rhaid i ni arbed mwy o arian nag erioed o'r blaen yn ystod y tair blynedd nesaf a chyflawni agenda wella uchelgeisiol ar yr un pryd. Dim ond drwy newid ein dulliau o weithio ac o ddarparu gwasanaethau'n sylfaenol y gwnawn ni hynny, felly y mae defnyddio adnoddau'n effeithiol yn bwysicach nag erioed..

Rydym wedi gosod targedau anodd yn ôl pob un o'r mesurau gwella sy'n dangos ein bod wedi ymrwymo'n llwyr i barhau i wella'r gwasanaethau y byddwn yn eu darparu ar gyfer dinasyddion y Fro. Serch hynny, gwyddom y bydd y pwysau ariannol a'r galw am wasanaethau'n aruthrol yn ystod y flwyddyn i ddod, a chafodd y prif dargedau a'r cerrig milltir ar gyfer cyflawni amcanion gwella eu gosod y tu fewn i'r cyd-destun hwnnw. Bydd hi felly'n gamp i rai gwasanaethau gynnal ei lefel berfformiad presennol yn ogystal â chynnwys toriadau ariannol, a rheoli unrhyw alw cynyddol am wasanaeth. Cymerwyd y problemau hyn i ystyriaeth wrth bwysu a mesur yr amcanion a'r targedau gwella'n fewnol.

Os hoffech wneud unrhyw sylwadau ar ôl darllen y cynllun hwn cewch:
anfon llythyr i'r: Adran Berfformio a Datblygu, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri, CF63 4RU neu
neges i: improvements@valeofglamorgan.gov.uk neu drwy
ffonio: 01446 700 101

Mae sawl darpariaeth ar gael ar gyfer dylanwadau ar benderfyniadau'r Cyngor gan drigolion. Cewch gyfranogi drwy ymuno â'n panel dinasyddion - Barn y Fro - a chymryd rhan yn yr ymgynghoriadau sy'n cael eu cynnal gan neu ar ran y Cyngor a'i bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Y cyfan sydd angen ei wneud yw llenwi'r [ffurflen fer ar-lein](#). Mae ein Pwyllgorau Craffu ar agor i bawb ac yn gyfle da i'r cyhoedd ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Cewch ofyn i Bwyllgor Craffu ystyried maes gwasanaeth neu bwnc drwy lenwi [ffurflen gais am adolygu](#). Cewch hefyd gynnig Amcanion Gwella newydd i'r Cyngor drwy ddefnyddio'r manylion uchod i gysylltu â ni.

2. Arolwg Cyffredinol ar Berfformiad Cyngor Bro Morgannwg 2013/14

Mae'r adran hon yn cynnwys pwyntiau amlycaf ein perfformiad yn ystod blwyddyn ariannol 2013/14 .

Ein prif gyflawniadau

Er gwaethaf yr hinsawdd economaidd anodd a'r galw cynyddol am wasanaethau, yr ydym wedi llwyddo i gyflawni cryn dipyn er lles dinasyddion y Fro. Dyma rai o'n prif gyflawniadau a'r meysydd y buom yn rhagori ynnddynt yn ystod 2013/14:

- Roeddem nid yn unig wedi rhagori ar ein targed ar gyfer darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (sef 326 o ddiwrnodau) ond hefyd ar berfformiad Cymru'n gyffredinol ar gyfer 2011/12, a hynny o 42 o ddiwrnodau. Mae ein perfformiad o safbwynt darparu'r grantiau yma'n gwella ar hyd yr amser, a byddwn yn cymryd 284 o ddiwrnodau erbyn hyn, o'u cymharu â 346 y llynedd. Yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, gwelwyd gostyngiad o 75% yn nifer y diwrnodau y bu'n rhaid i gwsmeriaid aros am Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl h.y. 284 o ddiwrnodau yn 2013/14 a 1,046 o ddiwrnodau yn 2008. Yn ystod 2013/14, yr oedd y gostyngiad yn nifer y diwrnodau a dreuliwyd i ddarparu'r grantiau hyn yn 18% yn fwy nag yn ystod 2012/13 o'i gymharu â'r 12% a welwyd yng Nghymru'n gyffredinol. Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn a dywedodd mwy na 97% o'r rhai a dderbyniodd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fod yr help a gawsant o gymorth iddynt gadw'n fwy diogel a byw'n fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain. Dyma wella unwaith eto ar ein perfformiad yn ystod 2012/13 pan oedd y ganran gyfatebol yn 90%. 127 o oedolion a gafodd gymorth i fyw'n fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o'u cymharu â 86 yn ystod y flwyddyn flaenorol. Er gwaethaf y gwelliannau hyn, yr ydym yn dal yn y chwarter isaf yng Nghymru o safbwynt ein perfformiad a chan hynny wedi ymrwymo i adolygu ein prosesau mewnol a'n hymarfer gorau er mwyn cael darparu grantiau'n gynt ar gyfer ein cwsmeriaid. Mae'r angen am yr ymrwymiad hwn yn cael ei adlewyrchu yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol ar gyfer 2013/14 a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru. Gwella'n gyson a'r un mor gyflym ag awdurdodau eraill yw'r nod.
- Gwnaethom gryn gynnydd yn ein perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 3, yn enwedig yn ôl Dangosydd Pynciau Craidd. Rydym wedi gwella yn ôl pob un o'r 6 mesur perfformiad ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac wedi gwella'n fwy yn ôl yr holl fesurau hyn nag a wnaethpwyd yng Nghymru'n gyffredinol. Rydym wedi cyrraedd ein holl dargedau Amcan Gwella ac erbyn hyn yn un o'r 4 awdurdod sy'n perfformio orau yng Nghyfnod Allweddol 3 ac y mae hyn yn sylfaen dda ar gyfer gwella'n fwy fyth.
- Rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwefan er mwyn gwella profiad ein cwsmeriaid a chymell dinasyddion i gymryd rhan yn ein gweithgareddau. Mae golwg newydd, ddiwygiedig ar ein gwefan erbyn hyn ar ôl i ni ddechrau defnyddio system rheoli cynnwys newydd a bydd pawb sy'n ymweld â'r wefan drwy ddefnyddio ffôn symudol a chyfrifiadur yn cael profiad gwell o lawer. Mae meddalwedd 'Browsealoud' yn caniatáu i unrhyw un a chanddo nam ar ei olwg neu anawsterau ysgrifennu a darllen amlygu darn o destun a gofyn i'w gyfrifiadur ei ddarllen yn uchel. Yn ôl cwmni Sitemorse, gwefan y Fro yw'r ail orau yng Nghymru. Mae meddalwedd a osodwyd yn chwarter cyntaf y flwyddyn er mwyn casglu sylwadau cwsmeriaid yn cael ei defnyddio'n fwy effeithiol erbyn hyn i helpu gwasanaethau i wella yn y dyfodol. Mae llawer o gwsmeriaid wedi cofrestru ar gyfer Cyswllt y Fro er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am bynciau

drwy neges e-bost ac y mae dros 10,000 o danysgrifwyr a 18,000 o bynciau'n cael eu gwyntyllu erbyn hyn. Rydym wrthi o hyd yn datblygu ein cyfryngau cymdeithasol fel cyfrwng ymdrin ag ymholiadau cwsmeriaid, ac y mae mwy o bobl yn ein dilyn ar Twitter a Facebook ar hyd yr amser (Facebook: 4210; Twitter: 8,543). Ym Medi 2013, cyflwynodd canolfan gyswilt UnFro arolygon er mwyn cofnodi sylwadau cwsmeriaid yn sgîl galwadau. Erbyn diwedd Mawrth 2014, yr oedd mwy na 5000 o arolygon wedi'u cwblhau, ac yr oedd 95% o gwsmeriaid ar gyfartaledd yn fodlon ar y gwasanaethau a gawsant.

- Llwyddodd Tîm Iechyd Meddwl Pobl Hŷn i leihau amserau aros ar gyfer asesiadau'n sylweddol. Cymeradwyodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ein perfformiad yn hyn o beth yn sgîl ei harolwg. Mae canran yr oedolion a atgyfeiriwyd ar gyfer eu diogelu y llwyddwyd i reoli'r hyn a fu'n eu peryglu wedi cynyddu o 96% i 100%. 8% yn fwy o oedolion a gafodd gymorth i fyw gartref eleni na'r llynedd sy'n cyfrannu at ein nod ynglŷn â helpu pobl i fyw'n annibynnol am fwy o amser.
- Bydd 100% o ddatganiadau terfynol o Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu cyflwyno o fewn y cyfnod targed cenedlaethol (26 wythnos) erbyn hyn. Bu gwella aruthrol yn y maes hwn, ac ar ôl cael ein graddio'n 20^{fed} awdurdod gorau Cymru yn 2012/13 gyda sgôr o 48%, byddwn yn codi i'r safle cydradd orau ar ddiwedd y flwyddyn hon.
- Rydym wedi llwyddo i droi mwy o dai gwag yn y sector preifat yn dai annedd drwy weithredu'n uniongyrchol. Er mwyn ymateb i Strategaeth Cartrefi Gwag y Cyngor a Chynllun Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd adnodd amser llawn a fu'n ein helpu'r gwasanaeth i dargedu holl eiddo gwag y Fro'n fwy effeithiol. Gan gyfeirio at gronfa ddata eiddo gwag, byddwn yn ysgrifennu at berchnogion er mwyn egluro Strategaeth y Cyngor, opsiynau ar gyfer defnyddio'r eiddo unwaith eto, benthyciad Troi Tai'n Gartrefi a'r camau y gallai'r Cyngor eu cymryd er mwyn gorfodi defnyddio eiddo. Mae rhaglen gyfredol hefyd ar gyfer ymweld â'r holl eiddo gwag a'i asesu am risg er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir er mwyn gorfodi ei ddefnyddio'n cymryd peryglon i ystyriaeth. Yn ogystal ag anfon llythyrau cynghori, bydd y tîm hefyd yn gwneud gwaith ymchwil gyda pherchnogion eiddo gwag er mwyn cael deall y problemau sy'n wynebu perchnogion eiddo yn y Fro. Cafodd mwy o eiddo ei ddefnyddio unwaith eto yn ystod 2013/14 o ganlyniad i'r gweithredu uniongyrchol hyn gan y Cyngor.
- Fel bob amser, yr ydym wedi ymrwymo i sicrhau y gall cwsmeriaid ddefnyddio gwasanaethau'r Cyngor heb unrhyw drafferth. Yn ystod 2013/14, 95.1% o'r holl daliadau yn y Fro a gafodd eu gwneud ar y we, sef y drydedd ganran uchaf yng Nghymru. 88.4% oedd y ganran ar gyfartaledd. Rydym wedi gosod rhwydweithiau diwifr yn ein holl ysgolion ac y mae pob prif adeilad y cyngor sydd ar agor i'r cyhoedd erbyn hyn yn cynnig system wi-fi i bawb ei defnyddio'n rhad ac am ddim.
- Mae'r Cyngor wedi cael cryn dipyn o fudd ariannol o ddefnyddio mathau eraill o lety dros dro gan arbed £400,000 o'r gronfa gyffredinol ac yn bwysicach oll, bu'r mathau o lety a gynigiwyd i bobl ddigartref yn fwy priodol. Ni chafodd unrhyw deuluoedd a phlant eu lleoli mewn gwestai gwely a brechwast ers Awst 2012. Nid oes neb yn byw mewn gwesty gwely a brechwast o dan ofal gwasanaeth y digartref ers Ionawr 2013. A phwysau ariannol a chymdeithasol yn prysur gynyddu, bu'r Cyngor yn ymdrechu'n galetach i atal digartrefedd, gan gydnabod bod angen chwilio am ffyrdd mwy pwyllog o gynnig cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth a threfnu ar gyfer cynnwys unigolion mewn cymdeithas. O ganlyniad, y mae'r hostel 21 ystafell newydd ei hadnewyddu o eiddo'r Cyngor, sef Tŷ Iolo, bellach yn lle delfrydol ar gyfer cynnal a staffio llawer o'r cynlluniau hyn, ac yn bwysicach fyth, y mae'r trigolion a'r gymuned ehangach erbyn hyn yn cydnabod ei gwerth.

- Rydym wedi cyflawni ein Hamcan Gwella ynglŷn â darparu rhagor o ofalwyr maeth mewnol yn y Fro drwy recriwtio 8 gofalwr newydd. Lleolwyd llai o blant hefyd gyda gofalwyr maeth allanol. Gwariwyd llai fesul plentyn ar leoliadau maeth o ganlyniad i hynny. Cafodd 100% o'r holl ofalwyr ifanc y gwyddai'r Cyngor amdanynt eu hasesu (a dyna'r perfformiad gorau yng Nghymru). Cododd nifer yr asesiadau craidd a gwblhawyd o fewn y cyfnod cymeradwy – sef 35 o ddiwrnodau gwaith – i 91% o'i gymharu â 76% yng Nghymru'n gyffredinol. Mae'r ganran o blant a leolwyd yn fwy na thair gwaith wedi gostwng o 11.7% yn 2012/13 i 10.4% yn 2013/14. Mae gan bob plentyn dan ofal weithiwr cymdeithasol. Bydd cynllun gofal o'r cychwyn ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei leoli a bydd 97% o'r holl gynlluniau gofal yn cael eu hadolygu o fewn yr amser priodol.
- Bro Morgannwg yw'r lle prysuraf yng Nghymru o safbwynt ymarfer corff ôl ystadegau a gyhoeddwyd gan Chwaraeon Cymru. 49% o holl oedolion y Fro a fydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu'n dilyn gweithgareddau ymarfer corff o leiaf 3 gwaith yr wythnos o gymharu â 39% yng Nghymru'n gyffredinol. Mae'r canlyniadau hyn yn adeiladu ar ein llwyddiant yn yr arolwg diweddar ar chwaraeon ysgolion lle rhestrwyd y Fro'n 2^{il} yng Nghymru o safbwynt nifer y plant a'r bobl ifanc a fydd yn cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff o leiaf 3 gwaith yr wythnos (44%). Bu'r Cyngor yn gweithio'n galed er mwyn annog mwy o bobl i wneud ymarfer corff gan fuddsoddi £3 miliwn yn ei ganolfannau hamdden ar adeg pan fu cynghorau eraill yn ystyried cau cyfleusterau. Mae rhedeg canolfannau hamdden ar y cyd â chwmni Parkwood wedi profi'n llwyddiannus ar y cyfan, nid yn unig am fod costau wedi gostwng, ond am fod profiad y cwsmer hefyd wedi gwella ar ôl i ni wella pob canolfan. Serch hynny, y mae angen sicrhau bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'n canolfannau hamdden, a bydd hynny'n cael y prif sylw yn ein trafodaethau â chwmni Parkwood Leisure.
- Llenwyd mwy na 2,400 o dyllau ychwanegol yn y ffordd y llynedd wrth i brosiect TRWSIO TWLL y Cyngor ymweld â phob un o'r 23 ward, annog y cyhoedd i roi gwybod am unrhyw ddiffygion yn eu heolydd, a dod i ben â'r gwaith yn ystod un penwythnos ym mhob ward.
- Datblygwyd, cynlluniwyd a gweithredwyd nifer o gynlluniau ar gyfer gwella'r briffordd a diogelu cerddwyr ym mhob rhan o'r Fro gan ddefnyddio grant diogelwch y ffordd gwerth £240,000 oddi wrth Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys ail-lunio'r gyffordd gylchdro sy'n cysylltu Port Road â Morfa Lane, Gwenfô; lledu llwybr troed yn Cardiff Road, Dinas Powys; gwella'r groesfan sebra yn Barry Road, Y Barri; a chychwyn ar brif gynllun yn ffordd osgoi'r Bont-faen drwy brynu a gosod arwyddion i rybuddio gyrwyr mewn tywydd garw.
- Mae egwyddor 'chwynnu' a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli eiddo gwag o gyfnod derbyn yr allwedd hyd eu cynnig yn parhau i ddwyn ffrwyth. Mae nifer y cartrefi gwag sy'n addas i'w gosod (gan gynnwys rhai a ddisbarthwyd fel eiddo 'anodd ei drin' neu osodiadau 'gohiriedig') wedi gostwng yn sylweddol ers Ebrill 2013 o 107 i 53. Mae'r amser a gymerwyd i osod y cartrefi 'addas' o gyfnod derbyn yr allwedd hyd eu cynnig bron wedi'i haneru o 100 o ddiwrnodau i 46. Mae ein gwaith yn y maes hwn yn dal i ddod â gwelliannau'n unol ag addewid y Cyngor ynglŷn â chwtogi ar nifer y cartrefi gwag.
- Rydym yn llwyddo i weithredu rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru o fewn y gyllideb ac yn ôl yr amserlen. Hyd yma, y mae 54.2% o'r holl waith sydd angen ei wneud y tu fewn i gartrefi tenantiaid wedi'i gwblhau. Mae tenantiaid yn dod yn fwy bodlon ar hyd yr amser ar y gwaith Safon Ansawdd y mae'r fframwaith contractwyr yn ei wneud, ac yr oedd Gwasanaethau Adeiladu wedi'u bodloni fwyaf o safbwynt y broses ei hun, a dod â gwaith i ben. 9 allan o 10 yw ein sgôr ar gyfartaledd.
- Llwyddwyd i gael rhagor o adnoddau drwy Gynllun Benthyciadau Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru er mwyn gwella rhwydwaith ffyrdd y Fro. Bu hyn o gymorth i ni roi wyneb newydd neu well ar fwy na 40 o ffyrdd y llynedd, ac adnewyddu cryn nifer o oleuadau

'deuod goleuo electronig' gan leihau costau goleuo strydoedd ac ôl troed carbon y Cyngor. Daethpwyd i ben â chynllun adfywio rhodfa Ynys Y Barri ym Medi 2014 a bydd hyn yn gwella manau cyhoeddus gryn dipyn drwy helpu i ddenu mwy o ymwelwyr a busnesau i'r ynys.

- Cafodd llawer iawn o gynlluniau tai eu cymeradwyo yng Nghroes Cwrlwys, Gwenfô, Ystradowen a Llanilltud Fawr a fydd yn darparu tai fforddiadwy o safon uchel ar gyfer trigolion y Fro yn ystod y blynyddoedd i ddod.
- Rydym wedi cydweithio â phob ysgol er mwyn gwella ei pherfformiad o safbwynt presenoldeb. Gan weithredu drwy'r Fforwm Presenoldeb misol, Gwasanaeth Lles Addysg a chynlluniau eraill, yr ydym wedi targedu'r ysgolion y bwriadwn eu cynorthwyo sef rhai lle y mae lefel presenoldeb yn is neu lefel absenoldeb heb ganiatâd yn uwch. Rhoddwyd strategaethau priodol ar waith er mwyn gwella presenoldeb drwyddi draw a byddwn yn monitro'r sefyllfa'n rheolaidd. Roedd ein perfformiad ar gyfer 2013/14 (93.4%) wedi ein doddi yn y chwarter uchaf ac yn 4^{ydd} yng Nghymru, sy'n sylfaen dda ar gyfer gwella eto.

Ein perfformiad yn ôl Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

Casglwyd a chyflwynwyd data ar gyfer 44 o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol yn ystod 2013/14. O'r rhain, 43¹ sy'n cynnwys data y gellir ei gymharu â data'r flwyddyn flaenorol a ddengys fod:

- 52% wedi gwella;
- 14% wedi perfformio i'r safon uchaf bosibl neu aros yr un fath;
- 32% wedi dirywio.

70% o ddangosyddion cymaradwy yng Nghymru a oedd wedi gwella, a 74.4% a oedd wedi gwella yn Ardal y De Ddwyrain. Roedd perfformiad y Fro'n well nag yng Nghymru'n gyffredinol yn ôl 25 (58%) o ddangosyddion cymaradwy ac yr oedd hynny'n cyfateb i 24 (56%) yn Ardal y De Ddwyrain.

Drwy ddadansoddi ymhellach, gwelwyd bod:

- 23 o ddangosyddion a nododd welliant (**ar sail eu gwerth DP**). Mae hyn yn rhagori ar y 21 a ddangosodd welliant y llynedd (ar sail eu gwerth DP).
- 14 o ddangosyddion a nododd ddirywiad (ar sail eu gwerth DP) yn ystod 2013/14 o'u cymharu â 10 dangosydd a nododd ddirywiad yn ystod 2012/13.
- 8 o ddangosyddion a nododd welliant yn ystod 2012/13 (ar sail eu DP) sy'n dangos dirywiad mewn perfformiad yn ystod 2013/14.
- 6 o ddangosyddion a nododd newid mewn perfformiad o gymharu'r data ar gyfer 2013/14 â'r data ar gyfer 2012/13.

Dyma ddadansoddiad o'n perfformiad yn ystod 2013/14 yn ôl chwarterlau o'i gymharu â Chymru'n gyffredinol:

¹ Roedd y data ar gyfer un DP yn ystod 2012/13 heb ei gyflwyno

- 43% (19) o ddangosyddion a restrwyd yn y chwarter uchaf ar gyfer perfformiad.
- 36% (16) o ddangosyddion a restrwyd yn y chwarter canol ar gyfer perfformiad.
- 20% (9) o ddangosyddion a restrwyd yn y chwarter isaf ar gyfer perfformiad.

Mae hyn yn rhagori ar ein perfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol pan restrwyd 17 o ddangosyddion yn y chwarter uchaf, 11 yn y chwarter canol a 15 yn y chwarter isaf.

Ar y cyfan y mae ein perfformiad yn gwella o'i gymharu â pherfformiad awdurdodau lleol Cymru'n gyffredinol. Dyma rai canlyniadau sy'n ei ddangos ar ei orau:

- Cafodd pob datganiad o anghenion addysgol arbennig ei ddarparu o fewn 26 wythnos (gan gynnwys a heb gynnwys eithriadau);
- Ni adawodd unrhyw blentyn dan ofal addysg orfodol heb gymhwyster allanol cymeradwy;
- Cawsom ein rhestru yn y chwarter uchaf ar gyfer presenoldeb disgyblion ysgolion uwchradd;
- Cafodd pob achos o oedolyn bregus yn cael ei atgyfeirio am ei fod mewn perygl, ei reoli;
- Aseswyd holl anghenion gofalywr oedolion;
- Cadwyd mewn cysylltiad â phob plentyn 19 oed a fu yng ngofal yr awdurdod;
- Sicrhawyd bod cynllun llwybr gan bob plentyn perthnasol;
- Roedd cynllun gofal gan bob plentyn yng ngofal yr awdurdod pan gafodd ei leoli;
- Roedd pob gofalywr ifanc y gwyddai'r gwasanaethau cymdeithasol amdano wedi cael ei asesu;
- Llwyddom i droi mwy o dai gwag y sector preifat yn gartrefi eto drwy weithredu'n uniongyrchol.

Fel cyngor, deallwn ei bod yn rhaid i ni hefyd berfformio'n well yn y meysydd lle restrwyd ein perfformiad yn y chwarter isaf o'i gymharu â gweddill Cymru, sef:

- Pobl 65 oed ac yn hŷn sy'n cael eu cynnal yn y gymuned;
- Nifer y cleifion sy'n aros i gael eu trosglwyddo;
- Nifer yr achosion o ddympio ysbwriel yn anghyfreithlon a gliriwyd cyn pen 5 niwrnod gwaith;
- Nifer yr asesiadau cychwynnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn sy'n dangos i blentyn gael ei weld (ei weld ar ei ben ei hun) gan weithiwr cymdeithasol; bod grant cyfleusterau i'r anabl wedi cael ei ddarparu;
- Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden lleol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn er mwyn cymryd rhan mewn ymarfer corff;

- Nifer y tai bwyta sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd.

Mae'r materion hyn yn cael eu trin yng nghynlluniau perthnasol y Cyngor. Cewch weld crynodeb a dadansoddiad o'n perfformiad yn ôl y dangosyddion cenedlaethol drwy fynd i adran ['Ein Perfformiad yn ôl Dangosyddion Cenedlaethol'](#) yn y Cynllun.

Ein Cytundeb Canlyniadau â Llywodraeth Cymru (2013-2016)

Rydym wedi cymryd cryn gamau tuag at sicrhau'r canlyniadau a restrwyd yn ein Cytundeb Canlyniadau â Llywodraeth Cymru (2013-2016) dwy gyrraedd y rhan fwyaf o'n targedau ein hunain ar gyfer 2013/14. Er i lond llaw o ganlyniadau fethu'r targed, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos i ni ragori ar berfformiad y llynedd, ac yr ydym yn cymryd camau ymarferol i gyrraedd pob targed a osodwyd ar gyfer 2014/15. Methwyd rhai targedau perfformio o gryn dipyn am i ni eu camgyfrif. Bydd yn rhaid i ni ail-drafod y rheiny â Llywodraeth Cymru a chytuno arnynt o'r newydd ar gyfer 2014/15. Cewch wybod rhagor drwy fwrw golwg dros [Gytundeb Canlyniadau 2013-2016: Adroddiad Diwedd y Flwyddyn 2013/14.](#)

<http://test.internet.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Our%20Council/Achieving%20our%20vision/Improvement/Outcome%20Agreement%20End%20of%20Year%202013-14.pdf>

Gweithio fel rhan o Bartneriaeth a Chydweithio

Rydym yn dal i gydweithio'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol â phob math o wahanol sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf cymhleth sy'n wynebu ein dinasyddion a'n cymunedau. Drwy'r partneriaethau hyn, byddwn yn llwyddo i weithio'n fwy effeithiol ac effeithlon a darparu gwell gwasanaethau ar gyfer ein dinasyddion a hefyd arbed arian. Mae'r pwysicaf o'r hyn y llwyddwyd i'w wneud drwy gydweithio wedi'i nodi isod:

- Dengys y canlyniadau i gryn dipyn o gynnydd gael ei wneud gan ddysgwyr mewn canolfannau addysg i oedolion ac addysg gymunedol ers archwiliad Estyn yn 2013, fel y'i nodwyd isod. Rhestrwyd y gwasanaeth yn 'Dda' yn ôl mesurau ESTYN o ganlyniad.

	2011/12	2012/13
Cyflawniad	89%	91%
Cyrhaeddiad	78%	86%
Llwyddiant	68%	80%

Mae gwasanaeth Addysg i Oedolion ac Addysg Gymunedol wedi gwella'n sylweddol wrth i bob rhan o'r bartneriaeth ymdrechu i gyd-drefnu gwaith yn well. Mae'r bartneriaeth wedi sefydlu grŵp strategol sy'n monitro perfformiad a chynnydd yn ôl y Cynllun Gweithredu Ôl Arolwg. Bydd aelodau'r bartneriaeth yn ymdrin â'r materion canlynol ar y cyd: cynllunio cwricwlwm, marchnata, data, ansawdd ac

adnoddau. Mae cynghorau Caerdydd a'r Fro wedi cytuno i sefydlu swyddogaeth ar y cyd a fydd yn canolbwyntio ar wella addysg a dysgu ac ar weithredu ffurf ar wasanaeth i ddysgwyr ar draws Caerdydd a'r Fro a fydd yn hunangynhaliol.

- Daethpwyd i ben â'r holl waith papur ar gyfer cytundeb Prosiect Gwyrdd (sef partneriaeth rhwng cynghorau Bro Morgannwg, Caerffili, Caerdydd, Sir Fynwy a Chasnewydd) yn Rhagfyr 2013. Pennwyd yn y modd yma brif delerau ac amodau'r cytundeb rhwng partneriaid y prosiect (sy'n gweithredu drwy'r awdurdod arweiniol) â'r contractwr, Viridor Cyf. ar gyfer cynnal safle trin gwastraff gweddillol. Bydd hyn o gymorth i ni gwtogi gryn dipyn ar y llwyth o wastraff sy'n cael ei gladdu mewn safleoedd tirlenwi ar hyn o bryd. Bydd hefyd yn ffordd fwy cost-effeithiol o gael gwared ar wastraff ac ni fyddwn mor debygol o gael ein dirwyo am beidio â didoli gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Bydd modd hefyd i ni arbed costau wrth gael gwared ar wastraff drwy sicrhau arbedion maint a bydd gan drigolion a busnesau'r Fro wasanaeth rheoli gwastraff cynaliadwy sy'n rhoi mwy o werth am arian.

Am nad yw prif contract Prosiect Gwyrdd (PG) i gael ei weithredu tan Ebrill 2016, yr ydym ni a'n partneriaid Prosiect Gwyrdd yn hen ddigon parod i weithredu contract cyfamserol â Viridor (rhwng Hydref 2014 a Hydref 2015) er mwyn cael mynd ati'n gynt i drin gwastraff gweddillol. Bydd y Fro ar ei hennill wrth lofnodi'r contract cyfamserol hwn drwy allu gweithredu'n gynt er mwyn cadw gwastraff gweddillol rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, arbed costau drwy weithio'n fwy effeithiol a buddsoddi'r arbedion hyn mewn gwasanaethau eraill ar gyfer pawb sy'n cael budd o'r Fro.

- O safbwynt yr Amgylchedd ac Adfywio Economaidd, y mae'r Cyngor wedi hen arfer â chydweithio ag awdurdodau De-ddwyrain Cymru ar gynlluniau strategol sy'n helpu i adfywio'r economi leol. Ym mis Hydref, aeth 10 awdurdod rhanbarthol y de-ddwyrain ati i gyhoeddi fframwaith strategol rhanbarthol o dan y teitl '[Llunio Dyfodol Ffyniannus](#)'. Yn ogystal ag egluro blaenoriaethau a gytunwyd, y mae'r ddogfen hefyd yn diffinio, egluro ac yn awdurdodi nifer o ddogfennau rhanbarthol eraill gan gynnwys rhai a luniwyd er mwyn cyfeirio rhaglenni Ewropeaidd.

Buom yn cydweithio â Chynghorau Caerdydd a Chasnewydd am y tro cyntaf ers tro byd wrth ymgyrchu dros statws 'Ardal a Gynorthwyr' ar gyfer y Fro pan oedd y map yn cael ei adolygu. Roedd y gweithredu hwn a ganolbwyntiai'n bennaf ar ardal y ddinas wedi sicrhau bod wardiau penodol yng nghyffiniau Ardal Fenter Maes Awyr Sain Tathan/Caerdydd a Chyffordd 34 ar Draffordd M4 yn cael eu dynodi, a chaiff busnesau yn yr ardaloedd hynny bellach hawlio mwy o gymorth.

Mae ein partneriaeth adfywio gwledig, Cymunedau Gwledig Creadigol, wedi cydweithio â nifer o gynghorau ar draws Cymru ar brosiectau cydweithredol, gan ddefnyddio nawdd oddi wrth Lywodraeth Cymru ac o Ewrop o dan Gynllun Datblygu Gwledig Cymru. Diben prosiect 'Community Foodie' a gynhelir ar y cyd â Chynghorau Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen, yw helpu cymunedau i dyfu bwyd, a bu'n llwyddiannus mewn nifer o gymunedau yn y Fro gan gynnwys Dinas Powys, Treoes, y Bont-faen, Y Wig a Llanbedr-y-fro www.communityfoodie.co.uk <<http://www.communityfoodie.co.uk/>>. Mae 'Pub is the Hub' yn brosiect a gynhelir ar y cyd ar draws 8

sir, sy'n helpu i ddarparu gwasanaethau ar gyfer cymunedau yn y Fro drwy dafarnau. Hyd yn hyn, sefydlwyd siopau newydd yn Llancaf, Moulton a Llanfleiddan a hefyd brosiectau manau cymunedol.

Mae rhaglen 2014-2020 yn rhagweld sefydlu mwy o brosiectau cydweithredol llai o faint a'r posibilrwydd y bydd rhai awdurdodau'n arwain o safbwynt gwneud cynigion rhanbarthol i Gronfa Datblygu Cymunedau Gwledig Cymru.

- Mae prosiect ynni CYD CYMRU (Cronfa Cydweithredu Rhanbarthol) yn caniatáu i drigolion newid cynlluniau ynni, arbed arian ar gostau ynni a newid eu ffordd o ddefnyddio ynni. Yn ystod y flwyddyn, yr oedd 373 o bobl wedi cofrestru gyda Chyd Cymru ar gyfer 'y cam newid cyntaf' ac yr oedd 861 o bobl wedi newid darparwr drwy ddefnyddio llinell gymorth ynni. Roedd 53% o'r rhai a newidiodd eu darparwr ynni'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro. Ar gyfartaledd, yr oedd y cwsmeriaid a newidiodd ddarparwr wedi arbed £152 yn ystod y flwyddyn, a chydâ'i gilydd, yr oedd pawb a newidiodd ddarparwr yn ystod y 'cam newid cyntaf' wedi arbed £130,964. Mewn arolwg a gynhaliwyd, dywedodd 31% o'r rhai a ymatebodd (97 o bobl) fod eu hincwm yn £20,000 neu'n llai na hynny. Amcangyfrifwyd bod rhyw 47% yn rhy dlawd i allu prynu digon o danwydd.
- Mae nifer o brosiectau'n cael eu darparu ar draws Caerdydd a'r Fro â nawdd o Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol a Chronfa Gofal Cyfamserol sy'n helpu pobl hŷn i fod yn fwy annibynnol a byw yn eu cartrefi eu hunain am fwy o amser. Yn ystod 2013/14, cafodd system gynhwysfawr a luniwyd yn unswydd er mwyn asesu gwasanaethau dydd ar gyfer pobl mewn tai â chymorth (sef Fframwaith Gwasanaethau Dydd ar gyfer Rhai mewn Tai â Chymorth) ei rhoi ar waith. Cafodd 70 o bobl mewn 28 o dai â chymorth a 3 darparwr eu hadolygu drwy ddefnyddio'r system honno. Nodwyd a sicrhawyd arbedion gwerth mwy nag £20,000 drwy ddefnyddio technolegau cynorthwyol mewn tai â chymorth, ac y mae rhagor o arbedion wedi'u nodi a gwaith yn cael ei wneud i sicrhau'r rheiny eleni. Cafodd staff gofal cymdeithasol a staff iechyd yn y gymuned eu hail-leoli mewn tri Thîm Adnoddau Cymunedol ar draws Caerdydd a'r Fro. O'r 247 o bobl a sgriniwyd yn Ysbyty Prifysgol Cymru yn ystod 7 mis cyntaf y cynllun arbrofol, 163 a ystyriwyd yn addas i dderbyn gwasanaeth drwy Dîm Adnoddau Cymunedol ac a dderbyniodd wasanaethau. Dangosodd hapsampl o 17 o ddefnyddwyr gwasanaethau a gymerwyd er mwyn asesu canlyniadau fod 53% o'r unigolion yn y sampl yn annibynnol ar ddiwedd eu cyfnod o ail-alluogi. Llwyddwyd i ymateb yn gyflymach i atgyfeiriadau ar gyfer sgrinio drwy gynnal cynllun 'cysylltu' arbrofol yn Ysbyty Prifysgol Cymru ac yr oedd nifer y diwrnodau rhwng cyfeirio claf a'i asesu wedi gostwng o 5 i 2 yn ystod 3 mis cyntaf y cynllun. Roedd y gallu ychwanegol y Timau Adnoddau Cymunedol hefyd o gymorth i ni weithio'n fwy effeithiol ac ymateb yn gyflymach i atgyfeiriadau ar gyfer sgrinio. O'r 256 o ddefnyddwyr a oedd wedi cwblhau eu pecynnau ail-alluogi erbyn yr asesiad hwn, yr oedd bron i 70% yn hollol annibynnol a 18% yn rhagor yn gallu ymdopi â phhecyn gofal tipyn yn llai. Ar y cyfan, yr oedd defnyddwyr a gofalgwyr a atebodd holiadur am y gwasanaeth ail-alluogi'n barod iawn i'w ganmol, ac yr oedd mwy nag 80% yn teimlo iddynt ddod yn annibynnol o ganlyniad i'r

cymorth a gawsant. Dywedodd y mwyafrif llethol ohonynt eu bod yn fodlon ar y cynllun ar gyfer trosglwyddo gofal o'r ysbyty a bod staff yn eu trin â pharch.

Rydym yn dal i wneud mwy o ddefnydd o Deleofal pan fo hynny'n addas er mwyn lleihau costau pecynnau gofal yn y cartref. Er mwyn rhoi mwy o ddewis o ofal, y mae'r tai cysgodol yn Redlands yn cael eu haildrefnu fel unedau ail-alluogi arbenigol, a lluniwyd tair uned felly hyd yn hyn. Mae tîm Tai a Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau bod yr unedau'n cydymffurfio â'r safonau gofynnol. Daethom o hyd i ddau ddarparwr addas yn y trydydd sector drwy broses gaffael, ac yr ydym i gyd yn cydweithio bellach er mwyn cynnig cymorth cyffredinol fel siopa, gwneud paned, cadw cwmni i ddefnyddwyr er mwyn gwella eu profiad o'r gwasanaeth ac ati - ac ni fu unrhyw gynnydd yng nghost gwasanaethau gofal yn y cartref o ganlyniad. Er mwyn helpu rhai sy'n gadael yr ysbyty a chwtogi ar y nifer sy'n mynd i'r ysbyty, byddwn yn darparu gwelyau 'cam i fyny/cam i lawr' yn y tai â gofal ychwanegol (a agorir ym mis Hydref 2014), gan neilltuo uned benodol ar eu cyfer. Rydym wedi parhau i hwyluso'r defnydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddod â thimau a gwasanaethau gofal cymdeithasol, tai ac iechyd lleol ynghyd yn y Canolbwynt Cyfathrebu a phenodi rheolwr prosiectau. Rydym hefyd wedi llunio prosesau a phrotocoliau drafft yn y ganolfan gyswllt ar gyfer Gwasanaeth Adnoddau Cymunedol y Fro.

Cewch wybod mwy am brosiectau'r Cyngor drwy fwrw golwg dros y [Compendiwm Cydweithredu](#).

Barn ein rheolwyr amdanom

Yn ôl gofynion Mesur Llywodraeth Leol Cymru, y mae'n rhaid i Archwiliwr Cyffredinol Cymru lunio adroddiad blynyddol ar Gyngorau Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill o dan y teitl 'Adroddiad Gwella Blynyddol'. Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol a luniodd ar ein cyfer ym Medi 2014 yn rhoi darlun da ar y cyfan o'n cynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau. Mae'r adroddiad yn casglu bod 'y Cyngor yn gryf ar y cyfan o ran ei allu i wella'r rhan fwyaf o wasanaethau a'i fod yn ymateb yn dda i her. Serch hynny, y mae ganddo dipyn o le i wella o safbwynt darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl a rheoli'r contract hamdden'. Dyma brif ddarganfyddiadau'r adroddiad:

- Roedd cynlluniau ar gyfer gwella pob maes a allai fod yn ddiffygiol yn ôl y data cenedlaethol.
- Dengys Arolwg a Gwerthusiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru fod gan y Cyngor gynlluniau priodol ar gyfer ymdrin â'r problemau a fydd yn eu hwynebu ym maes gofal cymdeithasol.
- Barnodd Estyn fod y Cyngor yn ddigonol o safbwynt ei wasanaeth addysg a'i allu i'w wella.
- Er i bresenoldeb wella mewn ysgolion uwchradd, ni chyrrhaeddodd y Cyngor ei nod drwy gael ei restru yn y chwarterl uchaf am ei berfformiad yn y maes hwn.

- Y Cyngor yw un o'r perfformwyr gwaethaf yng Nghymru o safbwynt darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl ac wrth ystyried y dull presennol o osod targedu, y mae'r sefyllfa hon yn bur annhebyg o newid.
- Nid oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer asesu perfformiad ei gontractwr gwasanaethau hamdden.
- Er bod rhai agweddau ar berfformiad y Cyngor o safbwynt darparu budd-dal tai wedi gwella, sef ei allu i brosesu ceisiadau'n gyflymach, er enghraifft, y mae ambell i agwedd arall, fel ei allu i gasglu taliadau dros ben, erbyn hyn ychydig yn waeth.
- Er na fydd y Cyngor bob amser yn cydymffurfio â'i Gynllun Iaith, y mae'n dechrau gweithredu cynlluniau sy'n hybu ac yn cefnogi'r Gymraeg.
- Mae adroddiadau'r Cyngor ar berfformiad yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru.
- Mae gan y Cyngor gynlluniau effeithiol ar gyfer rheoli'r her ariannol sy'n ei wynebu ac y mae wedi datblygu cynllun er mwyn paratoi ei weithlu ar gyfer y dyfodol.

Mewn ymateb y mae'r Cyngor yn datblygu cynlluniau er mwyn cael ymdrin â'r meysydd a nodwyd. Cewch weld ein Hadroddiad Gwella Blyneddol 2013/14 drwy fynd i wefan Swyddfa Archwilio Cymru - www.wao.gov.uk

Ein cyllideb

Fel y nodwyd eisoes, y mae'r Cyngor yn wynebu cyfnod o gyni economaidd cynyddol, a bydd yn rhaid iddo arbed mwy o arian nag erioed o'r blaen yn ystod y tair blynedd nesaf gan gyflawni agenda wella uchelgeisiol. Dim ond drwy weddnewid ein dulliau o weithio a darparu gwasanaethau y deawn i ben â hyn. Ar y cyd â'n prif randdeiliaid a phartneriaid, bydd yn rhaid i ni bwysu a mesur dulliau eraill o ddarparu holl wasanaethau'r Cyngor am mai dyna'r unig obaith sydd gennym o allu cynnal dewis eang o wasanaethau i safon dderbyniol.

Rydym wedi llwyddo i arbed cryn dipyn o arian yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf drwy weithio'n fwy effeithiol a thrwy ddulliau eraill, a gofynnwyd i wasanaethau arbed £4.4 miliwn yn ystod 2013/14. Serch hynny, y mae tipyn o waith i'w wneud o hyd i arbed rhagor o arian yn ystod y tair blynedd nesaf.

Bydd y Fro'n cael ei harian wario drwy grant cynnal refeniw oddi wrth Lywodraeth Cymru, trethi annomestig, treth y cyngor, rhenti, ffioedd a thaliadau. Yn ystod 2013/14, gwariwyd 38% o'r gyllideb ar Wasanaethau Plant ac Addysg, 11% ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion, 23% ar Dai, 5% ar Dai, 10% ar wasanaethau Diwylliannol, Amgylcheddol, Rheoli a Chynllunio a 13% ar wasanaethau eraill. Cewch ragor o wybodaeth yn [Natganiad Cyfrifon Llawn y Cyngor ar gyfer 2013/14](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/council/council_finance/council_finance.aspx)


Ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2012/13

Yn adroddiad mis Hydref 2013/14, nodwyd bod cynnydd wedi'i wneud o safbwynt ein hwyth amcan gwella ar gyfer 2012/13 ([Cynllun Gwella Rhan 2, 2013](#)) a bod pump wedi'u cyflawni'n llwyr, dau wedi'u cyflawni'n rhannol ac mai un yn unig oedd heb ei gyflawni. Rydym wedi

parhau i fonitro ein perfformiad yn y meysydd lle na chawsom yr holl ganlyniadau a fwriadwyd, er mwyn sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud. Mae llawer o'm hamcanion gwella'n amcanion strategol tymor hir y Cyngor, felly, byddwn yn parhau i fonitro cynnydd er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid a dinasyddion y Fro'n cael mwynhau gwasanaethau gwell.

- Yn 2012/13, methodd y Cyngor â chael ei restru yn y chwarter uchaf yng Nghymru am ei berfformiad ym maes presenoldeb mewn ysgolion uwchradd, o drwch blewyn. Buom yn cydweithio â'n holl ysgolion drwy'r Fforwm Presenoldeb misol a'r Gwasanaeth Lles Addysg er mwyn gwella presenoldeb, gan roi sylw arbennig i ysgolion lle y mae'r lefelau presenoldeb yn is a'r lefelau o absenoldeb sydd heb ei awdurdodi'n uwch na'r cyffredin. Rhoddwyd strategaethau addas ar waith ar gyfer gwella presenoldeb drwyddi draw a byddwn yn monitro hyn yn rheolaidd. Cawsom ein rhestru yn y chwarter uchaf ac yn 4^{ydd} yng Nghymru am ein perfformiad yn y maes hwn yn ystod 2013/14 gyda sgôr o 93.4%, ac y mae hyn i gyd yn sylfaen dda ar gyfer gwella'n fwy fyth.
- Rydym yn dal i weithredu ein cynlluniau ar gyfer gweithlu cynaliadwy, er mwyn sicrhau bod y Fro yn y lle gorau posibl i ymdopi â'r her sylweddol a fydd hyd y gellir rhagweld yn wynebu llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus ymhell i'r dyfodol.
- Mae pob argoel y caiff y rhaglen bum mlynedd ar gyfer gwella ansawdd a safon tai sector preifat yn ardal Castleland ei chyflawni o fewn y cyfnod penodedig. Daw'r rhaglen gweddnewid tai i ben yn hydref 2014. Aethpwyd ati i wella 1162 o dai i gyd drwy'r rhaglen ac yr oedd 98% o drigolion yn cymryd rhan yn y cynllun. Yn ogystal â gwella fframwaith yr adeiladau a'u gwneud yn fannau iachach, diogelach a mwy cyffyrddus i drigolion, y mae'r cynllun wedi gwella'r holl olwg ar y stryd gan roi hwb i drigolion ac ennyn hyder yn yr ardal. Roedd trigolion ar y cyfan yn fodlon iawn ar y gwelliannau fel y dengys y siart ganlynol:²

² Mae'n cynnwys data o gamau 1-3 yn yr arolwg ar drigolion. Mae cam 4 ar ganol ei gynnal felly nid oes data hyd yn hyn.



Rydym yn dal i weithio yn yr ardal, a byddwn yn canolbwyntio ar Heol Holton am y ddwy flynedd nesaf o hydref 2014 ymlaen er mwyn cael gwella eiddo preswyl a masnachol y stryd. Rydym hefyd yn dal i fanteisio ar nawdd ychwanegol er mwyn sicrhau bod adeiladau'n defnyddio ynni'n fwy effeithiol a bod llai o dlodi tanwydd yn y Fro o ganlyniad. Bu tri chynnig i gynllun Arbed Llywodraeth Cymru'n llwyddiannus hyd yn hyn gan roi'r modd i ni osod systemau gwresogi newydd ac effeithiol mewn rhyw 750 o gartrefi.

3. Crynhoi cynnydd yn ôl ein Hamcanion Gwella ar gyfer 2013/14

Er gwaethaf yr her ariannol gynyddol sy'n ei wynebu, y mae'r Fro wedi addo cyflawni agenda wella uchelgeisiol. Ar sail ein hunanasesiad, casglwn fod y Cyngor wedi llwyddo ar y cyfan i sicrhau'r rhan fwyaf o'r canlyniadau cadarnhaol a gynigiwyd yn ei Amcanion Gwella ar gyfer 2013/14. Barnwyd bod saith o'r wyth amcan gwella a osodwyd ar gyfer y flwyddyn wedi'u cyflawni ac un ohonynt wedi'i gyflawni'n rhannol. Serch hynny, blaenoriaethau strategol ar gyfer y Cyngor yn y tymor hir yw'r rhain, a man cychwyn yn unig i raglen hir o gynlluniau ar gyfer gwella gwasanaethau i ddinasyddion y Fro yw llwyddiant 2013/14. Mae ein cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth yn adlewyrchu'r gwaith parhaol hwn.

Amcan 1: Hyrwyddo ymarferion cynaliadwy yn ein gwaith gan ganolbwyntio'n benodol ar leihau gwastraff a'r gyfran o'r gwastraff sy'n cael ei gladdu yn y ddaear a sicrhau bod mwy o ailgylchu.

Casglwn i ni lwyddo i sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer eleni am i ni daro ein targed statudol ar gyfer ailgylchu cymysg flwyddyn ymlaen llaw, ac y byddwn yn sicr o allu dod i ben â'r rhan fwyaf o'r camau a thargedau cysylltiedig. Serch hynny, wrth ein cymharu â gweddill Cymru, y mae'n amlwg y bydd yn rhaid i ni gydweithio gryn dipyn â'n prif randdeiliaid a phartneriaid yn y tymor hir er mwyn sicrhau y caiff y Cyngor ei restru'n uwch yn genedlaethol a'i fod hefyd mewn lle da i daro targedau llym LIC ar gyfer ailgylchu ac arbed tirlenwi.

54.77% oedd y ganran o'i wastraff y llwyddodd y Cyngor i'w harbed rhag cael ei hanfon i safle tirlenwi o'i chymharu â 54.33% yng Nghymru'n gyffredinol. Roedd hyn yn ein gosod yn 10^{fed} yng Nghymru ac yn y chwarter canol o ran ein perfformiad. Er i ni lwyddo i wella ein perfformiad ers y llynedd, bydd yn rhaid i ni weithio'n galed iawn os ydym am gael lledu ein hysgwyddau

gyda'r gorau yng Nghymru am fod sgoriau'r rheiny rhwng 56.44% and 63.21%.

Cafodd 2.05% yn llai o'r gwastraff dinesig a gasglodd y Cyngor ei anfon i safle tirlenwi eleni na'r llynedd [45.23% (2012/13) / 43.18% (2013/14)]. Serch hynny, y mae'r safon berfformio hon yn llawer is nag ar gyfer Cymru'n gyffredinol sydd ar hyn o bryd yn 37.72%, ac y mae'n ein gosod yn y chwarter canol ac yn 15^{fed} yng Nghymru. Unwaith eto, bydd yn rhaid i ni wella'n sylweddol os ydym am fod yn yr un cae â'r goreuon a anfonodd rhwng 10.59% a 30.06% yn unig o'u gwastraff dinesig i safle tirlenwi.

Mae canran uchel o gwsmeriaid (mwy na 90% yn ôl yr arolwg barn diwethaf yn 2012) yn dal i deimlo bod ailgylchu'n hawdd ei wneud. Byddwn yn adolygu ein cwynion bob blwyddyn, er mwyn sicrhau ein bod yn ymdrin ag unrhyw broblemau y bydd cwsmeriaid yn eu codi. Er mwyn ymateb i faterion a godwyd yn ystod 2013/14 yr ydym wedi comisiynu 'hyfforddiant mewn swydd' a fydd yn cael ei weithredu ar draws y gwasanaeth.

Ar ôl rhoi mwy o ddewis i drigolion ar gyfer ailgylchu gwastraff pydradwy, cafodd mwy o wastraff organig ei gasglu. Serch hynny,

yr oedd ein perfformiad yn dioddef oherwydd y dull o gyfrif y dangosydd perfformiad. Mae'r 22.32% a ailgylchwyd eleni'n well nag yn ystod y ddwy flynedd flaenorol. Dengys data meincnodi diweddaraf Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2012/13) mai gwasanaeth gwastraff bwyd y Fro yw'r ail orau yng Nghymru am fachu gwastraff bwyd fesul teulu ac yn wythfed gorau am fachu gwastraff gwyrdd. Mae hyn yn ategu ein casgliad bod cynnydd wedi'i wneud yn gyffredinol.

Dengys data o'r un prosiect meincnodi (CLILC 2012/13) hefyd mai gwariant blynyddol y Fro fesul teulu (£147 – sef £2.83 yr wythnos) yw'r trydydd lleiaf o unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru. Mae hyn yn well nag yn ystod 2011/12 pan gawsom ein rhestru'n 5^{ed} am ein gwariant blynyddol fesul teulu ar wasanaethau rheoli gwastraff.

Drwy gynlluniau ymarferol fel ymgyrch 'Beth sy' yn eich bin?', sioeau teithiol a thrwy fynd o ddrws i ddrws ac ymgyrchu yn y cyfryngau, darbwyllyd mwy o bobl i ailgylchu mwy o wastraff mewn rhannau o'r Fro na fu fawr o safon ar eu perfformiad cyn hynny. Byddwn yn targedu mwy o gymunedau yn y modd yma yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn ceisio codi lefelau ailgylchu'n gyffredinol mewn ardaloedd sy'n perfformio'n wael. Mae'r flaenoriaeth hon yn cael ei hadlewyrchu yng nghynlluniau perthnasol y Cyngor.

Am ragor o fanylion, [ewch i dudalen 25](#).

Amcan 2: Cymryd llai o amser i ddarparu 'grantiau cyfleusterau i'r anabl' ar gyfer plant a phobl ifanc fel y bo ein perfformiad o leiaf gystal â pherfformiad Cymru'n gyffredinol yn ystod 2011/12.

Mae'r **amcan hwn wedi'i gyflawni**, a byddwn yn parhau i weithio yn y tymor hir er mwyn cwtogi ar amserau aros yn fwy byth.

Er i ni ragori ar ein targed amcan gwella ar gyfer darparu grantiau cyfleusterau i'r anabl - sef 326 diwrnod a seiliwyd ar gyfartaledd Cymru ar gyfer 2011/12 - o 42 o ddiwrnodau, yr ydym yn dal yn y chwarter isaf yng Nghymru o ran perfformiad.

Yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, y mae amserau aros am grantiau cyfleusterau wedi gostwng 75% o 1,046 o ddiwrnodau yn 2008/9 i 284 days yn 2013/14. Serch hynny, nid yw ein lle yn y rhengoedd fymryn yn uwch wrth ein cymharu â pherfformwyr gorau Cymru, am fod awdurdodau eraill hefyd yn gwella o flwyddyn i flwyddyn. Yn 2013/14, yr oedd y gorau o'r chwarter uchaf yn treulio rhwng 156 a 206 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i ddarparu'r grantiau hyn.

Mae darparu grantiau cyfleusterau wedi parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn ym mhob rhan o Gymru. Mae perfformiad y Cyngor hefyd wedi gwella a bu'r gwella hwnnw'n fwy nag yng Nghymru'n gyffredinol. Yn 2013/14, gwelodd perfformiad Cymru'n gyffredinol o 12% tra bod y Fro wedi gwella o 18%. Serch hynny, er iddo gynnal gwelliant o flwyddyn i flwyddyn, ni fu hynny'n ddigon i'r Cyngor allu dringo allan o chwarter isaf perfformwyr Cymru. Mae data ar gyfer chwarter cyntaf 2014/15 yn dangos bod ein perfformiad yn dal i wella ac yn cynnig 239 o ddiwrnodau. Mae'r data hyd at fis Awst yn dangos y byddwn yn treulio 216 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i ddarparu grantiau cyfleusterau i'r anabl. Mae tystiolaeth felly, fod y camau a gymerwyd yn dechrau gweithio, a byddwn yn canolbwyntio ar geisio cynnal y gwelliant hwn yn y tymor hir.

Daeth asesiadau ansawdd â chanlyniadau cadarnhaol iawn gyda mwy na 97% o'r rhai a dderbyniodd grantiau cyfleusterau yn ystod

2013/14 yn dweud eu bod yn fwy diogel ac annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ar ôl cael y cymorth. Mae hyn yn rhagori ar y 90% a gofnodwyd yn 2012/13. Roedd pob un o'n cwsmeriaid yn fodlon ar y broses o ddarparu grantiau cyfleusterau, ac y mae hyn unwaith eto'n rhagori ar ein perfformiad y llynedd (94%). Roedd pob un o'n cwsmeriaid hefyd o'r farn bod y gwaith a wnaethpwyd yn eu cartrefi un ai'n dda neu'n dda iawn. Yn ystod y flwyddyn, bu'r Cyngor yn helpu 127 o oedolion i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o'u cymharu ag 86 yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Byddwn yn parhau i wella ein darpariaeth o grantiau cyfleusterau i'r anabl yn ystod 2014/15 drwy: gyflogi rhagor o therapyddion galwedigaethol fel na fo'n rhaid i gleient aros gyhyd am gael ei asesu; a defnyddio'r fframwaith contractwyr addasu fel na fo angen proses dendro unigol. Er mwyn cael mesur y gwahaniaeth rhwng perfformiad y Cyngor a pherfformiad awdurdodau eraill ar y brig o safbwynt perfformiad, bydd y Cyngor yn defnyddio'r data meincnodi ar gyfer adnewyddu tai sector preifat sy'n cael ei grynhoi ar hyn o bryd gan Uned Data Llywodraeth Leol Cymru. Bydd y Cyngor yn gallu defnyddio'r data hwn i gymharu amserau dod i ben â chamau'r tu fewn i'r broses o ddarparu grantiau cyfleusterau, a gweld ym mha le'n union i wella prosesau a hefyd sicrhau ei fod yn defnyddio'r dehongliad mwyaf priodol o'r diffiniad o'r dangosydd perfformiad.

Am ragor o fanylion, [ewch i dudalen 31](#).

Amcan 3: Sicrhau bod gan y Cyngor fwy o ofalwyr maeth.

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni, ond byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc fregus yn haws eu cynnal ac yn fwy sefydlog yn y tymor hir.

Daethom i'r casgliad hwn am i ni daro ein targed amcan gwella ar gyfer cynyddu nifer y gofalwyr maeth mewnol yn y Fro drwy recriwtio 8 o ofalwyr newydd. Ni fyddwn chwaith yn lleoli plant mor aml gyda gofalwyr maeth allanol. O ganlyniad, byddwn yn gwario llai fesul plentyn ar leoli plant gyda gofalwyr maeth.

Roedd y Cyngor wedi asesu pob gofalwr ifanc y gwyddai amdano. Roedd nifer yr asesiadau a gwblhawyd o fewn y 35 o ddiwrnodau gwaith a gymeradwyir wedi cynyddu i 91% o'i gymharu â 76% ar gyfer Cymru'n gyffredinol. Roedd canran y plant a oedd wedi cael eu lleoli o leiaf deirgwaith wedi gostwng o 14% yn 2012/13 i 11% yn 2013/14. Serch hynny, y mae'r set ddata genedlaethol ar gyfer canran y plant dan ofal a oedd wedi cael eu lleoli o leiaf deirgwaith yn dangos gostyngiad o 9.4% yn 2012/13 i 8.3% yn 2013/14 ac yn ein gosod yn y chwarter canol uchaf o ran perfformiad. Ffigur sy'n gysylltiedig â lleoliadau yw canran y plant a fu'n newid ysgol o leiaf unwaith ac yr oedd honno wedi gostwng o 21.7% yn 2012/13 i 16.4% yn 2013/14. Mae'r perfformiad a restrwyd yn y chwarter isaf yn 2012/13 bellach wedi'i restru yn y chwarter canol uchaf ar gyfer 2013/14. Mae gan bob plentyn dan ofal weithiwr cymdeithasol, bydd cynllun gofal ar gyfer pob plentyn ar ddechrau ei gyfnod lleoli a bydd 97% o'r holl gynlluniau gofal yn cael eu hadolygu o fewn y cyfnod penodedig.

Gan fod mwy o ofalwyr mewnol erbyn hyn, y mae'n haws i ni ddod o hyd i leoliadau lleol sy'n addas. Am fod mwy o ddewis o leoliadau, yr oedd lleoliadau'n fwy addas a sefydlog. Nid oes rhaid i blant ymadael â'u cymunedau er mwyn cael gofal. O ganlyniad, y mae'r gwasanaeth yn fwy effeithiol ac yn llai anghyfartal a bu'r arweiniad i'r ymarfer recriwtio gorau sydd bellach yn cael ei weithredu yn y Fro hefyd o gymorth i'w wella.

Roedd y rhan fwyaf o'r gofalmwyr yn fodlon ar y gwasanaethau, gan gynnwys: y wybodaeth a gawsant am y broses gymeradwyo; y cyfraniad a wnaeth pobl allweddol drwy rannu gwybodaeth ac ymddwyn yn ystyriol yn ystod y broses o ddod o hyd i blentyn addas; cysondeb goruchwyllo gan yr un gweithiwr cymdeithasol a gallu i fanteisio ar y rhan fwyaf o fathau o gymorth. Roedd pobl ifanc fel arfer yn fodlon ar y wybodaeth a gawsant.

Am ragor o fanylion, [ewch i dudalen 36](#).

Amcan 4: Cefnogi a herio ysgolion er mwyn gwella lefelau cyrhaeddiad disgyblion Cyfnod Allweddol 3.

Dengys data perfformio ar gyfer 2013/14 (blwyddyn academiaidd 2012/13) fod yr amcan hwn wedi'i gyflawni ac mai dyma'r prif ganlyniadau:

- Roedd ein perfformiad eleni mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth wedi rhagori ar y perfformiad y llynedd ac felly hefyd ein canran yn ôl y dangosydd pynciau craidd sydd erbyn hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ac wedi gweld codi ein statws o drydydd ar ddeg (2012) i bedwerydd.
- Rhestrwyd perfformiad y Cyngor yn uwch yn ôl pob dangosydd eleni na'r llynedd, a'r rhai gorau yw'r Dangosydd Pynciau Craidd (4^{ydd}), Saesneg (3^{ydd}), Mathemateg (3^{ydd}), Gwyddoniaeth (4^{ydd}) a Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg gyda'i gilydd sydd erbyn hyn wedi'u rhestru'n 4^{ydd} yng Nghymru. Mae 50% o ysgolion yr Awdurdod bellach wedi'u rhestru gyda chwarter gorau ysgolion Cymru ar gyfer Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.
- Roedd ein safle meincodi wedi gwella: Saesneg (4^{ydd}), Cymraeg (3^{ydd}), Mathemateg (1^{af}), Gwyddoniaeth (2^{il}) a'r DPC (6^{ed}).

- Roedd perfformiad merched a bechgyn wedi gwella yn ôl cyfran ym mhob pwnc craidd ac eithrio'r Gymraeg lle arhosodd perfformiad y bechgyn yr un fath.
- Roedd ein perfformiad ym mhob pwnc sylfaen wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol ac yn well nag yng Nghymru'n gyffredinol. Rhestrwyd pob pwnc yn uwch na 4^{ydd}, ar wahân i Gelf ac Ymarfer Corff a restrwyd yn 6^{ed}.
- Roedd ysgrifennu, darllen a sgiliau rhif i gyd wedi gwella ers y llynedd.
- Fe'n rhestrwyd yn y chwarter uchaf yng Nghymru am ein perfformiad o safbwynt presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.

Cynorthwyo a herio ysgolion unigol er mwyn targedu angen penodol y byddwn ran amlaf y dyddiau hyn, gan ddadansoddi data perfformio ysgolion yn wyddonol er mwyn canfod problemau a thrwy hynny cyfiawnhau'r camau y byddwn yn eu cymryd. Mae [Strategaeth Wella Cyfnod Allweddol 3](#) wedi rhoi'r arweiniad strategol a gweithredol yr oedd ei angen arnom er mwyn gwella'r ddarpariaeth yn y modd yma.

Codi safonau a lefelau cyflawni fydd un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yn y tymor hir fel y bod gan ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol yr addysg orau bosibl a chyfle i gyflawni i'r eithaf. Mae'r Cyngor yn un o'r 4 awdurdod gorau yng Nghymru o ran ei berfformiad yng Nghyfnod Allweddol 3 erbyn hyn, ac y mae hynny'n sylfaen dda ar gyfer gwella eto.

Am ragor o fanylion, [ewch i dudalen 40](#).

Amcan 5: Gweithredu cynlluniau effeithiol a chynaliadwy ar gyfer gweithlu'r Cyngor.

Er bod **y prif ganlyniadau'r amcan hwn ar gyfer 2013/14 wedi'u sicrhau**, nod tymor hir i'r Cyngor yw hwn, a bydd yn rhaid i'r gwaith barhau er mwyn sicrhau ein bod yn y lle gorau posibl i ymdopi â'r problemau penodol a fydd hyd y gwelir yn wynebu llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus am gyfnod i ddod.

Mae'r Cyngor wedi unioni ei brosesau cynllunio ar gyfer gwasanaethau ariannol ac adnoddau dynol fel y bo'n haws i wasanaethau benderfynu faint staff, sgiliau a phrofiad fydd eu hangen arnynt yn y dyfodol.

Rydym wrthi'n aildrefnu'r cymorth adnoddau dynol a'r hyfforddiant y byddwn yn eu cynnig er mwyn i wasanaethau allu cwrdd ag anghenion gweithlu yn y dyfodol. Mae hyn yn cael ei seilio ar strategaethau adnoddau dynol a hyfforddiant ar gyfer y pedair blynedd nesaf sy'n helpu i leddfu rywfaint ar oblygiadau staffio anffafriol y newidiadau cyfundrefnol.

Mae'r swp cyntaf o adolygiadau ar wasanaethau wedi helpu i sicrhau bod gwasanaethau'n cydweithio i'r eithaf a'u bod yn fwy atebol i'w staff a chan hynny'n fwy effeithiol. Byddwn yn parhau i helpu rheolwyr i reoli newid a dod o hyd i ffyrdd eraill o ddarparu gwasanaethau.

Mae ein perfformiad o safbwynt rheoli presenoldeb a throsiant staff yn dal yn ffafriol o'i gymharu â'r llynedd. 8.65% yw canran trosiant staff eleni (2013/14) sy'n rhagori ar y 10.28% a gofnodwyd y llynedd. Cynhaliwyd asesiadau perfformio a datblygu ar gyfer 94% o staff gan helpu gwasanaethau i ymdopi â'u bwch sgiliau, ac y mae hyn yn cyfateb i'n perfformiad yn y maes hwn y llynedd. Mae lefelau absenoldeb ar draws y Cyngor yn dal yn is na'r cymharydd cenedlaethol ar gyfer y sector cyhoeddus a

chofnodwyd i 8.75 o ddiwrnodau gael eu colli fesul aelod o staff yn ystod 2011/14..

Am ragor o fanylion, [ewch i dudalen 45](#).

Amcan 6: Cysylltu'n well â dinasyddion drwy sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu datblygu a'u gwella yng ngoleuni barn trigolion a bod mwy o gyfle i drigolion ddylanwadau ar benderfyniadau a gwell darpariaeth ar gyfer hynny.

Er bod **y prif ganlyniadau'r amcan hwn ar gyfer 2013/14 wedi'u sicrhau**, nod strategol tymor hir i'r cyngor yw hwn, ac y mae'r gwaith hyd yma'n fan cychwyn yn unig i raglen faith o gynlluniau ar gyfer hybu cydweithrediad â dinasyddion y Fro.

Daethom i'r casgliad hwn, oherwydd yn ystod y deuddeg mis diwethaf, buom yn amlhau cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan ystyrlon yn y broses benderfynu drwy gynnal pob math o wahanol brosiectau ymgysylltu cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghoriadau amlwg iawn ynglŷn â dyfodol gwasanaeth llyfrgelloedd y Fro ac uno dwy ysgol gyfun.

Er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ar draws y Cyngor yn cael eu cyd-drefnu'n well mewn ffordd fwy strategol, lluniwyd [Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#). Mae'r ddogfen hon yn dadlau'n groyw dros gydweithio'n agosach â'r cyhoedd, ac yn dangos i staff ar bob lefel o'r sefydliad sut mae mynd ati ar y cyd i wneud hynny. Mae'r fframwaith a'r cynllun gweithredu'n cynnwys rhaglen o waith ar gyfer y tair blynedd nesaf a fydd nid yn unig yn rhoi cyfle i drigolion ddylanwadu'n fwy ar benderfyniadau ond hefyd yn dwyn y syniad o gydweithio'n agosach â'r cyhoedd i mewn i'r brif ffrwd.

Mae datblygu'r gallu'r tu fewn i'r Cyngor i gydweithio â'r cyhoedd yn brif gam tuag at gael darparu'n helaethach ar gyfer ymgysylltu cyhoeddus. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, cynhaliwyd rhaglen hyfforddi ymgysylltu cyhoeddus a fydd o gymorth i ni ddod i ben â hyn.

Mae ein gallu i hyrwyddo prif brosiectau ymgysylltu cyhoeddus wedi profi'n effeithiol iawn o safbwynt dangos i'r cyhoedd sut i gydweithio â ni a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arno. Mae nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus a safon yr ymatebion hynny'n tystio i'n llwyddiant yn y maes hwn.

Am ragor o fanylion, [ewch i dudalen 48](#).

Amcan 7: Mynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli'r perygl o lifogydd lleol a pheryglon arfordirol.

Er bod yr holl ganlyniadau ar gyfer 2013/14 wedi'u sicrhau, byddwn yn parhau i weithio yn y tymor hir er mwyn rheoli'r peryglon sy'n gysylltiedig â manau cychwyn llifogydd lleol.

Daethom i'r casgliad hwn am i ni gymryd nifer o gamau i ymdrin â'r perygl llifogydd sy'n codi yn sgîl glaw cyson, fflachlifogydd, llifogydd ar yr arfordir ac afonydd sy'n gorlifo, a bod y Fro'n llai agored i lifogydd o ganlyniad.

Cewch y wybodaeth ddiweddaraf am lifogydd a materion arfordirol gan gynnwys gwybodaeth am reoli cyrsiau dŵr drwy fynd i'n gwefan. Bydd gwaith sy'n ymwneud â llifogydd a phroblemau draenio'n cael ei gyd-drefnu ar draws y Cyngor ac y mae gennym ffordd gyson o archwilio achosion o lifogydd. Drwy ddefnyddio meddalwedd newydd, gallwn wneud defnydd mwy effeithiol o

setiau data hanesyddol wrth fynegi barn am ddatblygiadau newydd a rheoli cyrsiau dŵr.

Wrth gydweithio â phrif randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, byddwn yn defnyddio ein Cynllun Llifogydd, y [Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd](#) a'r Cynllun Rheoli Ymyl Traeth i ddod o hyd i'r manau lle y mae perygl penodol a gweithredu'n effeithiol er mwyn atal llifogydd. Yn y modd yma, cawn sicrhau na fydd datblygiadau presennol na rhai'r dyfodol mewn mwy o berygl oddi wrth lifogydd ac erydu arfordirol. Byddwn yn cysylltu ag Awdurdodau Rheoli Perygl eraill drwy Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru yn ôl yr ymarfer da, a bydd hynny'n sicrhau gweithredu cyson ar lefel ranbarthol.

Gweithiwyd yn galed i ddod o hyd i ffordd fwy cyson o fabwysiadu cynlluniau draenio trefol cynaliadwy drwy ddefnyddio meddalwedd newydd i reoli ymchwiliadau, gosod rheoliadau ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin a chadw cofrestr lifogydd.

Am ragor o fanylion, [ewch i dudalen 54](#).

Amcan 8: Gostwng nifer y bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant .

Mae'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer y flwyddyn wedi'u sicrhau'n rhannol, a byddwn yn parhau i weithio drwy Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn y tymor hir er mwyn gwella'r sefyllfa.

Daethom i'r casgliad hwn, am i ni weithio'n galed er mwyn cael bod yn well am adnabod, monitro a chynnwys pobl ifanc sydd un ai mewn perygl arbennig o gael eu dosbarthu fel 'rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant', ynteu eisoes

yn rhan o'r garfan honno. Gwnaethom gynnydd yn ôl y nodau anodd yr oeddem wedi'u gosod ynglŷn â lleihau nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol ym mlynnyddoedd 11, 12 ac 13. Serch hynny, methwyd â chyrraedd pob targed perfformio o safbwynt lleihau carfan hysbys y rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant. Yn ôl y set ddata genedlaethol, y mae canran y bobl ifanc a fu yng ngofal yr awdurdod sy'n dal mewn addysg neu'n gweithio neu'n dilyn hyfforddiant yn 19 oed wedi gostwng o 55.6% yn 2012/13 i 44.4% yn 2013/14. Mae hyn yn dodi Cyngor y Fro ar waelod y chwarterl canol o ran perfformiad ar hyn o bryd ac yn 16^{eg} yng Nghymru o'i gymharu ag awdurdodau eraill. Am mai gweddol fach fel arfer yw carfan y bobl ifanc a fu yng ngofal yr awdurdod, gallai hepgor un neu ddau o'r diffiniad – rhywun sy'n anabl, yn feichiog neu yn y carchar er enghraifft - wneud byd o wahaniaeth i'r perfformiad. Yn ôl perfformiad y dangosydd hwn, bydd angen ymgysylltu'n amlach â phlant a fu yng ngofal yr awdurdod er mwyn cael lleihau nifer y rhai nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant. Mae hyn yn un o flaenoriaethau'r Cyngor. Bydd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru a gytunwyd yn ddiweddar o gymorth i ni rannu gwybodaeth am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant ac olrhain a deall ein perfformiad yn y maes hwn yn well.

Bydd ein perfformiad yn cael ei feincnodi, a dengys yr ystadegau blynyddol ar gyfer pobl ifanc yn y categori hwn, fod Bro Morgannwg wedi llwyddo i leihau ei chanran o bobl ifanc felly'n gyson ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. Rydym yn cydweithio ar hyn

o bryd ag awdurdodau sydd wedi llwyddo i leihau eu canran o blant yn y categori hwn yn sylweddol, fel y cawn ddysgu oddi wrthynt, ac ystyried pa fodolau ar gyfer ymgysylltu â phobl ifanc a fyddai fwyaf addas i'w defnyddio yn y Fro.

Rydym wedi datblygu a phrofi system y gall gwasanaethau addysg, Gyrfa Cymru ac ysgolion ei defnyddio er mwyn dod i wybod yn gynt am bobl ifanc sydd mewn perygl penodol o ddisgyn i'r categori hwn. Bydd hefyd yn caniatáu olrhain pobl am gyfnod ar ôl iddynt gyrraedd eu 16 oed. Bydd pob ysgol yn defnyddio'r system o fis Medi 2014 ymlaen.

Datblygwyd gwasanaethau cymorth ieuencid teithiol a fydd yn targedu ardaloedd lle y mae'r nifer mwyaf o bobl ifanc yn y categori hwn. Buom hefyd yn cydweithio'n agos â'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn datblygu manau cynghori ynglŷn â gwaith. Byddwn yn gwneud mwy o ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ac yn cynnig cymorth unigol mewn ysgolion er mwyn cael ymgysylltu'n well â phobl ifanc anodd eu cyrraedd.

Mae gennym fwy o raglenni addysg amgen mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig hefyd erbyn hyn. Bydd gweithwyr ymyrraeth gynnar hefyd wrth law yn ystod y pontio rhwng yr ysgol gynradd ac uwchradd, er mwyn iddynt gael gweithredu cyn gynted ag sy'n bosibl i rwystro plant rhag llithro i'r categori hwn.

Am ragor o fanylion, [ewch i dudalen 57](#).

4. Ein Hamcanion Gwella'n Fanwl

Mae'r adran hon yn ymhelaethu ar ein hwyth amcan gwella. Mae sail resymegol i bob amcan sy'n dangos yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2013/14 a'n perfformiad yn ôl ein mesurau cynnydd.

4.1. Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd

Beth ydym am ei gyflawni?

Hyrwyddo arferion cynaliadwy yn ein gwaith gan ganolbwyntio'n arbennig ar leihau gwastraff a'r gyfran o wastraff sy'n cael ei hanfon i safle tirlenwi ac ailgylchu mwy o wastraff.

Sail resymegol yr amcan hwn

Mae tystiolaeth bod cyfran uchel o deuluoedd y Fro (75%) eisoes yn defnyddio'r gwasanaethau ailgylchu ymyl y palmant a'r gwasanaethau ar gyfer ailgylchu gwastraff gwyrdd a gwastraff y gegin sy'n cael eu cynnig i bawb yn yr ardal. Bydd yn anodd o ganlyniad i'r Cyngor gynyddu lefelau ailgylchu drwy gymell mwy o bobl i fanteisio ar y gwasanaethau, ond dyna y bydd yn rhaid ei wneud yn y dyfodol os ydym am gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o 58% erbyn 2014/15.

Lleihau gwastraff a hybu ailgylchu yw un o brif flaenoriaethau Cymru, Ewrop a'r D.U. ac y mae'r llywodraethau hyn wedi gosod targedau (statudol) anodd ar gyfer awdurdodau lleol ynglŷn â chynyddu ailgylchu o ganlyniad. Mae cryn gosb ariannol am fethu'r targedau hyn, ac y mae'r perygl i'r Cyngor o safbwynt hynny'n dal yn eithaf uchel (fel y'i nodwyd yn ein cofrestr risgiau genedlaethol). Mae Strategaeth Gwastraff Dinesig y Cyngor yn cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd er mwyn cynyddu ailgylchu a sicrhau bod llai o wastraff yn cael ei anfon i safle tirlenwi yn y pendraw.

Yn gyffredinol, bydd llai o wastraff y Fro'n cael ei anfon i safle tirlenwi a mwy'n cael ei ailgylchu o flwyddyn i flwyddyn. Serch hynny, nid yw'r costau fymryn yn llai, ac y mae'r dreth dirlenwi'n cynyddu'n gyflymach nag y medr y Cyngor gwtogi ar y gwastraff y bydd yn ei gladdu. Dylai'r perygl i'r Cyngor oherwydd hyn fod yn llawer llai bellach, am iddo benderfynu penodi dewis gynigiwr y Prosiect Gwyrdd i droi ei wastraff gweddillol yn ynni o 1 Ebrill ymlaen. Hefyd, yn dilyn dyfarniad yr Arolwg Barnwrol ar weithredu Erthygl 11 Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff

(adolygedig) yr U.E., a Rheoliadau Gwastraff (diwygiedig) Cymru a Lloegr 2011, bydd dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor o Ionawr 2015, i sicrhau bod llwythau cymysg o bapur, caniau, plastig a gwydr yn cael ei ddioli cyn cael eu gadael ar ymyl y palmant. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r Cyngor brofi ei bod yn anymarferol o safbwynt technegol, amgylcheddol ac economaidd iddo ddioli deunydd ailgylchu, os yw am barhau i gasglu deunydd cymysg. Petai'n methu â phrofi hyn, bydd perygl iddo hefyd fethu'r targedau cenedlaethol am fod mwy o ailgylchu ers i ni ddechrau casglu deunydd cymysg.

Beth sydd wedi'i gyflawni?

Rydym wedi parhau i anfon llai o wastraff i safle tirlenwi, ac yr oedd 54.77% o'n holl wastraff yn cael ei ailgyfeirio erbyn diwedd 2013/14. Mae hyn yn golygu bod 54.77% o wastraff y Fro'n cael ei baratoi ar gyfer ei ailddedfnyddio, ei ailgylchu neu'i droi'n gompost. Serch hynny, y mae'r perfformiad hwn yn ein gosod ymhlith perfformwyr chwarterl canol Cymru ac yn fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru ar hyn o bryd (54.33%) a chyfartaledd De-ddwyrain Cymru (53.08%). Bydd yn rhaid i wella'n sylweddol os ydym am gymharu'n ffafriol â'r rhai gorau yng Nghymru sy'n llwyddo i ailgyfeirio rhwng 56.44% a 63.21% o'u gwastraff.

Rydym wedi anfon 2.05% yn llai o'r gwastraff dinesig y bydd y Cyngor yn ei gasglu i safle tirlenwi eleni (43.18% (2013/14)) nag y llynedd (45.23% (2012/13)). Serch hynny, y mae hyn yn llawer llai nag yng Nghymru'n gyffredinol (37.72%) ac yn ein gosod o drwch blewyn gyda pherfformwyr y chwarterl canol ac yn 15^{fed}. Unwaith eto, bydd yn rhaid i ni wella'n sylweddol os ydym am gymharu'n ffafriol â'r goreuon a oedd wedi anfon rhwng 11% a 30% yn unig o'u holl wastraff dinesig i safle tirlenwi.

Yn ôl yr arolwg barn cyhoeddus diwethaf yn 2012, y mae dros 90% o gwsmeriaid yn fodlon ar y cyfleusterau ar gyfer rheoli ac ailgylchu gwastraff a'r negeseuon sy'n codi ymwybyddiaeth ohono. Bydd yr arolwg barn cyhoeddus nesaf yn cael ei gynnal yn haf 2014. Buom yn gwrando ar ein cwsmeriaid ac yn gweithio er mwyn lleihau nifer y cwynion am wasanaethau gwastraff. O'r 103,877 o'r negeseuon a gafodd Gwasanaethau Gweladwy oddi wrth gwsmeriaid yn 2013/14, 42.8% (44,497) a oedd yn ymwneud â rheoli gwastraff. O'r 167 o gwynion a ddaeth i law, 55 a oedd yn ymwneud â rheoli gwastraff a glanhau, a llwyddwyd i ddatrys 93% o'r rheiny yn ystod cam 1 yn y drefn gwyno. Symudwyd y 7% a oedd yn weddill i gam 2 yn nhrefn gwyno'r Cyngor. Yr hyn a ddysgwyd yn bennaf wrth adolygu'r cwynion oedd bod rhaid i ni ganolbwyntio ar ein ffordd o ddarparu'r gwasanaeth, am fod y rhan fwyaf o'r cwynion yn ymwneud ag ymddygiad gweithwyr rheng flaen. Mewn ymateb i hyn, yr ydym wedi comisiynu 'hyfforddiant mewn swydd' arbennig a byddwn yn ei gyflwyno ar draws y gwasanaeth er mwyn cael datrys y problemau a godwyd.

Mae llawer iawn o drigolion yn cymryd rhan mewn cynlluniau lleihau gwastraff ar hyn o bryd, ac er mwyn denu mwy fyth o gyfranogwyr a chwrrd â thargedau yn y dyfodol, byddwn yn gweithio mewn ffyrdd mwy dyfeisgar gan dargedu unigolion a chymunedau penodol. Caiff holl drigolion y Fro fanteisio ar ein gwasanaeth ailgylchu ymyl y palmant a chynlluniau casglu gwastraff bwyd a gwastraff gwyrdd o'r ardd ar hyn o

bryd. Addysgu pobl, denu mwy o bobl i ailgylchu drwy sicrhau bod y broses mor hawdd ag sy'n bosibl, ehangu'r dewis o ddeunydd y gellir ei ailgylchu a thargedu cymunedau nad ydynt mor awyddus i ailgylchu yw ein prif nod wrth weithredu.

Yn ystod y flwyddyn, buom yn cydweithio â'r adran dai a darparwyr tai cymdeithasol y sector preifat er mwyn targedu rhannau o'r Barri sy'n gyndyn i ailgylchu, fel Gibbonsdown, North Walk a stad Heol Thompson, er mwyn addysgu a chodi ymwybyddiaeth y trigolion fel y byddai mwy ohonynt yn barod i gyfrannu. Cynhyrchwyd fideo ar y cyd â Threfi Taclus a Vibe Creative o dan y teitl 'How green was my Vale', er mwyn codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o ailgylchu yn y cartref. Dosbarthwyd hwnnw i bob ysgol gyfun. Byddwn yn targedu cymunedau'n amlach yn y modd yma yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn cynyddu ailgylchu'n gyffredinol mewn ardaloedd sy'n perfformio'n wael. Mae pob cynllun cyngor perthnasol yn cydnabod y flaenoriaeth hon.

Mae lefelau ailgylchu yn y sector masnachol yn cynyddu ar hyd yr amser, ac yr ydym yn cydweithio â busnesau lleol er mwyn denu cyfranogwyr. Ar y cyfan, y mae ein cwsmeriaid masnachol yn fodlon ar y gwasanaethau a gynigir.

Rydym wedi codi nifer y mathau o wastraff y cartref y gellir eu hailgylchu i 19 i gyd erbyn hyn, ac y mae'n bosibl ailgylchu mwy o ddeunydd amrywiol yn ein canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref. Mae mathau newydd o wastraff fel paent, er enghraifft, bellach wedi'u cynnwys yng nghontract y canolfannau. Mae ein contract newydd ar gyfer canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn cynnwys cymal sy'n darparu ar gyfer perfformiad a chyrchfan derfynol y gwastraff yn unol â Mesur Gwastraff Cymru 2010 gan sicrhau gwerth am arian i drethdalwyr y Cyngor.

Drwy gynnig mwy o ddewis i drigolion ar gyfer ailgylchu gwastraff pydradwy, cawsom gasglu mwy o wastraff organig. Roedd ein perfformiad wedi dioddef oherwydd y dull o gyfrif y dangosydd perfformio. Serch hynny, y mae'r 22.32% a gesglir ar hyn o bryd yn rhagori ar ffigyrau'r ddwy flynedd flaenorol. Yn ôl data prosiect meincnodi diweddaraf Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2012/13), gwasanaeth gwastraff bwyd y Fro oedd yr ail orau yng Nghymru am y maint o fwyd sy'n cael ei ailgylchu fesul teulu ac yn 8^{fed} am y maint o wastraff gwyrdd sy'n cael ei ailgylchu. Mae hyn yn ategu ein casgliad bod cynnydd wedi'i wneud yn gyffredinol.

Drwy ddadansoddi llwybrau cerbydau gwastraff gweddillol, deunydd ailgylchu, compost a gwastraff bwyd o'r gegin, a gweithredu system ar gyfer olrhain a chyfathrebu ar y pryd â'r 270 o gerbydau yn y fflyd casglu, trefnwyd rowndiau a chan hynny gwasanaeth mwy effeithiol a fu o gymorth i arbed arian.

Mae gwasanaethau gwastraff ac ailgylchu yn y Fro'n dal i gael eu darparu mewn ffordd effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian i drethdalwyr y Cyngor. Waste and recycling services in the Vale continue to be delivered efficiently, providing value for money for the council taxpayer. Yn ôl prosiect meincnodi cyllid gwasanaethau rheoli gwastraff diweddaraf Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2012/13), gwariant blyneddol y Fro fesul teulu – sef £147 (£2.83 yr wythnos) - yw'r trydydd isaf o bob awdurdod yng Nghymru. Y gwariant canolrifol fesul teulu yw £181 a'r

gwariant isaf yw £120. Mae hyn yn dangos cynnydd ers 2011/12, am mai'r 5^{ed} isaf yng Nghymru oedd ein gwariant fesul teulu ar wasanaethau rheoli gwastraff yr adeg honno. Rydym wedi gwario 0.6% yn llai ar wasanaethau gwastraff y cartref eleni nag yn ystod 2011/12.

Mae ein gwasanaethau rheoli gwastraff yn cymharu'n ffafriol â gwasanaethau awdurdodau eraill Cymru o safbwynt prif feysydd gwasanaeth. £29.04 oedd cost glir y gwasanaeth ailgylchu sych fesul teulu am y flwyddyn sef y 7^{fed} isaf yng Nghymru. Y costau canolrifol ac isaf oedd £35.63 a £9.29 yn y drefn honno. Casglodd y gwasanaethau 11,869 o dunelli metrig o ddeunydd ailgylchu sych yn 2012/13 – sef 214 o gilogramau fesul teulu. Rhestrwyd y Fro'n 8^{fed} ymhlith y 22 awdurdod arall am y perfformiad hwn. Pwysau canolrifol y llwyth a gasglwyd fesul teulu oedd 190 o gilogramau a'r pwysau mwyaf oedd 291 o gilogramau.

Yn ystod 2012/13, Bro Morgannwg oedd un o 17 o awdurdodau lleol a gynigiai wasanaeth ar wahân ar gyfer casglu gwastraff bwyd ac yn un o 13 o awdurdodau a gynigiai wasanaeth ar wahân ar gyfer casglu gwastraff gwyrdd. £19 oedd cost glir y gwasanaeth gwastraff bwyd fesul teulu. Rhestrwyd y Fro'n 7^{fed} ymhlith 17 o awdurdodau am y perfformiad hwn. Y gost ganolrifol fesul teulu yng Nghymru oedd £22.19, a'r gost isaf oedd £13.04. Casglodd y Fro 5,397 o dunelli metrig o wastraff bwyd i gyd – sef 97.24 o gilogramau fesul teulu a chawsom ein rhestru'n 2^{il} ymhlith 17 o awdurdodau am y perfformiad hwnnw. Pwysau canolrifol y llwyth a gasglwyd fesul teulu oedd 70 o gilogramau, a'r pwysau mwyaf oedd 102 o gilogramau. Roedd yn costio £15.46 fesul teulu i gasglu gwastraff bwyd a rhestrwyd y Fro'n 8^{fed} ymhlith 17 o awdurdodau am ei pherfformiad. Y gost gasglu ganolrifol fesul teulu oedd £18.92, a'r gost isaf oedd £8.72. £15.39 oedd cost glir y gwasanaeth gwastraff fesul teulu a'i derbyniodd a rhestrwyd y Fro'n 7^{fed} ymhlith 13 o awdurdodau lleol am ei pherfformiad. Y costau canolrifol ac isaf oedd £15.39 a £2.61 yn y drefn honno. Casglodd y Fro 5,258 o dunelli metrig o wastraff gwyrdd yn ystod 2012/13 – sef 95 o gilogramau fesul teulu a chafodd ei rhestru'n 8^{fed} ymhlith 13 o awdurdodau am ei pherfformiad. Pwysau canolrifol y llwyth a gasglwyd fesul teulu oedd 97 o gilogramau, a'r pwysau mwyaf oedd 206kg.

Roedd ein canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref wedi trafod 14,820 o dunelli metrig o wastraff a 268 o gilogramau o wastraff fesul teulu yn ystod y flwyddyn. Rhestrwyd y Fro'n 9^{fed} ymhlith y 22 o awdurdodau lleol am y perfformiad hwn, a phwysau canolrifol y llwyth a driniwyd oedd 246 o gilogramau a'r pwysau mwyaf oedd 374kg. Cafodd 9,488 o dunelli metrig o wastraff eu hailgylchu sy'n golygu bod 64% o'n gwastraff wedi'i ailgyfeirio (rhestrwyd y Fro'n 18^{fed} ymhlith y 22 awdurdod am hyn; 69% oedd y gyfradd ganolrifol a 95% oedd y gyfradd uchaf). Cost glir y gwasanaeth hwn fesul teulu yn y Fro oedd £29.35, a chawsom ein rhestru'n 10^{fed} ymhlith y 22 awdurdod am y perfformiad hwn. £29.96 oedd y gost ganolrifol a £12.73 oedd y gost isaf. Er mwyn gwella ein perfformiad yn y maes hwn, byddwn bellach yn archwilio'r gwastraff gweddillol yn y bagiau du sy'n cael eu gadael yn ein canolfannau ac yn tynnu unrhyw eitemau sy'n addas i'w hailgylchu. Llwyddwyd i godi lefelau ailgylchu mewn canolfannau ailgylchu gwastraff y cartref yn y modd yma.





Cost glir y gwasanaeth gwastraff gweddillol fesul cartref yw £49.30, a rhestrwyd awdurdod y Fro'n 4^{ydd} ymhlith y 22 awdurdod lleol am y perfformiad hwn. Y costau canolrifol ac isaf oedd £28.25 a £14.06 yn y drefn honno.

Rydym yn parhau i archwilio a hybu cyfleoedd i gydweithio er mwyn gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid ac arbed arian. Drwy gydweithio â phedwar awdurdod arall ar Brosiect Gwyrdd, a chrynhoi gwastraff y pum awdurdod lleol at ei gilydd ar ôl ei ailgylchu a'i gompostio, bydd modd cynnig gwell gwerth am arian i'r trethdalwr. Symudwyd ymlaen hefyd yn ystod 2013/14 gyda phrosiect ar gyfer prynu treuliwr anerobig ar y cyd â Chyngor Caerdydd. Mantais y cyfarpar hwn yw ei fod yn creu isgynhyrchion defnyddiol fel deunydd gwella pridd a bio-nwy ar gyfer cynhyrchu trydan. Bydd y Fro ar ei hennill o rannu elw yn y modd y'i trefnir yn y contract, a bydd hynny yn ei dro o gymorth i ni wella gwasanaethau. Bydd trefniadau eraill fel contract dros dro Prosiect Gwyrdd ar gyfer trin gwastraff gweddillol, a Fforwm Fframwaith Ailgylchu'r Dyfodol De-ddwyrain Cymru'n ein galluogi i arbed costau, am y byddwn yn sicrhau arbedion maint dwy rannu gwasanaethau a rhwydwaith mewnol.

Credwn fod ein dull presennol o weithredu drwy addysgu'r cyhoedd; hwyluso'r broses er mwyn denu mwy o ailgylchwyr a thargedu cymunedau sy'n gyndyn i ailgylchu'n helpu'r Cyngor i symud tuag at ei nod o wastraffu llai, ailgylchu mwy ac anfon llai o wastraff i safle tirlenwi. Serch hynny, bydd y dasg o ragori ar lefelau cyfranogi uchel y Fro'n mynd yn fwy anodd ar hyd yr amser wrth i dargedau cenedlaethol godi a chyllidebau grebachu.

Casglwn i ni lwyddo i sicrhau'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer eleni am i ni daro ein targed statudol ar gyfer ailgylchu cymysg flwyddyn ymlaen llaw, ac y byddwn yn sicr o allu dod i ben â'r rhan fwyaf o'r camau a thargedau cysylltiedig. Serch hynny, wrth ein cymharu â gweddill Cymru, y mae'n amlwg y bydd yn rhaid i ni gydweithio gryn dipyn â'n prif randdeiliaid a phartneriaid yn y tymor hir er mwyn sicrhau y caiff y Cyngor ei restru'n uwch yn genedlaethol a'i fod hefyd mewn lle da i daro targedau llym LIC ar gyfer ailgylchu ac arbed tirlenwi.

Ein mesurau cynnydd

Mesurau a thargedau	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Targed 2013/14	Perfformiad 2013/14	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru) ³
Canran gwastraff dinesig yr awdurdod lleol sy'n cael ei baratoi ar gyfer ei aildefnyddio. ⁴	0.36%	0.32%	0.35%	0.40%	2.09%	
Canran y gwastraff dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol sy'n cael ei ailgylchu.	27.73%	33.12%	33%	33.44%	33.80%	
Canran y gwastraff dinesig a gesglir gan yr awdurdod lleol sy'n ddeunydd organig a ddiolwyd cyn ei gasglu ac yn cael ei gompostio neu'i drin drwy broses fiolegol arall.	21.49%	21.09%	23%*	22.32%	18.44%	
Canran y gwastraff dinesig sy'n cael ei gasglu a'i baratoi ar gyfer ei aildefnyddio a/neu sy'n ddeunydd organig a ddiolwyd cyn ei gasglu ac yn cael ei gompostio neu'i drin drwy broses fiolegol arall.	51.10%	54.48%	54%*	54.77%	54.33%	

* Targedau a newidiwyd er mwyn adlewyrchu disgwyliadau mwy ymarferol ar gyfer y gwasanaeth yng ngoleuni diffyg adnoddau (24% a 57% yn y drefn a gofnodwyd).

³ Cyfeiriad y cynnydd – mae hyn yn cymharu perfformiad y Fro ar gyfer 2013/14 â chyfartaledd Cymru (pan fo'r ffigyrau ar gael). Mae saeth sy'n cyfeirio ar i fyny'n dangos bod perfformiad y Fro'n rhagori ar gyfartaledd Cymru ac y mae saeth sy'n cyfeirio ar i lawr yn dangos bod perfformiad y Fro'n is na chyfartaledd Cymru.

⁴ Diwygiwyd y dangosydd perfformiad hwn yn ystod 2012/13 er mwyn cynnwys rwbela oedd wedi amharu ar y dangosydd.

4.2. Rhoi cymorth a chyngor ynglŷn â thai

Beth ydym am ei gyflawni?

Darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar gyfer plant a phobl ifanc yn gyflymach a pherfformio o leiaf cyn gyflymed ag awdurdodau Cymru'n gyffredinol yn ystod 2011/12 (326 o ddiwrnodau).

Sail resymegol yr amcan hwn

Er i'n perfformiad o safbwynt cyflawni addasiadau drwy grant wella'n gyson yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, y mae gennym dipyn o wella i'w wneud cyn cyrraedd yr un safon â gweddill Cymru. Mae Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2012 yn nodi darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl fel maes sydd angen gwella arno.

Mae gan 1 ym mhob 5 o bobl y Fro anabledd a fydd yn effeithio ar eu ffordd o ddefnyddio eu heiddo'n ddiogel. Y mae'r ganran o drigolion y Fro sy'n hŷn na 65 oed hefyd ar gynnydd. Wrth i'r boblogaeth hon gynyddu, bydd mwy fyth o bwysau arnom i addasu'r stoc dai bresennol er mwyn iddynt gael byw'n annibynnol er gwaethaf eu hanabledd. Ochr yn ochr â'r galw cynyddol hwn, y mae mwy fyth o bwysau arnom i reoli cyllidebau cyfalaf ac arbed arian o flwyddyn i flwyddyn. Mae helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi am fwy o amser yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor yng ngoleuni heneiddio cyson y boblogaeth.

Beth sydd wedi'i gyflawni?

Rydym yn dal i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn gyflymach nag o'r blaen, ac yr oedd ein perfformiad ar ddiwedd 2013/14 – sef 284 o ddiwrnodau – yn rhagori ar ein targed o 326 o ddiwrnodau a seiliwyd ar gyfartaledd Cymru yn ystod 2011/12.

Er i ni ragori ar ein targed amcan gwella ar gyfer darparu'r grantiau hyn (326 o ddiwrnodau) o 42 o ddiwrnodau, yr ydym yn dal ymhlith perfformwyr chwarterl isaf Cymru. Yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf, y mae amserau aros am Grantiau Cyfleusterau yn y Fro wedi gostwng o 1,046 o ddiwrnodau yn 2008/9 i 284 days yn 2013/14 - sef 75%. Serch hynny, nid yw hyn wedi gwella fymryn ar ein safle o'n cymharu â pherfformwyr gorau Cymru (18^{fed}) am y bydd awdurdodau ym mhob rhan o Gymru hefyd yn gwella o flwyddyn i flwyddyn. Yn ystod 2013/14 yr oedd perfformiad y chwarterl uchaf yn amrywio o 56 i 206 o ddiwrnodau ar gyfartaledd.

440 o'i gymharu â 267 ar gyfer Cymru'n gyffredinol, oedd nifer y diwrnodau a gymerwyd i ddarparu grantiau ar gyfer plant a phobl ifanc. 272 oedd y nifer ar gyfer oedolion o'i gymharu â 234 ar gyfer Cymru'n gyffredinol. (Sylwch mai data dros dro'n unig yw hwn sy'n aros i gael ei gadarnhau).

150 o Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (145 ar gyfer oedolion a 5 ar gyfer plant) gwerth £1,151,860, a gymeradwywyd rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2014, a 132 o grantiau (127 ar gyfer oedolion a 5 ar gyfer plant) gwerth £976,382, a gafodd eu cwblhau. Rydym wedi buddsoddi rhagor o adnoddau yn y gwasanaeth er mwyn cael parhau i wella. Mae cynlluniau ar gyfer gwelliannau wedi'u seilio yn eu tro ar yr ymarfer da a welsom yn y cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru.

Yn ystod 2013/14, cafodd y broses ar gyfer darparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ei gwella yn y ffordd ganlynol gan helpu i sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol:

- Cyflwynwyd tendro electronig, er mwyn cwtogi ar yr amser y bydd yn rhaid ei dreulio'n gweinyddu pob grant unigol yn ystod y cam hwn o'r broses. Rydym hefyd wedi gwahodd tendrau ar gyfer y fframwaith addasu erbyn a fydd yn golygu na fydd angen tendro am bob grant unigol. Bydd hyn yn helpu cleientiaid drwy leihau'r amser rhwng cwblhau rhestr gwaith a chychwyn ar y gwaith adeiladu. Bydd llai o waith gweinyddu i'r Cyngor wrth roi gwaith ar dendr a bydd yn bosibl amcangyfrif cost gwaith yn fwy manwl.
- Defnyddiwyd Gwasanaethau Eiddo'r Cyngor wrth lunio cynlluniau pensaer ar gyfer pob gwaith cymhleth a oedd yn ymwneud â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae hyn yn golygu na fydd yn rhaid treulio cymaint o amser yn trin achosion cymhleth a gallwn brosesu grantiau'n gyflymach nag yn y gorffennol.
- Bydd pob cais am grant cyfleusterau ar gyfer plentyn yn cael ei gyfeirio at Therapydd Galwedigaethol er mwyn sicrhau na fydd yn rhaid i unrhyw blentyn aros am gael ei asesu ar gyfer grant.
- Ad-drefnwyd y broses grantiau cyfleusterau fel y gallem gynnal y prawf moddion ar gyfer oedolion yn gynharach yn ystod y gweithgareddau. Fe'i cynhelir bellach ar ddechrau ymchwiliad er mwyn rhoi gwybod i gleientiaid cyn gynted ag y bo modd am unrhyw gyfraniad y bydd disgwyl iddynt ei wneud.

Sicrhawyd y canlyniadau canlynol:

- Bydd y broses o weld cleient am y tro cyntaf, trefnu iddo weld therapydd galwedigaethol a chyflwyno adroddiad sy'n argymhell gwaith addasu i dîm Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn dod yn gyflymach ar hyd yr amser. Bydd yn cymryd 81 o ddiwrnodau erbyn hyn sy'n 30% yn gyflymach na'r llynedd. Ar ddiwedd Mawrth 2014, 26 o gleientiaid a oedd yn aros i gael eu hasesu gan therapydd galwedigaethol ar gyfer Grant Cyfleusterau ac yr oedd yr un a fu'n aros hwyaf wedi cysylltu â ni ar 17 Ionawr 2014.

- Byddwn hefyd yn cymryd llai o amser i gymeradwyo Grantiau Cyfleusterau ar ôl derbyn adroddiad therapydd galwedigaethol sy'n argymhell gwaith addasu – sef 113 o ddiwrnodau.
- Roedd gwaith a gwblhawyd yn ystod 2013/14 wedi cymryd 79 o ddiwrnodau o ddyddiad cymeradwyo'r grant, ac yr oedd hyn unwaith eto'n rhagori ar ein perfformiad yn ystod 2012/13.
- 97% o'r rhai a gafodd Grant Cyfleusterau i'r Anabl a gytunodd ei bod yn haws iddynt fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain o ganlyniad ac 83% a gytunodd yn llwyr â hynny. 96% a deimlai fod llai o berygl iddynt lithro neu faglu yn eu cartrefi, a 96% a ddywedodd nad oedd angen cymaint o gymorth arnynt i ymolchi, coginio a symud o amgylch eu cartrefi ers i'r gwaith addasu gael ei wneud. Ar y cyfan, yr oedd pob cwsmer yn fodlon ar wasanaeth yr Asiantaeth Grantiau a dywedodd pawb fod safon y gwaith a wnaethpwyd yn eu cartrefi un ai'n dda neu'n dda iawn (data arolwg 2013/14).

Byddwn yn asesu anghenion pob ymgeisydd am Grant Cyfleusterau ac yn cymeradwyo cymorth ariannol ar gyfer addasiadau a fydd yn ei gwneud yn haws iddynt fyw'n annibynnol gartref yn eu cymuned gyda'r rhwydwaith o gymorth lleol sydd ganddynt. Mae hyn yn cyfrannu i nod y Cyngor ynglŷn â gwella lles cymdeithasol trigolion. Mae'r holl gwmnïau adeiladu sy'n ymgymryd â gwaith a noddir drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn fentrau bach a chanolig. Drwy gefnogi'r mentrau hyn, byddwn yn cefnogi swyddi lleol a'r economi leol ac y mae hynny'n un o brif nodau'r Cyngor.

Rydym wedi cyflymu'r broses grantiau ar gyfer plant ac oedolion fel ei gilydd sy'n golygu y gallant fanteisio'n gyflymach ar yr addasiadau tai sydd eu hangen arnynt. Cafodd Polisi Adnewyddu Tai Sector Preifat y Cyngor ei adolygu a'i gytuno gan y Cabinet ym Mawrth 2014. Mae'r polisi hwn yn caniatáu cynnig Grantiau Ail-leoli i gleientiaid pan fo'n anymarferol cynnig Grant Cyfleusterau oherwydd adeiladwaith y tŷ a'r anghenion y darperir ar eu cyfer. Newidiwyd y grant hwn fel y bo modd i gleient yn y sector tai preifat ar osod gael cymorth ariannol i symud i rywle arall o fewn y sector hwnnw petai'n amhosibl addasu ei dŷ presennol. Bu'r dacteg hon o gymorth i sicrhau bod y gwasanaeth yn haws manteisio arno.

Bu sylwadau cwsmeriaid yn ysgogiad i ni lunio arweiniad mwy cynhwysfawr i broses Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac y mae'r fersiwn terfynol yn cael ei drefnu ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn gobeithio sefydlu panel cleientiaid Grantiau Cyfleusterau y gallwn ymgynghori ag ef ynglŷn â phrosesau a dulliau o weithredu ar hyn o bryd, a'r ffordd orau o'u gwella ar gyfer cleientiaid y dyfodol.

Mae'r trefniadau newydd ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn cynnwys llawer o elfennau o ymarfer da. Yn Nhachwedd 2013, cafodd therapydd galwedigaethol ei gyflogi gan y gwasanaeth Grantiau Cyfleusterau er mwyn cefnogi'r adnoddau therapi galwedigaethol sydd gennym ar hyn o bryd yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y gweithiwr newydd hwn nid yn unig yn cefnogi'r gwasanaeth therapi galwedigaethol presennol ac yn asesu ymgeiswyr am Grantiau Cyfleusterau, ond hefyd yn cynghori ynglŷn â'r math o waith a fyddai fwyaf

addas i'r client. Bydd y gwasanaeth yn cymryd rhan ymarferol yng Ngrŵp Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ac Adnewyddu Technegol De Cymru gan rannu gwybodaeth ac ymarfer da.

Mae costau grantiau'n lleihau'n gyffredinol wrth i brosesau gael eu symleiddio. £7, 396 oedd cost cwblhau grant Cyfleusterau i'r Anabl yn 2013/14 ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â'r llynedd pan drefnwyd 93 o grantiau Cyfleusterau am £9,151 ar gyfartaledd. 127 o oedolion a gafodd gymorth i fwy'n annibynnol yn eu cartrefi am fwy o amser a 5 o blant a gafodd gymorth i fwy'n fwy annibynnol gartref yn ystod 2013/14 – sef 41 oedolyn yn fwy a 2 blentyn yn fwy na'r llynedd (2012/13).

Amcangyfrifir mai am bob £1 a werir ar fân waith addasu, £7.50 sy'n cael eu harbed o gyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. O gymhwyso'r gymhareb hon at gyllideb y gwasanaeth cyfleusterau i'r anabl ar gyfer y llynedd (2013/14) – sef £1.2 m – y mae'r arbedion yn gymaint â £9 miliwn, sy'n cael eu harbed yng nghyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. O gymhwyso'r gymhareb hon at y gyllideb ar gyfer cyfleusterau i'r anabl yn ystod 2013/14 (£1.2m), gwelir bod iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi arbed £9 miliwn.

Mae'r broses o ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn. Mae perfformiad y Cyngor hefyd wedi gwella a hynny'n fwy nag yng Nghymru'n gyffredinol. Yn ystod 2013/14, gwellodd perfformiad Cymru ar gyfartaledd o 12% yn unig, tra bod perfformiad y Fro wedi gwella o 18%. Serch hynny, er i'r cynnydd blynyddol cyson hwn ragori ar gynnydd Cymru'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn flaenorol, ni fu'n ddigon i'r Cyngor allu camu allan o chwarter isaf perfformwyr Cymru.

Yn ystod 2014/15, y mae'r Cyngor yn parhau i wella'r broses grantiau cyfleusterau ac yn llwyddo i'w darparu'n gynt ar hyd yr amser. Ar ddiwedd chwarter cyntaf 2014/15, llwyddodd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl cyn pen 239 o ddiwrnodau sy'n cyfateb yn union i berfformiad Cymru'n gyffredinol yn ystod 2013/14. Mae perfformiad y Fro felly'n ganolig o'i gymharu â pherfformiad holl awdurdodau ar yn ystod 2013/14. Y nod ar gyfer 2014/15 yw gwneud cystal â pherfformwyr chwarter uchaf Cymru yn ystod 2013/14 - sef 206 o ddiwrnodau.

Byddwn yn parhau i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn gyflymach yn ystod 2014/15 drwy gyflogi rhagor o therapyddion galwedigaethol fel na fo'n rhaid i gleient aros gyhyd am asesiad, a thrwy ddefnyddio'r fframwaith addasu. Er mwyn cael goleuni pellach ar ei berfformiad yng nghyd-destun awdurdodau eraill sy'n perfformio'n dda, bydd y Cyngor yn gwneud defnydd o'r data meincnodi ar gyfer gwaith adnewyddu tai'r sector preifat sy'n cael ei grynhoi ar hyn o bryd gan Uned Data Cymru. Bydd y data meincnodi hwn yn caniatáu cymharu amserau darparu yn ystod gwahanol gamau yn y broses o gyflwyno grantiau cyfleusterau. Cawn fwy fyth o gyfle wedyn i wella ein prosesau a sicrhau ein bod yn dehongli'r diffiniad o'r dangosydd perfformiad yn y ffordd fwyaf priodol.

Mae'r amcan hwn wedi'i gyflawni am i ni gyrraedd ein targed o 284 o ddiwrnodau. Roedd yn rhagori ar berfformiad Cymru'n gyffredinol yn ystod 2011/12 (326 o ddiwrnodau). Serch hynny, nid oedd wedi rhagori ar berfformiad Cymru'n gyffredinol yn ystod 2013/14, a rhestrwyd y Fro ymhlith perfformwyr chwarterl isaf Cymru, ac yn 18^{fed} yng Nghymru o ganlyniad.




Astudiaeth Achos – Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Yn ystod arolwg tai fel rhan o Brosiect Adnewyddu Castleland, daethpwyd i wybod am fenyw 88 oed yn yr ardal yr oedd angen cymorth arni i wella ei hamgylchiadau a byw'n ddiogel ac yn annibynnol yn ei chartref ei hun. Roedd gan yr ymgeisydd hwn faddon na allai ei ddefnyddio, yr oedd yn rhaid iddi ddefnyddio'r toiled yn yr ardd gefn ac ni allai gyrraedd yr ystafelloedd gwely ar lawr cyntaf y tŷ.

Roedd gan yr ymgeisydd lawer iawn o hunan-barch ac yr oedd yn annibynnol tu hwnt ac yn anfodlon iawn i'r awdurdod lleol gael ymyrryd. Drwy gydweithrediad agos y Tîm Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, y Therapydd Galwedigaethol mewnol a Thîm Adnewyddu'r Ardal, llwyddwyd i lunio rhaglen addasu ar ei chyfer. Roedd yn cynnwys symud y gegin a'r ystafell fyw yn y tŷ er mwyn caniatáu i gawod ar lefel y llawr, a thoiled mewnol gael eu gosod mewn ystafell ymolchi ar y llawr gwaelod. Roedd yr ymgeisydd o ganlyniad yn gallu parhau i fyw ar lawr gwaelod y tŷ ac am na fyddai'n rhaid bellach iddi ystraffaglio i gyrraedd yr ystafell wely i fyny'r grisiau na defnyddio'r toiled yn yr ardd, ni fyddai cymaint o berygl iddi gwmpo.

Am nad oedd yr ymgeisydd am symud i lety dros dro tra bod y gwaith yn cael ei wneud, bu'r Tîm Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl yn ymgynghori â hithau a'r adeiladydd er mwyn cael trefnu rhaglen waith a fyddai'n caniatáu iddi aros ar y safle. O dan oruchwyliaeth fanwl y Tîm Grantiau, llwyddodd y contractwr i ddod i ben â'r prosiect yn effeithiol ac yn ddiogel, ac yr oedd yr ymgeisydd wrth ei bodd yn cael aros yn ei chynefin a theimlo na fyddai cymaint o berygl iddi lithro neu gwmpo wrth gael bath a symud o gwmpas ei heiddo.

Ein mesurau cynnydd

Mesurau a thargedau	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Targed 2013/14	Perfformiad 2013/14	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru) ⁵
Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl.	398 o ddiwrnodau	346 o ddiwrnodau	326	284	239	
Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl ar gyfer plant a phobl ifanc.	647 o ddiwrnodau	454.43 o ddiwrnodau	510 ⁶	440	267 ⁷	
Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu grant cyfleusterau i'r anabl ar gyfer oedolion.	392.30 days	337.23 days	322	272	234 ⁸	
Bodlonrwydd cwsmeriaid. Canran y cleientiaid sy'n fwy bodlon ar eu bywyd gartref ers i'r gwaith grant gael ei gwblhau .	data heb ei gasglu	91%	80%	97.8%		

⁶ Cyfeiriad y cynnydd – mae hyn yn cymharu perfformiad y Fro ar gyfer 2013/14 â chyfartaledd Cymru (pan fo'r ffigyrau ar gael). Mae saeth sy'n cyfeirio ar i fyny'n dangos bod perfformiad y Fro'n rhagori ar gyfartaledd Cymru ac y mae saeth sy'n cyfeirio ar i lawr yn dangos bod perfformiad y Fro'n is na chyfartaledd Cymru.

⁷ Wrth adolygu'r baich gwaith wrth osod y targed perfformio ar gyfer 2013/14, gwelwyd bod achosion eisoes yn y system a oedd wedi 'casglu amser' am eu bod yn aros i gael eu hasesu gan therapydd galwedigaethol. Roedd hyn yn cael ei ystyried wrth osod y targed er mwyn sicrhau ei fod yn ymarferol.

⁸ Data dros dro

⁹ Data dros dro

4.3. Diogelu ein plant a'n pobl ifanc fregus

Beth ydym am ei gyflawni?

Cael mwy o ofalwyr maeth ar lyfrau'r Cyngor.

Sail resymegol yr amcan hwn

Mae gan wasanaeth maethu Bro Morgannwg 77 o ofalwyr maeth ar ei lyfrau (2013/14), sy'n darparu lle ar gyfer 106 o blant a phobl ifanc. Mae'r galw'n fwy nag y gall ein gofalwyr maeth ddarparu ar ei gyfer ar hyn o bryd, felly, y mae'n rhaid i'r Cyngor ddefnyddio gofalwyr maeth allanol drwy dalu i Asiantaethau Maethu Annibynnol. Mae gofal maeth allanol yn ddrutach na'r ddarpariaeth fewnol a bydd plant o dan anfantais o gael eu lleoli'r tu allan i ardal yr awdurdod lleol.

Mae'n flaenoriaeth gan y Cyngor i ddibynnu'n llai ar asiantaethau maethu annibynnol drwy recriwtio mwy o ofalwyr maeth cymeradwy, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifanc heriol eu hymddygiad, a rhai anabl lle nad oes rhithyn o obaith ateb y galw ar hyn o bryd. Er bod y Cyngor am ddibynnu'n llai ar ddarparwyr allanol, y mae'n cydnabod nad yw hynny'n bosibl wrth drafod rhai achosion mwy cymhleth na'i gilydd, pan fydd angen cynnal parhad yn y gofal, er enghraifft. Mae'r Fro am leoli plant a phobl ifanc yn lleol bryd bynnag y bo modd, er mwyn iddynt gael aros yn eu cymunedau, cadw eu rhwydweithiau a pheidio â gorfod dioddef oherwydd unrhyw amharu ar eu bywydau.

Mae hwn yn faes a nodwyd hefyd fel rhan o'r [Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Plant](#) ac fel ffordd o helpu i gyrraedd targed arbedion y gwasanaeth.

Beth sydd wedi'i gyflawni?

Rydym wedi cyrraedd ein targed amcan ynglŷn â recriwtio mwy o ofalwyr maeth mewnol yn y Fro drwy recriwtio 8 o ofalwyr maeth newydd. Rydym hefyd bellach yn trefnu llai o leoliadau gyda gofalwyr maeth allanol. O ganlyniad, byddwn yn gwario llai fesul plentyn dan ofal ar leoliadau maethu.

100% o'r holl ofalwyr ifainc a oedd yn hysbys i'r Cyngor a gafodd eu hasesu. Cododd canran yr asesiadau craidd a gwblhawyd o fewn y 35 o ddiwrnodau gwaith argymelledig i 91%, o'i chymharu â 76% yng Nghymru'n gyffredinol. Roedd canran y plant a leolwyd o leiaf deirgwaith wedi gostwng o 14% yn 2012/13 i 11% yn 2013/14. Serch hynny, y mae'r set ddata genedlaethol ar gyfer canran y plant dan ofal a oedd wedi cael eu lleoli o leiaf deirgwaith yn dangos gostyngiad o 9.4% yn 2012/13 i 8.3% yn 2013/14 ac yn ein gosod yn y chwarter canol uchaf o ran

perfformiad. Ffigur sy'n gysylltiedig â lleoliadau yw canran y plant a fu'n newid ysgol o leiaf unwaith ac yr oedd honno wedi gostwng o 21.7% yn 2012/13 i 16.4% yn 2013/14. Mae'r perfformiad a restrwyd yn y chwarter isaf yn 2012/13 bellach wedi'i restru yn y chwarter canol uchaf ar gyfer 2013/14. Mae gan bob plentyn dan ofal weithiwr cymdeithasol, bydd cynllun gofal ar gyfer pob plentyn ar ddechrau ei gyfnod lleoli a bydd 97% o'r holl gynlluniau gofal yn cael eu hadolygu o fewn y cyfnod penodedig.

Fel un o flaenoriaethau'r Cyngor, bu'r amcan hwn o gymorth i wella'r gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd lleol, am fod plant yn debycach o gael eu lleoli yn yr ardal a chadw mewn cysylltiad â'u teulu, ffrindiau ac ysgol a gwneud gweithgareddau yn y gymuned. Drwy leoli plant yn lleol, bydd costau maethu'n llai ac adnoddau lleol yn cael eu defnyddio. Bydd costau eitemau fel yr amser a dreulir wrth waith cymdeithasol hefyd yn llai.

Drwy'r [Strategaeth Recriwtio](#) byddwn yn defnyddio tueddiadau o safbwynt lleoli i geisio deall anghenion ar hyn o bryd ac anghenion y dyfodol. Drwy recriwtio mwy a mwy o ofalwyr maeth o'r ardal leol, bwriadwn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael yn lleol i ateb y galw, a chyfrannu tuag at ddatblygu'r ardal mewn ffordd gynaliadwy.

Mae ansawdd y gwasanaeth wedi gwella ar ôl penodi swyddog recriwtio penodol. Byddwn yn ymateb i ymholiadau cyntaf cyn pen 24 awr ac yn ymweld â phob darpar ofalwr am y tro cyntaf cyn pen saith niwrnod. Bydd chwe chwr hyfforddi 'cyn cymeradwyo' yn cael eu cynnal bob blwyddyn a bydd pob asesiad yn cael ei gwblhau cyn pen chwe mis. Byddwn yn cyflymu'r holl broses ar gyfer ymgeiswyr sydd eisoes yn maethu drwy asiantaeth faethu arall. Drwy gyflogi swyddog recriwtio, yr oedd modd hefyd gynnal ymgyrch recriwtio benodol.

Gan fod mwy o ofalwyr mewnol erbyn hyn, y mae'n haws i ni ddod o hyd i leoliadau lleol sy'n addas. Am fod mwy o ddewis o leoliadau, yr oedd lleoliadau'n fwy addas a sefydlog. Nid oes rhaid i blant ymadael â'u cymunedau er mwyn cael gofal. O ganlyniad, y mae'r gwasanaeth yn fwy effeithiol ac yn llai anghyfartal. Bu'r arweiniad i'r ymarfer recriwtio gorau a gafodd ei gytuno gan Gydweithredfa Gwella De-ddwyrain Cymru ac sydd bellach ar waith yn y Fro, hefyd o gymorth yn hyn o beth.

Mae ein hymgyrch recriwtio wedi canolbwyntio ar ddefnyddio gofalwyr presennol a rhai newydd i hyrwyddo'r gwasanaeth. Buont yn sôn ar y cyfryngau am eu profiad o faethu er mwyn denu mwy o ddarpar ofalwyr i ymgeisio.

Bydd y gwasanaeth yn rhan o ymarfer meincnodiar a gynhelir bob mis ar draws deg awdurdod Cydweithredfa Gwella De-ddwyrain Cymru mewn nifer o feysydd allweddol fel: ymholiadau cyntaf, ymweliadau cyntaf, ceisiadau maethu, trefnu asesiadau, cymeradwyo gofalwyr a gofalwyr sy'n dilyn hyfforddiant 'cyn eu cymeradwyo'. Mae Bro Morgannwg yn cymharu'n ffafriol ag awdurdodau eraill tebyg o ran maint o safbwynt ei data perfformio ar gyfer 2013. Er enghraifft, yn ystod 2013, derbyniodd y Fro 92 o ymholiadau cyntaf o'u cymharu â 66 ym Mlaenau Gwent, 39 ym Mynwy a 90 yn Nhorfaen. Daeth 29 o geisiadau am faethu i law yn y Fro'r flwyddyn honno, o'u cymharu â 21 ym

Mlaenau Gwent, 7 ym Mynwy, 31 ym Merthyr ac 17 yn Nhorfaen. Roedd awdurdodau a chanddynt swyddogion neu dimau recriwtio penodol, bob amser yn perfformio'n well. Defnyddiwyd y data hwn ar draws y Gydweithredfa er mwyn cryfhau'r sail resymegol ar gyfer datblygu canolfan farchnata ranbarthol.

Daeth ein hymgyngoriad blynyddol ynghylch maethu i ben yn Awst 2013 ac yr oedd wedi crynhoi sylwadau oddi wrth ofalwyr maeth a phlant dan ofal fel ei gilydd. Mae'r prif ddarganfyddiadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar ansawdd gofal sydd ar gael i Aelodau'r Cyngor, y Gydweithredfa a'r cyhoedd ar wefan y Cyngor, ac o gymorth i ddatblygu gwasanaethau yn y dyfodol. Ymddengys ar y cyfan fod gofalwyr yn fodlon ar y wybodaeth a gawsant am y broses gymeradwyo. Roeddynt hefyd yn teimlo bod digon o bobl allweddol yn cymryd rhan drwy rannu gwybodaeth a phwyso a mesur addasrwydd lleoliadau drwy gydol y broses o safbwynt diwylliant, crefydd, hil ac anabledd. Roedd y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu goruchwyllo'n gyson ac yn dweud mai'r un gweithiwr cymdeithasol a fu wrth y gwaith. Cawsom ddigon o sylwadau ffafriol am gefnogaeth y tîm, ac ymddengys fod swyddogaethau o fewn y gwasanaeth maethu'n amlwg i ofalwyr maeth am iddynt deimlo ei bod yn hawdd manteisio ar y rhan fwyaf o agweddau ar y cymorth. Ymddengys fod pobl ifanc yn weddol fodlon ar y cymorth a gawsant. Er bod hyn i gyd yn ddefnyddiol, yr oeddwn yn teimlo bod angen casglu mwy o sylwadau oddi wrth gwsmeriaid yn y dyfodol er mwyn cael ciplun mwy effeithiol o farn defnyddwyr.

Ein mesurau cynnydd

Mesurau a thargedau	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Targed 2013/14	Perfformiad 2013/14	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)
Denu mwy o ymholiadau cyntaf	57	64	80	92		
Sicrhau bod mwy o bobl sy'n gwneud ymholiadau'n cael eu hasesu	1.75%	12.5%	15%	9%		
Sicrhau bod mwy o ofalwyr maeth yn cynnig lle i frodyr a chwiorydd	0	2	o 2	o 2		
Sicrhau bod mwy o ofalwyr maeth yn cynnig lle i blant yn eu harddegau	0	3	o 2	o 3		
Sicrhau bod mwy o ofalwyr maeth yn cynnig gofal seibiant byr	1	3	o 3	o 3		
Sicrhau bod 20% yn llai o blant yn cael eu lleoli drwy asiantaeth faethu (30 yw'r nifer ar hyn o bryd).	heb ei gofnodi	heb ei gofnodi	Mae 6 ⁹ lleoliad yn llai	1		

⁹ Newidiwyd y targed ar gyfer gostwng nifer y plant a leolir drwy asiantaeth faethu annibynnol (sef 6) er mwyn adlewyrchu'r achos busnes ar gyfer y gwasanaeth a gytunwyd ar lefel gorfforaethol. Yn anffodus yr oedd y Cynllun Gwella wedi'i gyhoeddi cyn cael y ffigurau sydd fel a ganlyn:

2013/14	1.1
2014/15	5.6
2015/16	2.7
2016/17	3.7

4.4. Gwella cyflawniad a phresenoldeb yn ein hysgolion a'n canolfannau dysgu

Beth ydym am ei gyflawni?

Cefnogi a herio ysgolion i wella lefelau cyflawniad yng Nghyfnod Allweddol 3.

Sail resymegol yr amcan hwn

Nid oedd perfformiad y Fro yng Nghyfnod Allweddol 3 yn dangos yr un cynnydd ag a welwyd yng Nghymru'n gyffredinol yn ystod 2011/12. Roedd ei pherfformiad ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 ac yn ôl y rhan fwyaf o ddangosyddion ar y cyfan wedi aros yn ei unfan ar ôl y cynnydd a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol (2010/11). Mae perfformiad yn y Fro ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn cyfateb i'r hyn a welir ar draws Cymru'n gyffredinol, ond nid ywystal â'r perfformiad cenedlaethol yn ôl y dangosydd Pynciau Craidd. O'i gymharu â chynghorau eraill, yr oedd Cyngor y Fro wedi'i restru'n is na'i safle disgwyliedig (5^{ed}) yn ôl nifer o ddangosyddion.

Wrth ddadansoddi'r data ar gyfer Saesneg yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 a'r Cyfnod Sylfaen yn fanylach, gwelwyd bod tangyflawni mewn ysgrifennu'n rhannol gyfrifol am dangyflawni yn Saesneg, y dangosydd pynciau craidd a darllen, ysgrifennu a mathemateg gyda'i gilydd. Mae'r meysydd hyn yn achos pryder am na welwyd yr un cynnydd eleni ag a welwyd y llynedd.

Ar ôl archwilio ansawdd gwasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc yn y Fro yn ystod 2013, barnodd Estyn:

- fod perfformiad ysgolion yng nghyfnodau allweddol 2 a 3, o ran nifer y rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim, o safon is nag yng Nghymru'n gyffredinol;
- na chafodd pob ysgol ei herio i'r un graddau, ac i'r awdurdod neu wasanaeth y consortia rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion fethu â dod o hyd i rai ysgolion a oedd yn tangyflawni'n ddigon cyflym.'

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu'r addysg orau bosibl ar gyfer ei ddisgyblion a chodi safonau a lefelau cyflawni yn sgîl hynny.

Beth ydym wedi'i gyflawni?

Mae data perfformiad ar gyfer blwyddyn academiaidd 2012/13 yn dangos bod yr amcan hwn wedi'i gyflawni:

- Roedd ein perfformiad yn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn well nag yn ystod y flwyddyn flaenorol ac felly hefyd ein perfformiad yn ôl y dangosydd pynciau craidd sydd erbyn hyn yn well nag yng Nghymru'n gyffredinol ac yn ein codi o'r pedwerydd safle ar ddeg yn 2012, i'r pedwerydd.
- Rhestrwyd perfformiad y Cyngor yn uwch yn ôl pob dangosydd eleni na'r llynedd, a'r rhai gorau yw'r Dangosydd Pynciau Craidd (4^{ydd}), Saesneg (3^{ydd}), Mathemateg (3^{ydd}), Gwyddoniaeth (4^{ydd}) a Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg gyda'i gilydd sydd erbyn hyn wedi'u rhestru'n 4^{ydd} yng Nghymru
- Mae 50% o ysgolion yr Awdurdod bellach wedi'u rhestru yn chwarter uwch neu uchaf ysgolion Cymru ar gyfer Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.
- Roedd ein safle meincnodi wedi gwella: Saesneg (4^{ydd}), Cymraeg (3^{ydd}), Mathemateg (1^{af}), Gwyddoniaeth (2^{il}) a'r DPC (6^{ed}).
- Roedd perfformiad merched a bechgyn wedi gwella yn ôl eu cyfran ym mhob pwnc craidd ac eithrio'r Gymraeg lle arhosodd perfformiad y bechgyn yr un fath.
- Roedd ein perfformiad ym mhob pwnc sylfaen wedi gwella ers y flwyddyn flaenorol ac yn well nag yng Nghymru'n gyffredinol. Rhestrwyd pob pwnc yn uwch na 4^{ydd}, ar wahân i Gelf ac Ymarfer Corff a restrwyd yn 6^{ed}.
- Roedd ysgrifennu, darllen a sgiliau rhif i gyd wedi gwella ers y llynedd.
- Fe'n rhestrwyd yn y chwarter uchaf yng Nghymru am ein perfformiad o safbwynt presenoldeb mewn ysgolion uwchradd.

Er iddo berfformio'n dda'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn, y mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith eto er mwyn gwella cyflawniad yn gyson yng Nghyfnod Allweddol 3. Yn ôl y set ddata genedlaethol, y mae'r ganran o'r holl ddisgyblion a aseswyd a gafodd eu hasesu gan athro yn Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 wedi codi ryw fymryn bach, o 8.4% yn 2012/13 i 9.2% yn 2013/14. Eto i gyd, er gwaethaf y cynnydd hwn mewn asesu, y mae'r Fro'n dal yn y chwarter canol isaf ac yn 16^{eg} yng Nghymru o ran ei pherfformiad.

Bydd safon dda ym mhynciau craidd Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 3 fel arfer yn arwain at berfformiad da neu well yn yr arholiadau TGAU ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Mae'n gydnabyddedig bod disgyblion sy'n gwneud cynnydd da wrth ddysgu ac yn cyflawni'n well o ganlyniad, yn llawer mwy bodlon ac felly'n fwy tebyg o allu manteisio ar addysg uwch neu ddod o hyd i swydd.

Byddwn bellach yn targedu anghenion penodol ysgolion unigol wrth eu cefnogi a'u herio. Byddwn yn defnyddio data perfformiad mewn ffordd ddiagnostig er mwyn cael gweithredu felly. Mae Strategaeth Wella Cyfnod Allweddol 3 wedi rhoi cyfeiriad strategol a gweithredol i ni sydd angenrheidiol ar gyfer gwella yn y modd yma.

Buom yn cynorthwyo ac yn herio ysgolion a nodau mwy penodol mewn golwg. Seiliwyd hyn ar ddadansoddiad mwy gwyddonol o ddata perfformiad ysgolion. Byddwn yn parhau i weithredu yn y modd yma er mwyn gwella cyflawniad disgyblion ym mhob cyfnod allweddol yn y tymor hir.

Rydym wedi gwella ein perfformiad o safbwynt disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, drwy leihau'r diffyg cyfartaledd hwn. Gwellodd perfformiad merched a bechgyn yn ôl cyfran ym mhob pwnc craidd, ar wahân i'r Gymraeg lle arhosodd perfformiad y bechgyn yr un fath.

Mae dull y Gwasanaeth Gwella Ysgolion o weithio drwy dargedu anghenion penodol yn dal i sicrhau bod adnoddau bach yn cael eu defnyddio'n fwy effeithiol.

Mae ffyrdd newydd o weithredu, drwy roi mwy o bwyslais ar ddatblygu sgiliau darllen, ysgrifennu a rhif disgyblion, fel meysydd ar wahân a chyda'i gilydd wedi helpu i godi safonau. Mae ymarfer da fel defnyddio rhaglenni ymyrraeth Powerwriting, Big Write a Big Maths hefyd wedi helpu i godi safonau.

Mae ein perfformiad yn ôl y data meincnodi cenedlaethol wedi gwella. Mae cyfran fwy o ysgolion erbyn wedi'u rhestru yn y chwarteri meincnodi uchaf ar gyfer Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth a hefyd yn ôl y dangosydd pynciau craidd. Mae ein safle o'n cymharu ag awdurdodau eraill Cymru wedi codi'n sylweddol: Mathemateg (1^{af}); Gwyddoniaeth (2^{ll}); Saesneg a Chymraeg (3^{ydd}); Saesneg (4^{ydd}) a'r dangosydd pynciau craidd (6^{ed}). Mae cydweithio â Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De wedi cefnogi'r cynnydd o safbwynt cyflawni'r amcan hwn.

Dangosodd yr arolwg canfyddiad penaethiaid a gynhaliodd y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd fod arweinwyr ysgolion ar y cyfan yn fodlon ar y gwasanaeth y byddant yn ei gael. Bydd Gwasanaeth Rhanbarthol Addysg ar y Cyd yn defnyddio data canfyddiad i wella ansawdd y gwasanaeth.

Bydd Gwasanaeth Gwella Ysgolion a Chynhwysiant y Fro'n cydweithio'n agos â'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd er mwyn gwella canlyniadau a lles holl ddisgyblion ein hysgolion. Mae ein gwariant terfynol ar wella mewn perthynas â'r amcan hwn wedi'i bennu drwy wneud cyfanswm o gostau'r gwasanaeth a'r cyfraniad ariannol a dalwyd i'r Gwasanaeth Addysg ar y Cyd.

Codi safonau a lefelau cyflawni fydd un o brif flaenoriaethau'r Cyngor yn y tymor hir fel y bod gan ddisgyblion ym mhob cyfnod allweddol yr addysg orau bosibl a chyfle i gyflawni i'r eithaf. Mae'r Cyngor yn un o'r 4 awdurdod gorau yng Nghymru o ran ei berfformiad yng Nghyfnod Allweddol 3 erbyn hyn, ac y mae hynny'n sylfaen dda ar gyfer gwella eto.

Ein mesurau cynnydd

Mesurau a thargedau	Perfformiad 2011/12 (Academic Year 2010/11)	Perfformiad 2012/13 (Academic Year 2011/12)	Targed 2013/14 (Academic year 2012/13)	Perfformiad 2013/14 (Academic Year 2012/13)	Cyfartaledd Cymru 2013/14 (Academic Year 2012/13)	Cyfeiriad y cynnydd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)
CA3: Cyfran yr ysgolion a restrwyd yn y chwarteri meincnodi uwch ac uchaf ar ran eu perfformiad yng Nghyfnod Allweddol 1 lefel 5+.	50%	26%	heb ei osod	63%	Mae Estyn yn gofyn am >50% Nid yw cyfartaledd Cymru ar gael	
DPC CA3: Canran y disgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 a gyrhaeddodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro. Merched: Bechgyn: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim	71.88% 75.76% 68% 47.13% 76.30%	72.39% 76.92% 68.15% 43.20% 77.08%	74%	82.54% 86.07% 79.31% 55.75% 86.58%	72.53% 78.19% 67.17% 48.41% 77.99%	
CA3 DYM gyda'i gilydd: Canran y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 3 a gyrhaeddodd y safon mewn Darllen, Ysgrifennu a Mathemateg gyda'i gilydd.	65.86%	66.50%	heb ei osod	76.31%	67.32%	
Saesneg CA3: pawb Merched: Bechgyn: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim	78.75% 82.59% 71% 56.56% 82.75%	78.72% 86.03% 71.88% 53.88% 82.76%	heb ei osod	87.91% 92.84% 83.37% 69.15% 90.62%	79.33% 86.41% 72.61% 58.94% 83.94%	
Mathemateg CA 3: Pawb Merched: Bechgyn: Rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim Rhai nad ydynt yn cael prydau ysgol am ddim	82.48% 84.27% 80.68% 63.93% 85.81%	83.13% 83.97% 82.33% 64.08% 86.28%	heb ei osod	88.03% 89.45% 86.72% 67.16% 91.26%	81.08% 83.77% 78.54% 61.86% 85.46%	

DRAFT

DRAFT

4.5. Rheoli ein hadnoddau

Beth ydym am ei gyflawni?

Gweithredu cynlluniau effeithiol a chynaliadwy ar gyfer gweithlu'r Cyngor.

Gweithredu a pharhau i ddatblygu cynlluniau effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y gweithlu yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor.

Wrth i'r Fro wynebu newid mawr yn y dyfodol agos, bydd yn hanfodol bwysig i ni allu rhagweld y goblygiadau o safbwynt adnoddau dynol a sicrhau bod gan bobl sgiliau a phrofiad priodol ar gyfer darparu gwasanaethau'r dyfodol. Mae'r her bresennol oherwydd diffyg arian y sector cyhoeddus, yr angen am ymgysylltu â staff drwy gydol y newid a'r angen am gynllunio ar gyfer diffyg staff ac ymateb i'r problemau cysylltiedig, i gyd wedi arwain at nodi 'cynllunio gweithlu' yn risg gorfforaethol gymedrol.

Mae [Cynllun <http://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Our%20Council/Achieving%20our%20vision/Workforce-Plan.pdf>](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Our%20Council/Achieving%20our%20vision/Workforce-Plan.pdf) Gweithlu'r Cyngor, a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2012, wedi'i lunio yng nghyd-destun cyd-drefnu prosesau cynllunio ar gyfer cyllid, gwasanaethau ac adnoddau dynol. Bydd yn sail i strategaethau ac ymyrraeth ym maes adnoddau dynol a hyfforddiant yn ystod y pedair blynedd nesaf ac o gymorth i (a) lleddfu goblygiadau gwaethaf y newid cyfundrefnol a (b) sicrhau bod y Cyngor yn recriwtio ac yn cadw staff sy'n ddigon cymwys, hyfforddedig a phrofiadol i ateb anghenion gwasanaethau.

Beth ydym wedi'i gyflawni?

Gweithredu cynllun effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y gweithlu yw un o amcanion strategol tymor hir y Cyngor. **Er i ni gyflawni ein hamcanion arfaethedig ar gyfer 2013/14**, man cychwyn yn unig i raglen waith barhaol i wella ein trefniadau yw hyn er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn y lle gorau posibl i allu wynebu problemau llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus am gyhyd ag a ragwelir.

Yn ogystal â symud ymlaen gyda chymau unigol yn y Cynllun Gweithlu, byddwn yn ymdrechu ar hyd yr amser i wneud y broses gynllunio'n fwy cynaliadwy. Mae'r Cyngor wedi cysoni ei brosesau cynllunio ar gyfer cyllid, gwasanaethau ac adnoddau dynol er mwyn cael gwell amcan o nifer y staff a'r math o sgiliau a phrofiad y bydd angen amdanynt ar gyfer cynnal gwasanaethau'r dyfodol. Bydd holl gynlluniau'r gyfarwyddiaeth yn cael eu hadnwyddu ar yr un pryd â'r broses cynllunio gwasanaethau a gosod cyllidebau a gynhelir bob blwyddyn rhwng

Awst ac Ionawr. Bydd y Tîm Gwybodaeth, Cynllunio a Pherfformiad a sefydlwyd yn yr adran Adnoddau Dynol ar 1 Ebrill hefyd yn ein helpu i ganolbwyntio ar gynllunio'r gweithlu.

Cynhaliwyd cynhadledd gyntaf cynllunio'r gweithlu ym mis Gorffennaf 2013 ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol a Sgiliau er Cyfiawnder. Cafodd y diwrnod dderbyniad eithriadol o dda, a bu o gymorth i ni ddod â mater cynllunio'r gweithlu i'r amlwg yn y Cyngor a chryfhau ein cysylltiadau â sefydliadau sy'n dilyn yr arferion gorau. Ar gorn hyn, gofynnwyd i ni gynnal diwrnod tebyg ar gyfer awdurdodau lleol eraill yn ne-ddwyrain Cymru. Rydym wrthi bellach yn trefnu'r ail ddiwrnod 'ymgysylltu' blynyddol.

Rydym yn ail-lunio cynlluniau ac ymyrraeth ym maes adnoddau dynol a hyfforddiant er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gallu cwrdd â'u hanghenion staffio yn y dyfodol. Yn sail i hyn, y mae strategaethau pedair blynedd ar gyfer adnoddau dynol a hyfforddiant sy'n helpu i leddfu ar oblygiadau staffio gwaethaf y newid cyfundrefnol.

Drwy gyflawni ei amcanion cynllunio gweithlu, bydd y Cyngor mewn lle gwell i gyflawni ei amcanion ehangach ar gyfer gwasanaethu'r gymuned, a bydd hynny yn ei dro'n hwb i gymdeithas, economi ac amgylchedd y Fro'n gyffredinol.

Bydd strategaethau ar gyfer cadw mwy o staff, ymgysylltu â staff a datblygu staff yn helpu i warchod safon ein darpariaeth. Bydd amcanion yn y cynllun gweithlu ar gyfer helpu staff i weithio'n fwy hyblyg yn cynyddu gallu. Bu'r swp cyntaf o arolygon gwasanaethau o gymorth i sicrhau bod gwasanaethau'n cydweithio i'r eithaf, a staff yn fwy atebol, fel y bo'r gwasanaeth ei hun yn fwy effeithiol. Byddwn yn parhau i helpu rheolwyr i reoli newid ac i bwysu a mesur dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau.

Byddwn yn parhau i wella safon ein gwasanaethau drwy gadw a datblygu staff. Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau'n dal yn hawdd eu defnyddio wrth i ni drefnu gweithlu mwy hyblyg yn ôl amcanion y cynllun gweithlu. Bu'r swp cyntaf o arolygon gwasanaethau o gymorth i sicrhau bod gwasanaethau'n cydweithio i'r eithaf, a staff yn fwy atebol, fel y bo'r gwasanaeth ei hun yn fwy effeithiol.

Cafodd y canlyniadau ad-drefnu a gynigiwyd yn arolygon gwasanaethau'r flwyddyn gyntaf eu hasesu o safbwynt eu heffaith ar gydraddoldeb a bu hyn o gymorth i leddfu diffyg cydraddoldeb yn y gwasanaeth. Hefyd, bydd yr arolwg presennol ar delerau ac amodau'n mynd i'r afael â gweddillion effaith y Cytundeb Statws Sengl.

Gyda golwg ar ddulliau dyfeisgar o weithio, y mae'r Cyngor wedi cael cydnabyddiaeth ranbarthol a chenedlaethol am ei waith cychwynnol ar gyfer cynllunio gweithlu. Pwysleisio cynllunio gweithlu fel rhan o broses cynllunio gwasanaethau a chyllid oedd y prif newid.

Fel rhan o'r gwaith hwn, buom yn cydweithio ag awdurdodau eraill yng Nghymru'n ogystal â Chymdeithas Llywodraeth Leol, Sgiliau er Cyfiawnder a Chyngor Dinas Birmingham. Bu Sgiliau er Cyfiawnder a Chyngor Dinas Birmingham yn adolygu ein trefniadau ar gyfer cynllunio

gweithlu o safbwynt diagnostig ac yr ydym wedi'u datblygu ymhellach yng ngoleuni'r sylwadau. Byddwn bob amser yn ystyried sylwadau ein cwsmeriaid wrth ddatblygu gwasanaethau a bu sylwadau uwch-reolwyr ar y cymorth a gawsant yn ystod 2013/14, ar y cyfan, yn gadarnhaol. Bydd y Cyngor yn cael ei feincnodi'n ôl nifer o fesuriadau adnoddau dynol. Yn ôl y data 2012/13, y mae ei berfformiad o safbwynt rheoli presenoldeb a throsiant staff yn dal i gymharu'n ffafriol â pherfformiad awdurdodau eraill. Roedd y ffigyrau ar gyfer trosiant wedi gwella eto yn ystod 2013/14 gan ostwng o 10.28% yn ystod y flwyddyn flaenorol i 8.64%. Mae lefelau absenoldeb ar draws y Cyngor - sef 8.75 o ddiwrnodau fesul aelod o staff yn ystod 2013/14 - yn dal i fod yn is na'r cymaryddion cenedlaethol.

Ein mesurau cynnydd

Mesurau a thargedau (Prif Gerrig Milltir yng Nghynllun Gweithlu 2013-17)	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Dyddiad cyrraedd y targed 2013/14	Perfformiad 2013/14	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)
Cwblhau'r arolwg ar ymddeol yn gynnar/ gynllun dileu swyddi a'r trefniadau ar gyfer adleoli.			30/09/13	Cyrhaeddwyd		
Cwblhau'r arolwg ar bolisiau gweithio hyblyg er mwyn cefnogi gofynion newidiol gwasanaethau a chanolbwyntio'n fwy ar berfformiad.			31/12/13	Cyrhaeddwyd		
Datblygu fframwaith cysylltiadau staff yn sgîl cwblhau'r rhaglen cydweithio mewn partneriaeth.			31/12/13	Completion pending		
Gweithredu'r camau gweithredu blwyddyn gyntaf yn Strategaeth ddiwygiedig Datblygu a Hyfforddi.			31/03/14	Cyrhaeddwyd		
Cwblhau'r arolwg ar y defnydd o staff asiantaethau.			31/03/14	Cyrhaeddwyd		

4.6. Gwneud cwsmeriaid yn ganolbwynt ein gwasanaeth

Beth ydym am ei gyflawni?

Ymgysylltu'n well â dinasyddion drwy sicrhau bod barn trigolion yn cael ei hystyried wrth ddatblygu a gwella gwasanaethau, a chreu mwy o gyfle a dulliau i drigolion ddylanwadu ar y broses benderfynu.

Sail resymegol yr amcan hwn

Mae dyletswydd ar y cyngor i ymgynghori â dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid lleol eraill ynghylch datblygu a gwella gwasanaethau. Mae agenda *Gwneud y Cysylltiadau* yng Nghymru'n gofyn i ddarparwyr gwasanaethau: rhoi dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau'n gyntaf wrth lunio a darparu gwasanaethau; cynnig gwasanaethau di-dor i ddinasyddion; a chynnig ffordd newydd sbon i ddinasyddion a llywodraeth leol ymwneud a chydweithio â'i gilydd. Mae hon yn un o themâu Cynllun Corfforaethol 2013-17.

Mae ymgysylltu â'r cyhoedd yn un o 'werthoedd craidd' Cynllun Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg. Yn y Cynllun, y mae'r Cyngor yn addo peidio â dod i unrhyw benderfyniadau arwyddocaol heb ymgynghori'n gyntaf â'r dinasyddion, y grwpiau a'r cymunedau sy'n debyg o deimlo effaith y penderfyniad.

Roedd Mesur Llywodraeth Leol 2011, yn cadarnhau'r egwyddor bod angen monitro gwella gwasanaethau erbyn hyn yn ôl nifer o ddangosyddion gan gynnwys barn trigolion. Mae'n hanfodol bwysig felly i ni gasglu sylwadau ystyrlon oddi wrth drigolion.

Ym Mai 2012, cyhoeddwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Ymgysylltu â'r Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol'. Casglodd yr adroddiad, na fydd gweithgareddau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn aml wedi'u cyd-drefnu na'u cyfeirio'n strategol; na fydd y cyhoedd yn cael adborth yn ddigon aml; ac ni wneir digon o waith i fonitro a phwyso a mesur y gweithgaredd o safbwynt effeithiolrwydd. Yn sgîl hwn, y mae disgwyl y bydd llawer iawn mwy o graffu ar dulliau ymgynghori ac ymgysylltu awdurdodau lleol.

O dan y rheoliadau Cymreig yn Neddf Cydraddoldeb 2010, y mae'n rhaid i wasanaethau ymgynghori â'u cwsmeriaid er mwyn cyflawni'r dyletswyddau penodol sy'n gysylltiedig â'r angen am grynhai a chyhoeddi 'gwybodaeth am gydraddoldeb'. Mae dyletswydd gyfreithiol ar gyrff y sector cyhoeddus felly i sicrhau bod casglu data a thystiolaeth am gydraddoldeb yn rhan o'r gwasanaeth y byddant yn ei gynnig. Ymgynghori yw un o'r dulliau penodol y dylid ei ddefnyddio i gasglu'r wybodaeth hon.

Beth ydym wedi'i gyflawni?

Un o amcanion strategol tymor hir y Cyngor yw hwn. **Mae'r amcanion arfaethedig ar gyfer 2013/14 wedi'u cyflawni.** Serch hynny, man cychwyn yn unig yw'r rhain i raglen barhaol o waith ar gyfer gwella ein ffordd o ymgysylltu â dinasyddion y Fro.

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, yr ydym wedi sicrhau bod mwy o gyfle i drigolion gymryd rhan ystyrllon yn y broses benderfynu drwy gynnal dewis eang o brosiectau ymgysylltu cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys ymgynghoriadau ynghylch dyfodol gwasanaeth llyfrgelloedd y Fro ac uno dwy ysgol gyfun. Ymgysylltwyd â mwy na 2000 o drigolion y Fro yn ystod y ddau brosiect hwn yn unig. Mae'r nifer cynyddol o ymatebion i brosiectau corfforaethol yn dangos bod y Cyngor yn rhoi mwy o gyfle i fwy o drigolion gymryd rhan ystyrllon yn y broses benderfynu.

Er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu ar draws y Cyngor yn cael eu cyd-drefnu'n well mewn ffordd fwy strategol, lluniwyd [Fframwaith <http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/achieving_our_vision/consultation/consultation_home_page.aspx>](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/achieving_our_vision/consultation/consultation_home_page.aspx) [Ymgysylltu â'r Cyhoedd](#). Mae'r ddogfen hon yn dadlau'n groym dros gydweithio'n agosach â'r cyhoedd, ac yn dangos i staff ar bob lefel o'r sefydliad sut mae mynd ati ar y cyd i wneud hynny. Mae'r fframwaith a'r cynllun gweithredu'n cynnwys rhaglen o waith ar gyfer y tair blynedd nesaf a fydd nid yn unig yn rhoi cyfle i drigolion ddylanwadu'n fwy ar benderfyniadau ond hefyd yn dwyn y syniad o gydweithio'n agosach â'r cyhoedd i mewn i'r brif ffrwd. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a [Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgysylltu <http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/council/minutes_agendas_and_reports/reports/voluntary_sector_joint_liaison/2013/13-07-10/VoG,-LSB,-Information,-Engagement,-Strategy.aspx>](http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/our_council/council/minutes_agendas_and_reports/reports/voluntary_sector_joint_liaison/2013/13-07-10/VoG,-LSB,-Information,-Engagement,-Strategy.aspx)'r [Bwrdd Gwasanaethau Lleol](#) (a weithredir ar y cyd â phartneriaid), yn dangos mor bwysig yw cyd-drefnu gweithgareddau a dilyn strategaeth wrth ymgysylltu â'r cyhoedd ac yn awgrymu ffordd o ddod i ben â hynny.

Cam allweddol yn y gwaith o ehangu amcanion ymgysylltu cyhoeddus y Cyngor yw datblygu gallu mewnol yr awdurdod i ymgymryd â gwaith felly. Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, cynhaliwyd rhaglen hyfforddi ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn ei helpu i wneud hynny.

Roedd dwy elfen i'r rhaglen hyfforddi sef: hyfforddiant ar gyfer uwch reolwyr er mwyn iddynt ddod i gyd-ddealltwriaeth ynglŷn ag ymarfer da; a hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn iddynt gael dysgu sgiliau angenrheidiol ar gyfer cynnal prosiectau ymgynghori ac ymgysylltu o'r safon orau. Cynhaliwyd y sesiwn hyfforddi gan ddarparu cydnabyddedig iawn ac yr oedd pawb a fanteisiodd arni wrth ei fodd.

Tipyn o sialens i'r Fro yn y dyfodol agos fydd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd ynglŷn â sut i ymgysylltu â'r Cyngor, y penderfyniadau y gall trigolion ddylanwadu arnynt, cwmpas gwaith y Cyngor a'r gwasanaethau y bydd y Cyngor yn eu darparu. Drwy hyrwyddo prosiectau ymgysylltu cyhoeddus amlwg, yr ydym wedi llwyddo'n dda i ddangos sut y gall ymgysylltu â'r Cyngor a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n

effeithio arnynt. Mae'r nifer cynyddol o ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus ac ansawdd y sylwadau hynny'n brawf i ni fod yn llwyddiannus yn y maes hwn. Serch hynny, y mae'n amlwg o ddarllen yr ymatebion hyn a gohebiaeth arall oddi wrth drigolion, fod tipyn o gamddealltwriaeth o hyd ynglŷn ag union gwmpas gwaith y Cyngor a'r hinsawdd a'r cyfyngiadau economaidd presennol sy'n bla ar ein gwaith ar hyn o bryd.

Mae gallu i ddylanwadu ar benderfyniadau lleol yn dod â'r gymuned ynghyd a'i gwneud yn fwy bodlon. Bydd mynd ati'n gyson i wella ein ffordd o ymgysylltu â dinasyddion yn dod â manteision cymdeithasol sylweddol i gymunedau'r Fro yn y tymor hir ac yn helpu'r Cyngor i gyrraedd ei nod o wella cymdeithas ac amgylchedd ei drigolion.

Yn ystod y deuddeng mis diwethaf, yr ydym wedi'i gwneud yn llawer haws i bobl gymryd rhan mewn ymgynghoriadau cyhoeddus. Caiff trigolion ymateb i bob ymarfer ymgysylltu cyhoeddus o dan reolaeth y tîm polisi corfforaethol erbyn hyn drwy lythyr; neges e-bost; alw heibio i ddigwyddiadau cyhoeddus; fynd i wefan y Cyngor a thrwy ffonio canolfan gyswllt UnFro. Mae'n hawdd iawn cymryd rhan yn ein holl brosiectau ymgynghori, felly. Mae'r Cyngor yn gofalu y bydd pob rhanddeiliad perthnasol yn cael digon o wybodaeth am ei ymgynghoriadau cyhoeddus. Bydd yn gwneud cymaint o ddefnydd ag sy'n bosibl o lenyddiaeth argraffedig, gwefan y Cyngor a'r orsaf radio a'r wasg leol i'r diben hwnnw. Hyrwyddo ymgynghoriadau cyhoeddus a hwyluso'r defnydd ohonynt yw rhai o'r themâu pwysicaf yn Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyngor Bro Morgannwg, sy'n dangos ein bod o ddifrif calon ynglŷn â pharhau i hwyluso'r defnydd o'r gwasanaeth hwn. Gwelsom llawer mwy o bobl yn ymateb i ymgynghoriadau cyhoeddus yn sgîl hyn. Bydd y wybodaeth fonitro a gesglir yn ystod ymarferion o'r fath yn cael ei defnyddio er mwyn asesu gallu ymgynghoriadau cyhoeddus i ddenu pob math o gyfranogwyr.

Mae llawer mwy o ymatebion yn dod i law erbyn hyn sy'n golygu bod gennym dystiolaeth fwy cadarn i seilio penderfyniadau arni. Drwy ddefnyddio dulliau electronig o gyfathrebu, gallwn gyrraedd a chasglu sylwadau mwy o randdeiliaid o lawer heb wario fawr ddim, sy'n golygu bod y gwasanaeth yn fwy effeithlon erbyn hyn.

Mae Fframwaith Ymgysylltu â'r Cyhoedd Cyngor Bro Morgannwg a Strategaeth Gwybodaeth ac Ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (a weithredir ar y cyd â phartneriaid) ill dau'n gosod safon uchel ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion a seiliwyd ar yr ymarfer gorau. Mae'r ddwy ddogfen wedi'u cymeradwy gan y Cyngor ac yr ydym wedi mabwysiadu'r dulliau o ymgysylltu y maent yn eu hargymell. Bu'r rhaglen hyfforddi a gynigiwyd i bob un yn y maes o fewn y Cyngor Council o gymorth i gryfhau ymarfer da yn y sefydliad.

Bydd y Cyngor yn darparu panel dinasyddion, sef Barn y Fro, ar ran Bwrdd Gwasanaethau Lleol y Fro. Bydd 1,100 o drigolion y Fro'n cymryd rhan yn y panel hwn. Drwy'r panel, daw'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i wybod barn trigolion y Fro am faterion penodol. Byddwn yn defnyddio barn y panel i bennu blaenoriaethau cyrff cyhoeddus yn Fro ac i benderfynu sut y dylid darparu gwasanaethau. Mae'r panel yn gynrychioliadol o safbwynt oedan a rhaniadau demograffig y Fro. Bydd yr aelodau'n cael pedwar arolwg byr i'w llenwi bob blwyddyn. Bydd yr

arolygon hyn yn ymdrin â materion sy'n amrywio o ddiogelwch cymunedol a materion iechyd i'r parciau a'r arfordir a chasglu ysbwriel. Bydd y barnau a gawn oddi wrth drigolion yn yr arolygon hyn wedyn yn sail i ddulliau gweithredu cyrff cyhoeddus y Fro yn y dyfodol.

Astudiaeth Achos - Ysgol Gydaddysgol yn Y Barri

Yn ystod Medi a Hydref 2013, bu'r Cyngor yn cynnal ymgynghoriad ynghylch y posibilrwydd o uno Ysgol Gyfun Y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren er mwyn creu ysgol gymysg uwchradd ar gyfer Y Barri. Bu'r ymgynghori'n canolbwyntio ar egwyddor addysg gydaddysgol a denodd lawer iawn o ymatebion.

Cefndir

Bydd addysg uwchradd yn Y Barri (ac eithrio addysg mewn ysgolion ffydd) yn cael ei darparu mewn ysgolion un rhyw gydag Ysgol Gyfun Y Barri ar gyfer y bechgyn ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren ar gyfer y merched. Bydd y ddwy ysgol yn rhannu chweched dosbarth cymysg.

Mae adborth oddi wrth rieni i Dîm Derbyniadau'r Cyngor a'r sylwadau a gawsom oddi staff ysgolion yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn awgrymu bod llawer o rieni'n anfodlon i'w plant gael eu haddysg mewn ysgolion un rhyw erbyn hyn. Fel y byddai modd i ni wybod faint o rieni'r Barri a deimlai felly, gofynnwyd i'r gymuned fynegi barn am y syniad o greu ysgol uwchradd gydaddysgol ar gyfer Y Barri drwy ddatblygu cynigion gyda chyrrff llywodraethu'r ddwy ysgol.

Yr ymarfer

Roedd yr ymgynghori ynghylch yr egwyddor o addysgu plant Y Barri mewn ysgol gydaddysgol yn gynhwysfawr iawn. Roedd holl drigolion y Fro a phawb a gymerai ddiddordeb yn y mater yn cael mynegi barn. Serch hynny, cynhaliwyd nifer o ymarferion ar wahân er mwyn targedu prif randdeiliaid, rheini, plant a phobl ifanc a staff a llywodraethwyr ysgolion. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad am wyth wythnos o 9 Medi 2013 hyd 25 Hydref 2013. Ymgynghorwyd â rhieni, staff a llywodraethwyr ysgolion a thrigolion lleol yn bennaf drwy ddefnyddio dogfen ymgynghori a ffurflen ymateb.

Mae dogfen ymgynghori'n gwbl hanfodol i'r broses ymgynghori y mae Llywodraeth Cymru'n ei hargymell ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Er nad oedd yr ymgynghoriad hwn yn un statudol, dilynwyd yr un broses er mwyn cael sicrhau bod ein holl ymgynghori corfforaethol ynghylch ad-drefnu ysgolion yn gyson. Roedd y ddogfen yn cynnwys ffurflen ymateb a ofynnai ddau gwestiwn allweddol i rieni.

Dosbarthwyd y ddogfen i holl rieni a gofalcwyr disgyblion Ysgol Gyfun Y Barri, Ysgol Gyfun Bryn Hafren a phob un o'r ysgolion bwydo yng nghlwrstwr Y Barri. Dosbarthwyd copïau hefyd i holl staff y ddwy ysgol gyfun. Roedd modd anfon y ffurflenni ymateb yn ôl yn rhad ac am ddim i gyfeiriad rhadbost. Roedd yr holl wybodaeth yn y ffurflen hefyd ar gael ar-lein ar nifer o dudalennau pwrpasol ar wefan y Cyngor. Roedd y ffurflen ymateb ar gael ar-lein ac yr oedd cyfle hefyd i rieni ymateb dros y ffôn drwy gysylltu â chanolfan gyswilt UnFro.

Er mwyn i rieni gael cyfle i ofyn cwestiynau am y cynnig, y broses ymgynghori ac unrhyw newid a allai effeithio arnynt, cafodd sesiynau 'galw i mewn' eu cynnal yn y ddwy ysgol gyfun. Bu nifer o uwch swyddogion y Cyngor a'r Aelod o'r Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Plant yn mynychu'r sesiynau agored hyn.

Mae llais y disgyblion yn hollbwysig mewn unrhyw broses o ad-drefnu ysgol. Gan hynny, datblygwyd ymarferion yn unswydd er mwyn denu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Gwahoddwyd holl ddisgyblion Ysgol Gyfun Y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren i lenwi arolwg ar-lein ynglŷn â'r egwyddor o addysgu plant mewn ysgolion cydaddysgol. Roedd y cwestiynau yn yr arolwg hwn yr un fath yn union â'r rhai a ofynnwyd i randdeiliaid eraill ond wedi'u geirio ar gyfer cynulleidfa ifanc.

Er mwyn ymgysylltu â phlant ysgolion cynradd Y Barri, dyfeisiwyd a chynhaliwyd sesiynau pwrpasol gan gydweithredfa hyfforddi a menter gymdeithasol Dynamix, sy'n arbenigo mewn darparu sesiynau ymgysylltu ar gyfer plant. Cafodd rhai disgyblion o ysgolion yng nghlwstwr Y Barri eu gwahodd i ddwy sesiwn arbennig a gofynnwyd iddynt ateb pob un o'r prif gwestiynau yn yr arolwg ar gyfer plant a phobl ifanc.

Buom hefyd yn cysylltu â nifer o randdeiliaid eraill, gan gynnwys llywodraethwyr ysgolion, aelodau etholedig o Gyngor Bro Morgannwg a phob math o grwpiau cymunedol a chydaddoldeb sy'n gweithredu yn y Fro, er mwyn tynnu eu sylw at y broses ymgynghori a'r trefniadau ar gyfer ymateb.

Cafodd yr ymgynghori ynghylch addysg gydaddysgol ar gyfer Y Barri ei hysbysebu'n helaeth ar-lein (ar wefan y Cyngor) ac ar sianeli'r cyfryngau cymdeithasol, a chafodd gryn dipyn o sylw hefyd yn y wasg leol.

Y canlyniad

Bu bron i 900 o rieni, disgyblion a phrif randdeiliaid eraill yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori. Dangosodd y canlyniadau fod rhieni a disgyblion fel ei gilydd yn gryf o blaid y newid i addysg gydaddysgol. Cyflwynwyd adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghori i Gabinet y Cyngor yn Rhagfyr 2013. Yn sgîl hynny, sefydlwyd bwrdd prosiect, er mwyn pwysu a mesur ymarferoldeb datblygu ysgol gydaddysgol yn y dref.

Ein mesur cynnydd

Mesurau a thargedau	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Targed 2013/14	Perfformiad 2013/14	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)
Canran y trigolion sy'n teimlo y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu cymuned.	58%	58% (Arolwg Barn Cyhoeddus Eilflwydd)		Cynhelir POS yn ystod 2014		
Canran y dinasyddion sy'n falch eu bod yn byw yn y Fro.	97%	97% (Arolwg Barn Cyhoeddus Eilflwydd)		Cynhelir POS yn ystod 2014		

4.7. Gwarchod a chynnal a chadw'r amgylchedd

Beth ydym am ei gyflawni?

Mynd i'r afael ag effaith newid hinsawdd gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli'r perygl o lifogydd lleol a pheryglon arfordirol.

Sail resymegol yr amcan hwn

Mae methu ag addasu i effaith newid hinsawdd, a methu â lliniaru newid hinsawdd yn y Fro'n risg gorfforaethol a nodwyd yn risg â gradd flaenoriaeth gymedrol yn perthyn iddi.

Cynghorau a chymunedau fydd yn rhaid wynebu her newid hinsawdd yn gyntaf am eu bod yn gyfrifol am ddod i bob math o benderfyniadau a fydd yn hanfodol bwysig i ni i gyd. Bydd llawer o effeithiau anffafriol newid hinsawdd, fel llifogydd, yn draul ar fusnesau a deiliaid tai, a bydd yn rhaid darparu'n lleol ar gyfer datrys y problemau sy'n codi yn eu sgîl.

Mae llawer i'w ennill yn lleol wrth gydweithio'n ymarferol â phrif bartneriaid a rhanddeiliaid i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Byddai'n haws felly gwrthsefyll peryglon newid hinsawdd, a byddai hynny yn ei dro'n arwain at lai o gostau trwsio adeiladau, y rhwydwaith mewnol a gwasanaethau yn sgîl llifogydd, gwell mannau gwyrdd a gwell iechyd.

Yn 2006, llofnododd y Cyngor ddogfen 'Ymrwymiad Cymru ynghylch Newid yn yr Hinsawdd' fel awdurdod cyfrifol. Mae'r ddogfen ymrwymo'n egluro sut y byddwn yn cyfrannu i'r rhaglen newid hinsawdd genedlaethol drwy gydweithio â'r gymuned leol i liniaru achosion ac effeithiau'r newid hwnnw. Bydd yn rhaid i ni leihau ein hallyriadau ein hunain ac annog pob rhan o'r gymuned leol i wneud yr un fath, cydweithio â phrif ddarparwyr er mwyn ymaddasu i newidiadau a darparu ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn yr ardal.

Fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol o dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009 a Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, y mae'r Cyngor yn gyfrifol am reoli a hysbysebu'r perygl o lifogydd sy'n codi'n lleol, yn enwedig llifogydd sy'n ymwneud â dŵr ffo, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin. Mae hefyd yn gyfrifol am sicrhau y cynhelir Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol ac y cymeradwyir systemau draenio cynaliadwy.

Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd sicrhau bod yr holl gamau priodol wedi'u cymryd ar gyfer atal llifogydd sy'n codi oherwydd dyodiad, fflachlif a llif dŵr yr arfordir neu afonydd fel na fo'r ardal mewn cymaint o berygl.

Beth ydym wedi'i gyflawni?

Mae nifer o gamau wedi'u cymryd er mwyn lleihau'r perygl o lifogydd yn y Fro yn y tymor hir. Cafodd ein Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ei gymeradwyo gan weinidogion y llywodraeth ar ddechrau 2014/15. Wrth gydweithio â phrif randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, byddwn yn defnyddio ein Cynllun Llifogydd, y [Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd](#) a'r Cynllun Rheoli Ymyl Traeth i ddod o hyd i'r manau lle y mae perygl penodol a gweithredu'n effeithiol er mwyn atal lifogydd. Yn y modd yma, cawn sicrhau na fydd datblygiadau presennol na rhai'r dyfodol mewn mwy o berygl oddi wrth lifogydd ac erydu arfordirol.

Mae ein gwefan erbyn hyn, yn dangos y wybodaeth ddiweddaraf am faterion llifogydd a'r arfordir gan gynnwys manylion am reoli cyrsiau dŵr. Mae dulliau o ymdrin â llifogydd a draenio wedi'u cyd-drefnu ar draws y Cyngor erbyn hyn, a byddwn bob amser yn ymchwilio i achosion o lifogydd. Mae gennym feddalwedd newydd ar gyfer rheoli'r broses o grynhoi, prosesu a dadansoddi data am achosion o lifogydd ac asedau atal llifogydd. Yn y modd yma, gallwn wneud defnydd mwy effeithiol o setiau data hanesyddol wrth fynegi barn ar ddatblygiadau newydd a rheoli cyrsiau dŵr.

Gweithiwyd yn galed i ddod o hyd i ffordd fwy cyson o fabwysiadu cynlluniau draenio cynaliadwy drwy ddefnyddio meddalwedd newydd i reoli ymchwiliadau, gosod rheoliadau ar gyfer cyrsiau dŵr cyffredin a chadw cofrestr lifogydd

Rydym wedi llwyddo i wella ansawdd y gwasanaeth drwy weithredu dulliau newydd o ymchwilio i lifogydd, adrodd arno a'i gofnodi. Bu hyn, yn ei dro, o gymorth i ni ddeall y perygl o lifogydd mewn manau allweddol ar draws y Fro. Rydym hefyd wedi mabwysiadu'r ymarfer gorau yn ôl Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru, fel y bo'n briodol. Byddwn hefyd yn dilyn yr ymarfer gorau drwy gydgyssylltu ag Awdurdodau Rheoli Perygl eraill drwy Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De-ddwyrain Cymru, a bydd hyn yn sicrhau gweithredu mwy cyson ar lefel ranbarthol.

Rydym hefyd wedi gwneud gwaith lliniaru llifogydd mewn nifer o fannau allweddol a fu o gymorth i leihau'r perygl o lifogydd a'r draul gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gysylltiedig. Mae'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd a'r Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol wedi rhoi darlun eglur o'r ardaloedd lle y mae'r perygl i drigolion a chymunedau ar ei waethaf fel y bo cyfle iddynt baratoi.

Mae canlyniadau'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd, yr Asesiad Perygl Llifogydd Rhagarweiniol a'r Cynllun Rheoli Ymyl y Traeth o gymorth i sicrhau datblygiad cynaliadwy sy'n un o brif flaenoriaethau'r Cyngor. Byddwn yn ystyried y dogfennau hyn wrth wneud sylwadau ar geisiadau cynllunio'n unol â'r strategaeth genedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol, ac y maent yn sail i'r broses Cynllunio Datblygiad Lleol.

Ni chofnodwyd unrhyw lifogydd sylweddol yn ymwneud ag afonydd yn y Fro yn ystod 2013/14. Roedd dau achos o lifogydd arfordirol yn Ionawr a Chwefror 2014, a chafodd gwaith trwsio ei wneud mewn amryw o fannau gan gynnwys Bae Whitmore a Harbour Road yn Y Barri. Gwnaethpwyd gwaith lliniaru llifogydd yn Llancadle er mwyn gwarchod nifer o adeiladau a fu'n dioddef yn sgîl llifogydd yn ystod y blynnyddoedd diwethaf. Trefnwyd gyda pherchennog tir lleol i ailgyfeirio'r llif oddi wrth y gymuned leol drwy ddarparu dyfrffos newydd, a bu llai o alw arnom yn ystod glaw trwm, o ganlyniad. Aildrefnwyd Cynllun Lliniaru Llifogydd Dalgylch Coldbrook yn sylweddol, a bydd bellach yn cael ei weithredu ym mis Hydref 2014. Bu'n rhaid cydgysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru ac Adnoddau Naturiol Cymru yn ystod 2013/14 er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy.

Er na lwyddwyd i sicrhau'r canlyniadau arfaethedig mewn perthynas â'r amcan hwn yn ystod 2013/14, blaenoriaeth i'r Cyngor yn y tymor hir yw hwn, a byddwn yn parhau i weithio er mwyn sicrhau bod y perygl lleol o lifogydd yn cael ei reoli'n effeithiol.

Ein mesur cynnydd

Mesurau a thargedau (Prif Gerrig Milltir)	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Dyddiad cyrraedd y targed 2013/14	Perfformiad 2013/14	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru)
	31/03/12					
Cwblhau'r Strategaeth Leol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd		31/03/14				
Cydsynio â gofynion Asiantaeth yr Amgylchedd ynglŷn â chyrsiau dŵr cyffredin			31/3/14	Cwblhawyd		
Cwblhau'r cofnod a'r gofrestr asedau			31/3/14	Cwblhawyd ac y mae'r gwaith yn parhau		
Dechrau cofnodi achosion o lifogydd			31/3/14	Cwblhawyd		
Prosiect rheoli llifogydd Coldbrook			31/3/14	Bydd yn dechrau ym mis Hydref 2014 am y bu'n rhaid ei aildrefnu.		
Prosiect rheoli llifogydd Llanmaes				Rydym wrthi'n ei aildrefnu ac yn cydgysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru ac Adnoddau Cenedlaethol Cymru er mwyn sicrhau bod y cynllun yn gynaliadwy		

4.8. Gwella sgiliau, gwybodaeth a chyfleoedd

Beth ydym am ei gyflawni?

Gostwng nifer y bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.

Sail resymegol yr amcan hwn

Mae gostwng nifer y bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant yn brif flaenoriaeth genedlaethol a gwelir y strategaeth ar ei chyfer yng Nghynllun Gweithredu Ymgysylltiad A Chyflogaeth Pobl Ifanc 2011-2015 Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ynghylch Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar hyn o bryd, er mwyn rhoi cymorth penodol i bobl ifanc sydd un ai mewn perygl o gael eu dosbarthu fel 'rhaid nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant', ynteu eisoes yn rhan o'r garfan honno. Rhagwelir y bydd yn rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru weithredu'r fframwaith hwn o Fedi 2013 ymlaen.

Byddwn yn cydweithio â nifer o wahanol asiantaethau, gan gynnwys ysgolion, colegau, prifysgolion a'r Ganolfan Byd Gwaith er mwyn gostwng nifer y plant yn y categori hwn. Bydd y Cyngor hefyd yn cydweithio'n agos â Gyrfa Cymru sy'n darparu gwasanaethau mewn ysgolion ar gyfer pobl ifanc mewn angen yn ogystal â gwefan a llinell ffôn. Bydd ein gallu i ostwng y nifer yn y categori hwn yn dibynnu i raddau ar y nawdd a gawn oddi wrth asiantaethau amrywiol. Bydd ffactorau cenedlaethol a rhyngwladol fel yr argyfwng ariannol presennol hefyd yn effeithio ar nifer y rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant.

Bu nifer y rhai rhwng 16 a 18 oed yn y categori hwn yn gostwng o flwyddyn i flwyddyn yn lleol ac yn genedlaethol. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu'n gryf â'r nifer cyfatebol rhwng 19 a 24 oed sy'n dal i gynyddu. Gan hynny, y mae'n hanfodol bwysig sicrhau bod gan y rhai sydd ar fin pontio rhwng addysg amser llawn a gwaith, well hyfforddiant a chyfle am swydd fel na fo cynnydd eto yn y nifer dros 18 oed sy'n llithro i'r categori hwn.

Mae'n hanfodol i ni ddod i adnabod y plant sydd mewn perygl o lithro i gategori 'rhaid nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant', er mwyn i ni gael ymyrryd â'r sefyllfa yn y ffordd fwyaf addas. Mae'r gweithredu ataliol yma wedi dwyn ffrwyth yn arbennig o safbwynt nifer y plant sy'n troseddu a'r nifer y rhai yn eu harddegau sy'n beichiogi. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn ymchwilio i ffyrdd o wella sgiliau sylfaenol pobl ifanc yn yr ysgol, ac o ddefnyddio nawdd ar gyfer plant rhwng 14 a 19 oed ar gyfer gostwng nifer y bobl ifanc yn y categori dan sylw. Sylwer nad yw nifer y plant yn y categori hwn yn debyg o ostwng dros nos am i ni ymyrryd â'r sefyllfa'n gynnar. Un o

nodau tymor hir y Cyngor a'i bartneriaid yn hytrach yw gostwng nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ac yn llithro i gategori 'rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant'.

Beth ydym wedi'i gyflawni?

Un o flaenoriaethau tymor hir y Cyngor yw gostwng nifer y bobl ifanc yn y Fro 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant'. Fel rhan o Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, y mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gwtogi'n gyson ar y nifer hwnnw drwy ymgysylltu'n ymarferol â phobl ifanc.

Mae'r canlyniadau mewn perthynas â'r amcan hwn wedi'u cyflawni'n rhannol oherwydd er i beth cynnydd gael ei wneud yn ystod 2013/14, ni lwyddwyd i gyrraedd yr holl dargedau perfformio ar gyfer gostwng nifer y bobl ifanc yn y categori dan sylw. Serch hynny, y mae'n bwysig sylwi na fydd ymyrryd â'r sefyllfa'n gynnar o angenrheidrwydd yn dod â gostyngiad dros nos yn y nifer yn y categori hwn. Er i ni gyflwyno amryw o brosiectau a chynlluniau newydd yn ystod y flwyddyn, man cychwyn yn unig fydd y rhain i raglen waith barhaol ar gyfer gostwng nifer plant y Fro'n gyffredin yng nghategori 'rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant', yn y tymor hir. Bydd gostwng nifer y bobl ifanc yn y categori hwn yn Amcan Gwella eto i'r Cyngor yn ystod 2014/15.

Rydym yn gwneud cynnydd ar y cyfan yn ôl y prif dargedau a osodwyd er mwyn gostwng nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym mlynnyddoedd 11, 12 ac 13 ac yn deilwng yn bendant o'u dosbarthu fel 'rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant'. Yn ystod 2013/14, 3.8% o'r plant a adawodd yr ysgol ym mlwyddyn 11 a oedd wedi llithro i'r categori hwn, a'r targed oedd 3.25%. Er na lwyddwyd i gyrraedd y targed, yr oeddem wedi rhagori ar y 3.9% a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. 2% oedd y ffigwr ar gyfer rhai a adawodd yr ysgol ym mlwyddyn 12, sef yr un fath yn union â'r flwyddyn flaenorol, ac 1.95% oedd y targed. Roedd y 4.8% a gofnodwyd ar gyfer plant a adawodd ym mlwyddyn 13 yn fwy na'r targed o 3.9% ac yn fwy na'r ganran gyfatebol y llynedd (4.4%). Er gwaethaf y cynnydd sydd wedi'i wneud yn gyffredinol o safbwynt lleihau'r categori hwn, y mae hanes rhai yn y dosbarth hwn a fu dan ofal yr awdurdod yn y gorffennol, yn bur wahanol. Yn ôl y set ddata genedlaethol, yr oedd canran y bobl ifanc a fu gynt yng ngofal yr awdurdod ac a oedd yn 19 oed 'mewn gwaith, neu addysg neu'n dilyn hyfforddiant' wedi gostwng o 55.6% yn 2012/13 i 44.4% yn 2013/14. Am mai gweddol fach fel arfer yw carfan y bobl ifanc a fu yng ngofal yr awdurdod, gallai hepgor un neu ddau o'r diffiniad - rhywun sy'n anabl, yn feichiog neu yn y carchar er enghraifft - wneud byd o wahaniaeth i'r perfformiad. Yn ôl perfformiad y dangosydd hwn, bydd angen ymgysylltu'n amlach â phlant a fu yng ngofal yr awdurdod er mwyn cael lleihau nifer y rhai nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant. Mae hyn yn un o flaenoriaethau'r Cyngor. Bydd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru a gytunwyd yn ddiweddar o gymorth i ni rannu gwybodaeth am bobl ifanc nad ydynt mewn addysg na gwaith nac yn dilyn hyfforddiant ac olrhain a deall ein perfformiad yn y maes hwn yn well.

Ar y cyfan, byddwn yn dod i wybod yn gynnar am y bobl ifanc sydd mewn perygl o lithro i'r categori hwn, ac yn eu cynorthwyo yn ystod cyfnodau pontio - ar ôl iddynt gyrraedd eu 16 oed, er enghraifft. Gyda chymorth Gyrfa Cymru, darparwyr hyfforddiant, Addysg Gymunedol i

Oedolion ac adnoddau Coleg Caerdydd a'r Fro, yr ydym wedi datblygu system ar gyfer adnabod plant mewn perygl yn gynt. Rhoddwyd hon ar brawf mewn dwy ysgol, er mwyn i ni gael darparu'n well ar gyfer anghenion ein pobl ifanc a'i gwneud yn haws iddynt ymdopi â'r cyfnod o bontio ar ôl eu 16 oed. Bydd y model hwn yn cael ei weithredu ym mhob ysgol o Fedi 2014 ymlaen.

Mae peth tystiolaeth bod y bobl ifanc a fu'n manteisio ar gyfle i weithio neu gael addysg neu hyfforddiant, ar eu hennill yn gyffredinol, ac efallai'n fwy cyffyrddus ac yn iachach. Mae'n bosibl hefyd fod ganddynt well perthynas â'u teulu a bod gan y rhai mewn swyddi beth incwm i'w gyfrannu i'r cartref. Mae astudiaethau achos, fel y rhai isod, yn dangos bod ymwneud mewn ffordd bositif â gwaith, addysg, hyfforddiant, gwaith gwirfoddol neu leoliadau wedi rhoi hwb i hunanhyder a hunan-barch y bobl ifanc dan sylw. Ymddengys hefyd eu bod yn cyd-dynnu'n well â'r gymdeithas a'r gymuned yn enwedig yn sgîl gwirfoddoli. Yn ystod 2013/14, trefnwyd swyddi drwy Gynllun Gwaith y Cyngor ar gyfer 29 o bobl ifanc a oedd wedi'u dosbarthu fel 'rhai nad ydynt mewn gwaith, nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' ac a fu'n mynychu canolfannau gwaith Y Barri a Phenarth. Bu'r cwsmeriaid hyn ar y rhaglen ers o leiaf drwy flynedd.

Bydd datblygiadau adfywio a chyfalaf yn y Fro wedi sicrhau bod cyfle am brentisiaeth neu hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc yn y categori hwn yn cael ei osod yng nghymalau cymdeithasol contractwyr. Yn achos y datblygiad ar hen safle llys ynadon Y Barri, er enghraifft, y mae ein partner, Cymdeithas Tai Newydd wedi'i gwneud yn orfodol i'r contractwr (Jehu) greu swyddi penodol, fel rhan o'i contract, yn unol ag amcanion cynllun 'recriwtio a hyfforddiant a dargedwyd' y Gymdeithas. Byddai'r swyddi hyn hefyd yn cynnwys 'cyd-drefnydd recriwtio a hyfforddiant a dargedwyd' er mwyn rheoli'r prentisiaethau a fyddai'n cael eu creu. Cynigiwyd 4 prentisiaeth hefyd ar hen safle llys ynadon Y Barri. Mae Cymdeithas Tai Newydd a'i chontractwr Jehu hefyd wedi gwneud ymdrech arbennig i gwrdd ag ysgolion a cholegau lleol er mwyn sicrhau eu bod yn rhan o'r gwaith ar gyfer datblygu'r cynllun.

Rydym yn dal i wella ansawdd y gwasanaeth ar gyfer ein cwsmeriaid drwy Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru, a fu'n hwyluso'r llif gwybodaeth rhwng partneriaid. Ers gweithredu [Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid](https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Committee%20Reports/Cabinet/2014/14-02-24/Youth-Engagement-and-Progression-Framework-Appendix-2--.pdf) <<https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Committee%20Reports/Cabinet/2014/14-02-24/Youth-Engagement-and-Progression-Framework-Appendix-2--.pdf>> Llywodraeth Cymru, y mae gwasanaethau cymorth ieuentid, darparwyr hyfforddiant a cholegau'n cydweithio'n agosach mewn ffordd fwy creadigol nag o'r blaen.

Mae'n haws manteisio ar y gwasanaeth erbyn hyn, am fod y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid wedi cael ei ymestyn i holl ysgolion y Fro a darparwyr addysg a hyfforddiant amgen. Daeth darparwyr gwaith, addysg a hyfforddiant a darpar weithwyr arweiniol i ddau ddigwyddiad er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Fframwaith a dangos sut y mae'r system 'adnabod cynnar' yn gweithio. Mae llawer o bartneriaid a gwasanaethau'n gwneud gwaith ymarferol i helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcan o ostwng nifer y bobl ifanc 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant'. Gall ysgolion gael gwybodaeth am y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid ar-lein a thrwy holi swyddog arbennig.

Cynhaliwyd ymarfer mapio cynhwysfawr yn y Fro er mwyn cofnodi'r ddarpariaeth sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc sydd eisoes yn y categori hwn (haen 1) a'r rhai sydd mewn perygl o lithro iddo (haen 3). Tynnodd yr ymarfer sylw at y bylchau yn y ddarpariaeth, a bu'n sylfaen ar gyfer datblygu a chyflwyno Arweiniad/Cyfarwyddiadur Ymgysylltu ag Ieuenctid a fu o gymorth i ni dargedu anghenion pobl ifanc yn fwy effeithiol. Mae'r cyfarwyddiadur ar gael ar dudalen ar y we ac ar Borth Dysgu'r Fro i ysgolion ei ddefnyddio. Seiliwyd y gwaith hwn ar ymarfer da hysbys mewn awdurdodau lleol eraill. Mae rhagor o waith mapio eang yn cael ei wneud, gan gynnwys cofnod o'r ddarpariaeth ar gyfer haen 5 er mwy paratoi ar gyfer y Warant Ieuenctid a'r Prosbectws Ardal Gyffredin.

Mae'r grŵp strategol ar gyfer plant y categori hwn (sef Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid) yn parhau i weithio'n galetach â phartneriaid er mwyn sicrhau bod bylchau yn ddarpariaeth yn cael eu llenwi a bod gweithwyr arweiniol yn ymwybodol o'r gwasanaethau a grëwyd i'r diben hwnnw. Er enghraifft, bydd rhaglen Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth y Tywysog yn cael ei chyflwyno ym Medi 2011, ar y cyd â Gwasanaethau Ieuenctid a darparwr hyfforddiant lleol (The People Business - Wales). Bydd gan y rhaglen oriau cychwyn hyblyg a gytunwyd yn unswydd â Choleg Caerdydd a'r Fro er mwyn i fyfyrwyr gael manteisio arni ar ôl gadael y coleg. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal cyrsiau blasu undydd drwy gynllun Sbringwrdd ar y cyd ag Addysg Gymunedol i Oedolion, Gyrfa Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro. Bydd y gwasanaethau hyn ar gael ar hyd yr ardal drwy rwydweithiau partneriaid.

Caiff holl bobl ifanc y Fro fanteisio ar wasanaethau ar gyfer cynorthwyo a gwarchod plant sydd un ai wedi'u dosbarthu ynteu mewn perygl o'u dosbarthu i'r categori hwn, ac y mae pob gwasanaeth wedi cael ei asesu am ei effaith ar gydraddoldeb.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y categori hwn yn dod yn fwy effeithiol ar hyd yr amser, ar ôl i Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau, darparwyr lleol a Gyrfa Cymru gytuno i rannu gwybodaeth o dan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru fel y bo ein ffordd o olrhain dysgwyr dros 16 yn fwy effeithiol a manwl gywir. Bu'r grŵp strategol ar gyfer y categori hwn yn cyd-drefnu ei waith monitro perfformiad ac yn diweddar strategaethau a oedd wedi'u seilio ar arolwg cyffredinol o'r ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' a chynnydd y plant hynny. Penodwyd Swyddog Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid sy'n helpu ysgolion a darparwyr hyfforddiant ddod i wybod yn gynnar am y plant sydd mewn perygl ac olrhain eu cynnydd, ac a fu hefyd yn cyd-drefnu'r ddarpariaeth ar gyfer rhai ysgolion.

Gan gydweithio â phartneriaid statudol a sefydliadau eraill yn y sector gwirfoddol, llwyddwyd i gyflwyno ambell i ddull arloesol o weithio, fel y gwasanaeth sesiynau cynghori teithiol a ddarparwyd yn unswydd ar gyfer pobl ifanc 'nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant' yn ystod 2013. Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar ardaloedd gwledig lle y mae'n anodd i bobl ifanc gael cyngor gyrfa a gwybodaeth am golegau lleol. Bydd y gwasanaeth yn mynd i ganol gwahanol ardaloedd y Fro gan ddosbarthu taflenni ar gyfer rhai rhwng 16 a 25 oed yn y categori hwn a chodi ymwybyddiaeth o'r sesiynau. Bydd y prosiect hwn dan nawdd y Ganolfan Byd Gwaith yn parhau yn ystod 2014/15 os bydd yn llwyddiannus eleni.

Bydd y Cyngor yn parhau i gadw golwg ar yr ymarfer da mewn awdurdodau lleol eraill, a bu'n cydweithio â phartneriaid lleol er mwyn cael darparu Rhaglen Gwirfoddolwyr Ymddiriedolaeth y Tywysog wedi'i seilio ar gynlluniau llwyddiannus yn Sir Benfro a Llanelli. Gobeithiwn roi'r rhaglen hon ar waith yn y Fro erbyn Medi 2014. Rydym wedi llunio cyfarwyddiadur gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant sydd wedi'i seilio ar ymarfer da. Byddwn yn sicrhau ymarfer da ar lefel ranbarthol drwy'r Gweithgor Gwarant Ieuenctid rhanbarthol sy'n cael ei fynychu gan Gyd-drefnydd a Swyddog y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

Bydd y gwasanaeth yn cael ei feincnodi yn ôl gwasanaethau awdurdodau eraill Cymru. Dengys yr ystadegau blynyddol ar gyfer pobl ifanc yn y categori hwn, fod Bro Morgannwg wedi llwyddo i leihau ei chanran o bobl ifanc felly'n gyson ystod y 5 mlynedd ddiwethaf. Yn ystod 2012/13, llwyddodd Merthyr a Sir Fynwy i ostwng eu canrannau'n sylweddol gyda'r naill yn ei gostwng o 6.2% (2011/12) i 1.9% (2012/13) a'r llall o 3.8% (2011/12) i 2.8% (2012/13). Byddwn yn cyfarfod â'r cynghorau hyn er mwyn cael deall sut yn union y cawsant y fath lwyddiant ac yn ymchwilio i fodolau ymgysylltu â phobl ifanc a fyddai'n addas ar gyfer y Fro.

Bu Cyngor y Fro'n cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau cydweithredol gwerth eu nodi, yn ystod y 12 mis diwethaf. Rydym wedi defnyddio grantiau Cymorth Refeniw Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru'n rheolaidd, er enghraifft, i gefnogi gwaith ieuenctid mewn 5 ysgol uwchradd. Bu gweithwyr ieuenctid yn ysgogi pobl ifanc drwy wella agwedd ac ymddygiad. Rydym hefyd wedi trefnu cyrsiau cynalwedigaethol ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 10, ar y cyd â Choleg Caerdydd a'r Fro, gan ddefnyddio nawdd 14-19. O dan y drefn hon, bu pobl ifanc yn dilyn cyrsiau blasu mewn trwsio ceir, adeiladu, lletygarwch a chymorth cynnal a chadw awyrennau. Drwy gynnig dyddiadau cychwyn hyblyg er mwyn cael cynnal y cyrsiau'n gynt, llwyddwyd i ddenu mwy o bobl ifanc yn y categori dan sylw i gofrestru ar gyfer cyrsiau. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith ar y cyd â Gyrfa Cymru, *Vibe Experience*, a'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi darparu sesiynau cynghori teithiol ar draws y Fro wledig ar gyfer pobl ifanc nad ydynt mewn gwaith, nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant. Cynhelir y sesiynau hyn gyda phobl ifanc a bydd cynghorwyr gyrfa, staff y ganolfan byd gwaith a staff Coleg Caerdydd a'r Fro wrth law i gynnig gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch y dewis sydd ar gael iddynt.

Bu Cynllun Gwaith y Cyngor yn helpu pobl ifanc yn y categori hwn i ddod o hyd i swyddi. 32 sydd wedi'u cyfeirio at y cynllun ers Ebrill 2013, a 29 ohonynt sy'n gweithio erbyn hyn. 160 sydd wedi'u cyfeirio ers 2011, a 60 ohonynt a gafodd swyddi.

Astudiaethau Achos: Gostwng nifer y bobl ifanc rhwng 14 a 19 oed nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant . Astudiaeth Achos 1




Dyn 24 oed sy'n ddi-waith ers saith mlynedd yw MD. Llafurio am ryw flwyddyn i ddau wahanol gwmni'n syth ar ôl gadael yr ysgol oedd yr unig brofiad a oedd ganddo o weithio. Cafodd ei gyfeirio at amryw o wahanol raglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau yn ystod y saith mlynedd ddiwethaf, gan gynnwys y Fargen Newydd a'r Fargen Newydd Hyblyg. O ganlyniad, y mae nifer o ddarparwyr hyfforddiant lleol, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain a *People Business Wales*. Enillodd nifer o gymwysterau yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys cymhwyster Llythrennedd Cyfrifiadurol a Thechnoleg Gwybodaeth, y Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd a cherdyn Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu. Cafodd MD ei gyfeirio ar y Cynllun Gwaith ym Mehefin 2012 lle cafodd gymorth i lunio CV a'i gofrestru ar gwrs Gwaith Adwerthu. Dysgodd sut y bydd adwerthwyr mawr yn gweithio a beth oedd i'w ddisgwyl gan eu staff. Trefnwyd iddo ymweld â chwmni yswiriant Admiral yng Nghaerdydd a chafodd ddysgu am waith canolfan gyswllt ac amgylchedd gweithio'r staff. Gwnaeth MD gais am rôl, ond nid aeth ymhellach na'r cyfweiliad. Bu'n ymgeisio am 3 neu 4 swydd yr wythnos ond yn methu bob tro oherwydd un ai diffyg profiad neu gymwysterau. Bu hyn i gyd yn gryn ergyd i'w hunanhyder. Daeth ei gerdyn Ardystio Sgiliau Adeiladu i ben yn ystod 2013, a llwyddodd i gael un newydd drwy ddilyn rhagor o hyfforddiant. Roedd yn bosibl wedyn iddo ymgeisio am ragor o swyddi llafurio. Ar ddiwedd Ebrill 2014, cynigiodd y Cynllun Gwaith nifer o gyfweiliadau am swyddi llafurio cyffredin gyda phrosiect lleol, ac anfonwyd MD am gyfweiliad. Gwnaeth yn arbennig o dda yn y cyfweiliad hwnnw a chynigiwyd swydd iddo'r diwrnod wedyn. Mae ganddo swydd amser llawn erbyn ar gontract cyfnod sefydlog am 12 mis i ddechrau a bydd cyfle hefyd iddo wella ei statws o fewn y cwmni.

Astudiaeth Achos 2 Mae R yn derbyn Addysg Amgen ers ei bod yn 14 oed. Bu farw mam R o ganser y fron pan oedd R yn 10 oed gan ei gadael hi a'i brawd. Roedd tad R yn byw yng nghartref y teulu nes i'w mam farw. Bu marwolaeth ei bartner yn ormod o ergyd iddo allu ymdopi â'r straen o ofalu am deulu ar ei ben ei hun. Mae wedi dod o hyd i bartner newydd erbyn hyn ac y mae'r berthynas rhwng y partner hwn ac R yn un anodd a heriol. Anfonwyd R a'i brawd hyn i fyw at eu mam-gu. Ers marwolaeth ei mam, y mae R wedi dioddef mewn sawl ffordd. Bu'n isel ei hysbryd, yn brwydro gydag anhwylder bwyta, yn ei niweidio ei hun ac nid oedd ganddi fawr ddim hunan-barch. Aeth R i gadw cwmni â'r bobl anghywir, ac yr amheuaeth ei bod yn camddefnyddio alcohol a sylweddau ac yn gaeth iddynt. Roedd R yn ifanc iawn pan ddechreuodd gael perthynas rywiol, ac y mae wedi cael llawer iawn o bartneriaid a rhai ohonynt yn hyn na hi. Mae R wedi dadlau â'i mam-gu ac y mae tuedd iddi fynd oddi gartref yn rheolaidd. Mae R yn ferch ifanc fregus iawn sy'n dyheu am ychydig o gariad. Bydd hi bob amser yn siaradus iawn ond ni fydd yn dangos empathi wrth gyfathrebu â phobl eraill. Rydym wedi ymyrryd mewn amryw o ffyrdd er mwyn adeiladu ar sgiliau R a meithrin ei hyder a'i hunan-barch. Mae hi wedi ennill a chwblhau'r canlynol: Unedau Agored Cymru - Paratoi ar gyfer gwaith (Lefel 1); Yr Hunan fel bod cymdeithasol (Lefel 1); Deall agweddau ar ddinasyddiaeth (Lefel 2); Dangos sgiliau siarad a gwrando (Lefel 3); Iechyd Rhywiol (Lefel 2); Cyflwyno Papier Mache (Lefel 2); Gwobrau arian ac efydd y maer; Lleoliad profiad gwaith mewn meithrinfa; gwasanaeth lletygarwch ac arlwygo yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, drwy sesiynau amrywiol a fu o gymorth iddi fagu hyder a deall yr hyn sy'n ei rhwystro rhag cyfathrebu, daeth R i gyfathrebu'n well. Mae ei sgiliau cymdeithasol a'i hunan-barch wedi gwella yn sgîl hynny, ac y mae'n llawer mwy aeddfed. O bryd i'w gilydd, bu'n anodd i R ymdopi â marwolaeth ei mam, a bu'n rhaid iddi gael cymorth unigol gan ei gweithwyr

ieuenctid. Buom yn trafod pob math o ddulliau o ymdopi â'r sefyllfa yn ystod yr adeg honno. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, y mae bywyd R wedi newid yn aruthrol. Ni fydd hi'n treulio ei holl amser sbâr mewn grwpiau mawr yn yfed yn wyllt ac yn ymddwyn mewn ffordd anghymdeithasol fel o'r blaen. Drwy drafod a chynnal rhaglenni â hi a seiliwyd ar broblemau go iawn, bu'n bosibl i ni herio'r syniad a oedd gan R o berthynas iach. Roedd hyn yn ei hysgogi i bwysu a mesur beth yn union a oedd yn gadarnhaol a beth oedd yn negyddol am y cylch o ffrindiau a oedd ganddi'r adeg honno. Mae ganddi gylch arall o ffrindiau erbyn hyn a fu'n dylanwad da ar ei hymddygiad y tu fewn a'r tu allan i sefydliadau addysgol. Yn sgîl y gwaith datblygu ac oherwydd ei haeddfedrwydd ei hun, gwelodd agwedd bersonol R cododd ei huchelgais yn aruthrol. Erbyn hyn, y mae yn y coleg ac wrthi'n cwblhau cyfnod o brofiad gwaith ar gyfer ei dewis yrfa.

Astudiaeth Achos 3 Mae J yn mynychu darpariaeth addysg amgen ers ei fod yn 11 oed ar ôl cael ei ddiarddel o'i ysgol gynradd brif ffrwd. Bu'n byw gyda'i fam a'i fam-gu bob yn ail yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf ac yn adnabyddus iawn i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae gan J 5 o frodyr a chwiorydd o dadau gwahanol, ac y mae wedi'i ddsbarth fel plentyn sy'n cael gofal. Daeth tad biolegol J yn ôl i'r cartref teuluol i fyw 8 mis yn ôl ac ni wyddom ddim o'i hanes. Mae gan J diet afiach; mae'n ordew fel ei frodyr a'i chwiorydd. Cyn i dad J ddychwelyd, bu gan ei fam lawer iawn o bartneriaid, ac yr oedd J a'i frodyr a'i chwiorydd wedi gweld amryw o weithredoedd rhywiol yn cael eu cyflawni. Mae'r teulu'n adnabyddus i'r Heddlu a'r Gwasanaeth Troseddau leuenctid a gwyddom ers tro byd fod J yn cael ei fwlio. Mae'r gymuned wedi troi ei chefn ar y teulu oherwydd ei ymddygiad. Mae mam a thad J ill dau'n ddi-waith. Mae'r teulu'n byw mewn ardal 'cymunedau'n gyntaf' sy'n ddifreintiedig iawn. Pan gyraeddodd J y ddarpariaeth yn 2010, nid oedd ganddo fawr ddim hunan-barch. Byddai'n ymddwyn mewn ffordd blentynnaidd ac yn ambell yn annog y bobl ifanc eraill i wneud yr un fath. Roedd ei diet yn afiach tu hwnt, ac yr oedd yn ordew am rywun o'i oedran a'i daldra. Roedd tuedd i J osgoi sefyllfaoedd heriol a mynd i'w gragen. Mae problemau glendid personol gan J a bydd arno beswch neu annwyd ar hyd yr amser. Mae tuedd i J fod yn gyfrwys ar hyd yr amser. Mae'n adnabyddus am ddwy o siopau ac yn cael ei ddiarddel yn gyffredinol o gymdeithas. Mae J yn hoffi TGaCh ac yn defnyddio ei amser yn yr ysgol yn aml i dynnu sylw at ei fedr yn y maes. Buom yn ymyrryd â sefyllfa J mewn amryw o ffyrdd er mwyn ei helpu i hogi ei sgiliau a magu hunanbarch. Daeth J i ben â nifer o Unedau Agored Cymru: Yr Hunan fel bod cymdeithasol (Lefel 1); Deall agweddau ar ddinasyddiaeth (Lefel 2); Rhywioldeb (Lefel 1); Paratoi ar gyfer gwaith (Lefel 1); Proffil Personol (Lefel 1); Dangos sgiliau siarad a gwrando (Lefel 3). Roedd hefyd wedi ennill Gwobr Efydd Dug Caeredin, ymuno â Phrosiect Ffenics a chael ei leoli am gyfnod o brofiad gwaith yn Fferm Ymddiriedolaeth Amelia. Dechreuodd J gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn y ddarpariaeth. Bu'n ei gyflwyno ei hun yn well ar ôl mynychu gweithdai am lendid; dechreuodd ymfalchïo yn ei olwg, gwisgo dillad glân a defnyddio sent eillio. Dechreuodd J weithio fel rhan o dîm, a rhannu ei sgiliau TGaCh a chyfathrebu mewn ffordd lawer mwy aeddfed. Mae sgiliau cymdeithasol J wedi gwella'n aruthrol, ac y mae'n ei chael hi'n llawer haws dod i benderfyniad cadarnhaol mewn sefyllfa anodd erbyn hyn. Mae wedi dangos cryn fedr wrth ymwneud â ThGaCh, ac yn hyderus iawn wrth siarad am ei ddiddordebau. Mae J hefyd wedi cydnabod yr angen am fod yn ddigon glân a thrwsiadus bob amser er mwyn cyd-fynd â gweddiill y gymdeithas. Er y bydd J yn anaeddfed o hyd o bryd i'w gilydd, y mae'n ei chael hi'n haws o lawer erbyn hyn i bwysu a mesur ei ymddygiad ei hun, a deall sut yn union yr aeth ar gyfeiliorn. Mae presenoldeb J hefyd yn amlwg wedi gwella am ei fod bellach yn cael ei gefnogi a'i ysgogi gan ei rieni.

Ein mesurau cynnydd

Mesurau a thargedau	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Targed 2013/14	Perfformiad 2013/14	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru) ¹⁰
Canran y bobl ifanc y gwyddys nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant ym mlwyddyn 13.	7.7%	4.46%	3.90%	4.8%	4.7%	
Canran y bobl ifanc y gwyddys nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant ym: mlwyddyn 11: mlwyddyn 12:	4.3% 2.1%	3.90% 2.01%	3.25% 1.95%	3.8% 2.0%	3.7% 2.1%	 
Nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu o ddifrif â'r: Hyfforddwr cyn-16 Hyfforddwr ôl -16			20 40	11 33		
Nifer yr ysgolion uwchradd a gynhaliodd ddiwydd 'codi ymwybyddiaeth' fel y câi unrhyw bobl ifanc a oedd mewn perygl o lithro i gategori 'rhai nad ydynt mewn gwaith nac addysg nac yn dilyn hyfforddiant 'wybod am y cyfle am waith a hyfforddiant a gynigid iddynt.			4	7		
Canran y deg ward waethaf yn y Fro am ddiweithdra ymhlith yr ifainc a gafodd ymweliad oddi wrth hyfforddwyr dysgu'r ddarpariaeth deithiol.			100%	100%		
Canran y rhai y deuwyd i gysylltiad â hwy drwy'r ddarpariaeth deithiol sydd bellach yn ymgysylltu â'r gwasanaeth er mwyn gwella eu rhagolygon am waith.			40%	73.8%		

¹⁰ Cyfeiriad y cynnydd- mae hyn yn cymharu perfformiad y Fro ar gyfer 2013/14 â chyfartaledd Cymru (pan fo'r ffigyrau ar gael). Mae saeth sy'n cyfeirio ar i fyny'n dangos bod perfformiad y Fro'n rhagori ar gyfartaledd Cymru ac y mae saeth sy'n cyfeirio ar i lawr yn dangos bod perfformiad y Fro'n is na chyfartaledd Cymru.

5. Perfformiad Bro Morgannwg ar ddiwedd blwyddyn 2013/14: Dangosyddion Perfformiad a gesglir yn genedlaethol

Bob blwyddyn, bydd Llywodraeth Cymru ac Uned Data Llywodraeth Leol yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad nifer o wasanaethau awdurdodau lleol, gan dynnu sylw at unrhyw feysydd lle bu newid mawr yn lefel y perfformiad. Yn y modd yma, gallwn gymharu perfformiad pob un o 22 awdurdod lleol Cymru yn y gwasanaethau hynny â'i gilydd.

Mae'r adran hon yn crynhoi ein perfformiad yn ystod 2013/14 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a pherfformiad pob awdurdod arall.

Sylwer bod y data hwn yn gywir ar 6 Hydref 2014

Perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2012/13)


Yn ystod 2013/14, cafodd 44 o ddangosyddion perfformiad eu casglu a'u cyhoeddi'n genedlaethol. O'r 44 dangosydd, 43 a oedd yn cynnwys data y gellid ei gymharu â data perfformiad 2012/13, a dyma a ddarganfuwyd:

- 9 dangosydd i gyd a nododd y perfformiad gorau posibl yn ystod 2013/14. O'r 9 dangosydd gorau hyn, gwelwyd mai 6 a oedd wedi llwyddo i gynnal eu perfformiad gorau posibl (sef un ai 100% ynteu 0%) pan aed i gymharu data eleni a'r llynedd. Gwelwyd mai un dangosydd yn unig a oedd wedi methu yn hynny o beth pan gymharwyd ei berfformiad yn ystod 2013/14 â'i berfformiad yn ystod 2012/13.¹¹
- 23 dangosydd a nododd welliant mewn perfformiad (yn ôl gwerth y DP). Roedd hyn yn rhagori ar y 21 dangosydd cyfatebol a gofnodwyd y llynedd.
- 14 dangosydd a nododd ddirywiad mewn perfformiad (yn ôl gwerth y DP) yn ystod 2013/14 o'u cymharu â 10 yn ystod 2012/13.
- 8 dangosydd a oedd wedi nodi gwelliant mewn perfformiad yn ystod 2012/13 (yn ôl gwerth y DP) sy'n dangos dirywiad ar gyfer 2013/14¹²
 - 6 dangosydd a nododd fod perfformiad 2013/14 a 2012/13 yr un fath.


¹¹ **Indicator SCC/033e:** SCC/033e: Canran y bobl ifanc 19 oed a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng. Mae'r ganran ar gyfer perfformiad yn ôl y dangosydd hwn wedi gostwng o 7.4% o 100% yn 2012/13 i 92.6% yn 2013/14.

¹² Mae'r dangosyddion hyn yn cynnwys: EDU002i (gostyngiad bychan o 0.1%), EDU/016a (fymryn yn is na'r llynedd - gostyngiad o 0.3%), SCA/001 (1.48 yn llai na'r llynedd), SCA/007 (9.5% yn llai na'r llynedd), SCC/11b (2.8% yn llai na'r llynedd), SCC/037 (27 yn llai na'r llynedd), SCC/011a (1.2% yn llai na'r llynedd), HHA/013 (4.2% yn llai na'r llynedd).

Crynodeb o berfformiad 2013-14



Tuedd Perfformiad 2011/12 o'i gymharu â Pherfformiad 2013/14



Perfformiad y Cyngor yn ôl perfformiad Cymru a Rhanbarth y De-ddwyrain

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer a chanran y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus fesul maes gwasanaeth, sy'n nodi bod perfformiad y Cyngor un ai wedi gwella yn ystod 2013/14 ynteu ei fod yn rhagori ar berfformiad Cymru a Rhanbarth y De-ddwyrain yn gyffredin, ynteu ei fod wedi gwella ac yn rhagori ar y perfformiadau hynny.

Maes gwasanaeth	% y dangosyddion cymaradwy a nododd welliant. ¹³				Cymhariaeth â Chymru a De-ddwyrain Cymru'n gyffredinol ar gyfer 2013/14 ¹⁴		
	Nifer y dangosyddion	Y Fro	Cymru	De-ddwyrain Cymru	Nifer y dangosyddion	Y Fro'n rhagori ar Gymru'n gyffredinol	Y Fro'n rhagori ar Dde-ddwyrain Cymru
Gofal Cymdeithasol	20	35% (7)	60% (12)	65% (13)	20	50% (10)	50% (10)
Addysg	11	73% (8)	81.8% (9)	91% (10)	11	91% (10)	91% (10)
Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth	3*	100% (3)	67% (2)	100% (3)	3	33% (1)	0% (0)
Tai'r Sector Preifat	2	100% (2)	100% (2)	100% (2)	2	50% (1)	50% (1)
Digartrefedd	0*	ANHYSBYS	ANHYSBYS	ANHYSBYS	0	ANHYSBYS	ANHYSBYS
Cynllunio a Rheoli	2	50% (1)	50% (1)	50% (1)	2	0% (0)	0% (0)
Hamdden a Diwylliant	2	0% (0)	50% (1)	0% (0)	2	50% (1)	50% (1)
Rheoli Gwastraff	2	100% (2)	100% (2)	100% (2)	2	50% (1)	50% (1)
Yn Gyffredinol	42*	52% (22)	69% (29)	74% (31)	42*	57% (24)	55% (23)


* Dangosydd STS/006 – nid oes data cymaradwy ar gyfer for 2012/13

* Dangosydd HHA/013 – nid oes data cymaradwy ar gyfer 2012/13 na 2013/14

¹³ Mae'r rhan hon o'r tabl yn dangos canran (a nifer) y dangosyddion a nododd berfformiad gwell yn ystod 2013/14 nag yn ystod y flwyddyn flaenorol (2012/13). Cymherir data ein Cyngor ni, Cymru a De-ddwyrain Cymru.

¹⁴ Mae'r rhan hon o'r tabl yn dangos canran (a nifer) y dangosyddion a nododd fod perfformiad y Cyngor wedi rhagori ar berfformiad Cymru neu Dde-ddwyrain Cymru'n gyffredinol.

Mae'r siart ganlynol yn dangos ein perfformiad ym mhob chwarter o'i gymharu â pherfformiad Awdurdodau Lleol eraill Cymru rhwng 2011 a 2013/14



Yn ystod 2013/14:

- 43% (19) o ddangosyddion a ddsbarthwyd yn y chwarter uchaf o ran perfformiad.
- 34% (15) o ddangosyddion a ddsbarthwyd yn y chwarter canol o ran perfformiad.
- 20% (9) o ddangosyddion a ddsbarthwyd yn y chwarter isaf o ran perfformiad.

EIN DANGOSYDDION PERFFORMIAD: TABL PERFFORMIAD

Allwedd Lliw/Symbolau:



Y Chwarterel Uchaf



Y Chwarterelau Canol



Y Chwarterel Isaf



Gwella



Dirywio



Dim newid/yn aros yr un fath

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwarterel
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	SCA/001:Nifer y rhai fesul 1,000 o'r boblogaeth sydd o leiaf 75 oed y bu oedi wrth eu hatgyfeirio ar gyfer gofal cymdeithasol	7.90	6.60	4.57	8.17		4.70	18	4
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	SCA/002a: Nifer y bobl hŷn (sydd o leiaf 65 oed) a gafodd gymorth yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth a oedd o leiaf 65 oed ar 31 Mawrth	55.62	47.66	77.53	47.49		74.48	20	4




Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwarter
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	SCA/002b: Nifer y bobl hŷn (sydd o leiaf 65 oed) y bydd yr awdurdod yn eu cynnal mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth a oedd o leiaf 65 oed ar 31 Mawrth	18.61	16.96	20.63	14.74	↑	19.84	2	1
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	SCA/007: Canran y cleientiaid a chanddynt gynllun gofal ar 31 Mawrth a ddylai fod wedi'i adolygu yn ystod y flwyddyn, a gafodd ei adolygu yn ystod y flwyddyn	86.8%	87.8%	80.9%	78.3%	↓	81.1%	16	3
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	SCA/018a: Canran gofalwyr oedolion a gafodd gynnig asesu neu adolygu eu hanghenion drwy eu hawl eu hun yn ystod y flwyddyn	100%	100%	86.8%	100%	Sicrhau'r perfformiad gorau posibl	85.8%	1	1

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwarter
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	SCA/0019: Canran yr oedolion a atgyfeiriwyd ar gyfer eu diogelu y llwyddwyd i'w diogelu drwy reoli'r perygl	98.15%	95.83%	91.84%	100%	Sicrhau'r perfformiad gorau posibl	94.45%	1	1
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	SCA/020: Canran y cleientiaid mewn oed a gafodd gymorth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn	78.80%	79.03%	86.16%	83.85%	↑	86.33%	18	4
Gwasanaethau Plant	SCC/001a: Canran y plant dan ofal a leolwyd yn ystod y flwyddyn am y tro cyntaf yr oedd cynllun gofal ar eu cyfer o'r dechrau	100%	100%	89.1%	100%	Sicrhau'r perfformiad gorau posibl	90.9%	1	1

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartel
Gwasanaethau Plant	SCC/002: Canran y plant o dan ofal ar 31 Mawrth, a oedd wedi newid ysgol o leiaf unwaith yn ystod y 12 mis cyn hynny, am resymau ar wahân i bontio, tra eu bod yn cael gofal ofal	9.9%	21.7%	13.7%	16.4%	↑	13.8%	16	3
Gwasanaethau Plant	SCC/004: Canran y plant o dan ofal ar 31 Mawrth a gafodd eu lleoli o leiaf deirgwaith yn ystod y flwyddyn	7.9%	11.7%	9.4%	10.4%	↑	8.3%	15	3
Gwasanaethau Plant	SCC/011a: Canran yr asesiadau cyntaf a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn sy'n dangos bod y plentyn wedi gweld y gweithiwr cymdeithasol	66.6%	68.6%	75.4%	67.4%	↓	78.9%	21	4
Gwasanaethau	SCC/011b: Canran yr	21.5%	24.3%	37.5%	21.5%	↓	42.9%	22	4




Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartel
Plant	asesiadau cyntaf a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn sy'n dangos bod y plentyn wedi gweld y gweithiwr cymdeithasol ar ei ben ei hun								
Gwasanaethau Plant	SCC/025: Nifer yr ymweliadau statudol â phlant dan ofal a ddylai fod wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y rheoliadau	99.7%	95.2%	83%	95.3%	↑	85.3%	3	1
Gwasanaethau Plant	SCC/030a: Canran y gofalwyr ifainc a oedd yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd eu hasesu	100%	100%	92.3%	100%	Sicrhau'r perfformiad gorau posibl	85.9%	1	1
Gwasanaethau Plant	SCC/033d ¹⁵ : Canran y bobl ifanc a fu o dan ofal yr awdurdod yn y gorffennol a oedd yn dal mewn cysylltiad â'r awdurdod ar ôl	-	100%	93.4%	100%	Sicrhau'r perfformiad gorau posibl	93.4%	1	1

¹⁵ Ailddiffiniwyd y dangosydd hwn ar gyfer 2012/13.

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartel
	gyrraedd eu 19 oed								
Gwasanaethau Plant	SCC/033e ¹⁶ : Canran y bobl ifanc a fu dan ofal yr awdurdod ac sy'n dal mewn cysylltiad â'r awdurdod, y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad oedd yn llety argyfwng, ar ôl iddynt gyrraedd eu 19 oed	-	100%	93.2%	92.6%		92.7%	12	3
Gwasanaethau Plant	SCC/033f ¹⁷ : Canran y bobl ifanc a fu dan ofal yr awdurdod ac sy'n dal mewn cysylltiad â'r awdurdod y gwyddys eu bod un ai mewn gwaith neu addysg ynteu'n dilyn hyfforddiant ar ôl iddynt gyrraedd eu 19 oed	-	55.6%	56.4%	44.4%		54.8%	16	3
Gwasanaethau Plant	SCC/037: Nifer y pwyntiau a sgoriodd plant dan ofal 16 oed ar gyfartaledd am	254.7	375	221	348		262	3	1


¹⁶ Ailddiffiniwyd y dangosydd hwn ar gyfer 2012/13.

¹⁷ Ailddiffiniwyd y dangosydd hwn ar gyfer 2012/13

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartel
	gymwysterau allanol mewn unrhyw ganolfan ddysgu a gynhelir gan yr awdurdod								
Gwasanaethau Plant	SCC:041a: Canran y plant perthnasol cymwys a phlant perthnasol blaenorol a gafodd gynllun llwybr yn ôl y gofyn	100%	100%	89.5%	100%		89.2%	1	1
Gwasanaethau Plant	SCC/045: Canran yr asemiadau o blant dan ofal, plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant mewn angen, a gynhaliwyd yn unol â'r amserlen statudol	97.4%	96.6%	86.4%	98%		89.6%	1	1
Addysg	EDU/002i: Canran y disgyblion (gan gynnwys rhai dan ofal yr awdurdod) a oedd yn 15 oed erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol, ac yn mynychu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sydd wedi gadael addysg	0.5%	0.1%	0.4%	0.2%		0.3%	12	3



Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartel
	orfodol, hyfforddiant neu hyfforddiant mewn swydd heb unrhyw gymwysterau allanol cymeradwy								
Addysg	EDU/002ii: Nifer y plant dan ofal yr awdurdod a oedd yn 15 oed erbyn 31 Mawrth yn y flwyddyn flaenorol ac yn mynychu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a oedd wedi gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu hyfforddiant mewn swydd heb unrhyw gymwysterau allanol cymeradwy	0.0%	0.0%	5.7%	0.0%	Sicrhau'r perfformiad gorau posibl	2.0%	1	1
Addysg	EDU/003: Canran y disgyblion aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro	81.1%	86.0%	82.8%	88.0%	↑	84.6%	4	1

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartel
Addysg	EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd yn ôl Asesiad Athro	71.9%	72.4%	72.7%	82.5%	↑	77.2%	4	1
Addysg	EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, drwy Asesiad Athro mewn Cymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3	7.5%	8.4%	16.8%	9.2%	↑	17.0%	16	3
Addysg	EDU/011: Nifer y pwyntiau ar gyfartaledd a sgoriodd disgyblion a oedd yn 15 oed erbyn 31 Awst yn y flwyddyn flaenorol	471.9	515.0	468.3	557.2	↑	505.3	3	1

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartel
	ac yn mynychu ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol								
Addysg	EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyflwynwyd cyn pen 26 wythnos gan gynnwys achosion eithriedig	52.4%	47.8%	69.9%	100%	Sicrhau'r perfformiad gorau posibl	69.6%	1	1
Addysg	EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyflwynwyd cyn pen 26 wythnos ac eithrio achosion eithriedig	91.7%	95.7%	95.9%	100%	Sicrhau'r perfformiad gorau posibl	96.6%	1	1
Addysg	EDU/016a: Canran presenoldeb mewn ysgolion cynradd	93.8%	94.5%	93.9%	94.2%		93.7%	7	2

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartel
Addysg	EDU/016b: Canran presenoldeb mewn ysgolion uwchradd	91.4%	92.8%	92.1%	93.4%	↑	92.6%	4	1
Addysg	EDU/017 ¹⁸ : Canran y disgyblion a oedd yn 15 oed erbyn 31 Awst yn y flwyddyn flaenorol ac yn mynychu ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a oedd wedi sicrhau trothwy Lefel 2 gan gynnwys arholiad TGAU gradd A* - C yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg	56%	55.3%	50.7%	55.4%	↑	52.5%	8	2
Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth	STS/005b: Nifer y priffyrdd a archwiliwyd yr oedd eu safon o lendid yn dderbyniol neu'n uchel	90.1%	93.0%	95.8%	96.3%	↑	96.8%	13	3

¹⁸ Dangosydd newydd ar gyfer 2012/13 oedd hwn




Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartzel
Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth	STS/006: Canran yr achosion o ddympio ysbwriel yn anghyfreithlon a gliriwyd cyn pen 5 niwrnod gwaith	100%	- ¹⁹	92.16%	80.26%	Anhysbys	95.03%	22	4
Tai	HHA/013: ²⁰ Canran yr holl deuluoedd a fu mewn perygl o fynd yn ddigartref y llwyddwyd i'w hachub rhag mynd yn ddigartref am o leiaf 6 mis	75.5%	83.7%	62.6%	79.5%		66.4%	Anhysbys	Anhysbys
Hamdden, Diwylliant a Chwaraeon	LCS/002(b) ²¹ : Nifer yr unigolion fesul 1,000 o'r boblogaeth a fu'n ymweld â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn er mwyn gwneud gweithgareddau	-	7,048 ²²	8,856	6,544		8,954	21	4

¹⁹ Ni chyflwynwyd y data hwn ar gyfer 2012/13 am i Archwilio Mewnol bennu nad oedd digon o ddystiolaeth i allu cadarnhau ffigyr

²⁰ Am nad oedd data cymaradwy ar gyfer Cymru'n gyffredinol yn ystod 2013/14, nid oedd modd dangos gradd na chwartzel

²¹ Newidiwyd y Dangosydd hwn ar gyfer 2012/13

²² Cadarnhawyd y Dangosydd hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartzel
	corfforol								
Llyfrgelloedd	LCL/001(b): Nifer yr unigolion fesul 1,000 o'r boblogaeth a fu'n ymweld â Llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn	7,100	7,042	5,968	6,819		5,851	5	1
Cynllunio	PLA/006(b) ²³ : Canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn unedau fforddiadwy	-	65%	44%	31%		37%	12	3
Adnewyddu'r Sector Preifat	PSR/002: Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r	399 o ddiwrnodau	346 o ddiwrnodau	271 o ddiwrnodau	284 o ddiwrnodau		239 o ddiwrnodau	18	4

²³ Newidiwyd y Dangosydd hwn ar gyfer 2012/13. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru'n amau nad oedd y data cenedlaethol a gasglodd Llywodraeth Cymru ar gyfer y dangosydd hwn yn ddigon cadarn, felly penderfynodd gymhwyso'r data ar gyfer DP 2012/13. Digwyddodd hynny am i Lywodraeth Cymru ailddiffinio'r Dangosydd Perfformiad hwn yn union ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2012-13, ac y bu'n rhaid cyflwyno data 'flwyddyn ar ei hôl hi' o ganlyniad. Roedd amheuaeth hefyd ynglŷn â chywirdeb ffigyrau amcan Llywodraeth Cymru ar draws Cymru. Er i'r dangosydd gael ei ddiffinio'n eglur ar gyfer 2013/14, yr ydym yn dal i gyflwyno data 'flwyddyn ar ei hôl hi', a defnyddiwyd data ar gyfer 2012/13 i fesur ein perfformiad yn ystod 2013/14. Buasai data 2013/14 yn ein gosod yn yr ail chwartzel ar gyfer y dangosydd hwn o'n cymharu â gweddill Cymru. Serch hynny, am resymau na fu'n bosibl eu rheoli, nid oedd modd defnyddio'r ffigyrau hynny.

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartel
	Anabl								
Adnewyddu'r Sector Preifat	PSR/004: Canran y tai sector preifat a fu'n wag ers mwy na 6 mis ar 1 Ebrill a ailgyfaneddwyd yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol yr awdurdod lleol	1.35%	2.03%	5.11%	49.15%	↑	9.23%	2	1
Amddiffyn y Cyhoedd	PPN/009: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd	80.60%	83.03%	86.63%	85.29%	↑	90.33%	20	4
Trafnidiaeth a Phriffyrdd	THS/007: Canran yr oedolion dros 60 oed a chanddynt docyn mantais bws	80.0%	79.4%	84.8%	80.4%	↑	84.3%	15	3
Trafnidiaeth a Phriffyrdd	THS/012 ²⁴ : Canran y prif ffyrdd yn nosbarth A, ffyrdd yn nosbarth B nad ydynt yn brif ffyrdd a ffyrdd yn nosbarth C nad ydynt yn brif ffyrdd sydd	13.5%	10.3%	13.4%	9.9%	↑	13.2%	14	3

²⁴ Dangosydd newydd ar gyfer 2012/13 oedd hwn

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Perfformiad 2011/12	Perfformiad 2012/13	Cyfartaledd Cymru 2012/13	Perfformiad 2013/14	Cyfeiriad y cynnydd	Cyfartaledd Cymru 2013/14	Gradd	Chwartzel
	mewn cyflwr gwael yn gyffredinol								
Rheoli Gwastraff	WMT/004(b): Canran y gwastraff dinesig a gesglir gan awdurdodau lleol sy'n cael ei anfon i safle tirlenwi	-	45.23%	41.03%	43.18%	↑	37.72%	15	3
Rheoli Gwastraff	WMT/009(b): Canran y gwastraff dinesig a gesglir gan awdurdodau lleol, gan gynnwys gwastraff pydredig a ddiolwyd eisoes, sy'n cael ei aildefnyddio a/neu ei ailgylchu neu'i drwy fath arall o broses fiolegol	-	54.48%	52.26%	54.77%	↑	54.33%	10	2

Sylwadau ar ddangosyddion y chwarter isaf:

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Sylwadau ar berfformiad 2013/14
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	SCA/001:Nifer y rhai fesul 1,000 o'r boblogaeth sydd o leiaf 75 oed y bu oedi wrth eu hatgyfeirio ar gyfer gofal cymdeithasol	Mae'r galw am wasanaethau gofal cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol. Roedd 70% o'r achosion o oedi wedi digwydd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn pan oedd amryw o swyddi gwag mewn timau allweddol. Mae'r swyddi wedi'u llenwi erbyn hyn a byddwn yn asesu'r sefyllfa'n ofalus er mwyn ei chadw o dan reolaeth. Petai'r perfformiad yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn gystal ag yn ystod ail hanner, byddai'r canlyniad yn 4.35.
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	SCA/002a: Nifer y bobl hŷn (sydd o leiaf 65 oed) a gafodd gymorth yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth a oedd o leiaf 65 oed ar 31 Mawrth	Am fod nifer y bobl dros 65 oed yn ardal yr awdurdod yn cynyddu ar hyd yr amser (991 a gofnodwyd yn 2013/14), bydd yn frwydr darparu ar gyfer rhagor o'r garfan hon fesul 1,000 o'r boblogaeth er bod mwy o wasanaethau cymunedol erbyn hyn.
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	SCA/020: Canran y cleientiaid mewn oed a gafodd gymorth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn	Mae nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaeth yn y gymuned yn dal i gynyddu, a'r bwlch rhwng perfformiad yr awdurdod hwn a pherfformiad Cymru'n gyffredinol wedi'i leihau o bron i 5%. Mae'r duedd hon yn parhau yn ystod 2014/15.
Gwasanaethau Plant	SCC/011a: Canran yr asesiadau cyntaf a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn sy'n dangos bod y plentyn wedi gweld y gweithiwr cymdeithasol	Fel y bo hynny'n briodol, bydd asesiadau cyntaf yn cael eu cwblhau a bydd plant yn gweld Swyddog Gofal Cymdeithasol yn hytrach na gweithiwr cymdeithasol, ond ni chawn gyfrif y rhain yn ôl y diffiniad. 81% a gafodd ymweliad gan weithiwr. Bydd rheolwyr yn adolygu ac yn monitro dulliau gweithredu a phrosesau cofnodi asesiadau cyntaf.
Gwasanaethau Plant	SCC/011b: Canran yr asesiadau cyntaf a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn sy'n dangos bod y plentyn wedi gweld y gweithiwr cymdeithasol ar ei ben ei hun	Ni fydd bob amser yn briodol i blentyn weld gweithiwr ar ei ben ei hun. Bydd rheolwyr yn adolygu ac yn monitro dulliau gweithredu a phrosesau cofnodi asesiadau cyntaf.
Yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth	STS/006: Canran yr achosion o ddympio ysbwriel yn anghyfreithlon y tynnwyd sylw'r awdurdod	Y llynedd, drwy brosesau archwilio mewnol, daethom o hyd i wallau yn y system sy'n cael ei defnyddio i gasglu data ar gyfer y dangosydd

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Sylwadau ar berfformiad 2013/14
	atynt a gafodd eu clirio cyn pen 5 niwrnod gwaith	<p>hwn. Buom yn cymryd camau i roi dull newydd o gasglu data ar waith, ers hynny, er mwyn gwella ansawdd ein data.</p> <p>Daeth dull newydd o gyflwyno data i rym ar 1 Gorffennaf 2013. O ganlyniad, cyflwynwyd data ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Gorffennol 2013 - 31 Mawrth 2014, yn hytrach nag ar gyfer y flwyddyn ariannol i gyd. Rydym yn dal i wella ein prosesau casglu ar gyfer y dangosydd hwn, ac yn ffyddiog y bydd ffigyrau 2013/14 yn dangos bod ansawdd ein data wedi gwella unwaith eto.</p>
Hamdden, Diwylliant a Chwaraeon	LCS/002(b) ²⁵ : Nifer yr unigolion fesul 1,000 o'r boblogaeth a fu'n ymweld â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn er mwyn gwneud gweithgareddau corfforol	<p>Mae'r ffigwr ar gyfer perfformiad yn destun trafodaethau â chwmni Parkwood Leisure am i broblemau godi ynglŷn â chasglu data. Sylwer mai Cyngor Bro Morgannwg oedd y gorau yng Nghymru o safbwynt gweithgarwch corfforol oedolion ac yn ail yn yr arolwg chwaraeon ysgolion sy'n mesur lefelau gweithgarwch plant a phobl ifanc. Mae cau pwll nofio Penarth yn sgîl tân hefyd wedi effeithio ar nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol.</p> <p>Rydym wedi dechrau adolygu dulliau casglu data ar y cyd â chwmni Parkwood Leisure. Byddwn hefyd yn monitro cofnodion data er mwyn sicrhau bod cwmni Parkwood yn perfformio ac yn hyrwyddo'r gwasanaeth yn ôl y disgwyl.</p>
Adnewyddu'r Sector Preifat	PSR/002: Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl	<p>Roedd perfformiad y gwasanaeth yn y Fro'n 18% yn well eleni nag yn ystod 2012/13. Er bod y cynnydd hwn yn fwy nag yng Nghymru'n gyffredinol, y mae gwasanaeth grantiau cyfleusterau wedi gwella yng Nghymru'n gyffredinol, a'n gradd ninnau wedi aros yr un fath yn union.</p> <p>Mae'r gwasanaeth grantiau cyfleusterau'n parhau i wella ac y mae'r amserau darparu a gofnodwyd ar gyfer 2014/15 yn tystio i hynny. Mae'r camau a gymerwyd i ddiwygio'r gwasanaeth a buddsoddi ynddo</p>

²⁵ Newidiwyd y dangosydd hwn ar gyfer 2012/13

Maes gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Sylwadau ar berfformiad 2013/14
		<p>yn ail hanner 2013/14 yn dechrau dwyn ffrwyth. 239 o ddiwrnodau oedd ein perfformiad yn ôl y dangosydd hwn ar ddiwedd Chwarter 1 a gwelir rhagor o gynnydd yn Chwarter 2. 216 oedd y nifer a gofnodwyd yn ôl y dangosydd am y cyfnod ar ôl 26 Awst 2014.</p> <p>Ym mis Medi, bydd data meincnodi profedig ar gael drwy Uned Data Cymru. Bydd hwn yn helpu swyddogion i nodi'r agweddau ar y perfformiad sydd angen eu gwella. Bydd hefyd o gymorth i leddfu'r pryder y bydd nifer o awdurdodau lleol eraill yn mesur y dangosydd hwn o fan cychwyn gwahanol.</p>
Amddiffyn y Cyhoedd	PPN/009: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd	<p>Mae perfformiad o safbwynt cydymffurfio wedi gwella bob blwyddyn yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf. Wedi dweud hynny, mesur o gydymffurfiaid â deddfwriaeth yw cydymffurfiaid bras. Mae cynnydd yng nghanran y busnesau bwyd sy'n cydymffurfio'n tystio i'r hyfforddiant a gynigiwyd iddynt. Byddwn yn parhau i ddefnyddio nawdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd i gynnig rhagor o hyfforddiant fel y medr busnesau wella a chydymffurfio'n fwy manwl â'r safonau.</p>